# Cod Ymarfer
# Cyfraith Bwyd (Cymru)

(Cyhoeddwyd Hydref 2025)

Asiantaeth Safonau Bwyd

**Cynnwys**

**Pennod 1 Cyflwyniad** .......... **1**
**Pennod 2 Gweinyddu, cysylltu, a chydgysylltu** .......... **3**
2.1 Cyflwyniad .......... 3
2.2 Gofynion cyffredinol .......... 3
2.3 Gofynion sy’n ymwneud â gweithdrefnau, polisïau, cynlluniau a rhaglenni dogfenedig .......... 3
2.3.1 Gweithdrefnau dogfenedig .......... 4
2.3.2 Polisïau dogfenedig .......... 10
2.3.3 Cynlluniau, rhaglenni a strategaethau dogfenedig .......... 11
2.4 Dirprwyo rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill .......... 14
2.5 Cyswllt lleol, rhanbarthol a chenedlaethol .......... 14
2.5.1 Trefniadau cyswllt .......... 14
2.5.2 Cyswllt â’r ASB .......... 15
2.5.3 Cyswllt mewn mannau cyrraedd .......... 15
2.5.4 Cyswllt mewn ardaloedd ag Awdurdod Cymwys dwy haen .......... 16
2.6 Cyfleusterau ac offer .......... 16
2.6.1 Penodi Dadansoddwr Cyhoeddus .......... 17
2.6.2 Rhestrau o sefydliadau bwyd .......... 17
2.6.3 Ffeiliau cofnodion sefydliadau .......... 17
2.6.4 Manylion sefydliadau cofrestredig .......... 18
2.7 Proses gymeradwyo .......... 18
2.7.1 Ceisiadau .......... 18
2.7.2 Penderfynu ar geisiadau am gymeradwyaeth .......... 19
2.7.3 Cymeradwyaeth amodol a chymeradwyaeth lawn .......... 19
**Pennod 3 Awdurdodi, cymwysterau a chymhwysedd** .......... **21**
3.1 Cyflwyniad .......... 21
3.2 Penodi swyddogion .......... 21
3.2.1 Swyddogion bwyd arweiniol .......... 21
3.2.2 Awdurdodi swyddogion .......... 21
3.2.3 Cymwysterau .......... 22
3.2.4 Cymhwysedd .......... 27

3.3 Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus arall ..... 28
3.4 Swyddogion sy'n cynnal rheolaethau mewnforio mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin ..... 29
3.4.1 Rheolaethau mewnforio ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin ..... 29
3.4.2 Swyddogion sy'n cynnal rheolaethau mewnforio ar gynhyrchion nad ydynt yn dod o anifeiliaid mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin ..... 31
3.4.3 Rhaglen hyfforddi ar gyfer swyddogion sy'n cynnal gwiriadau ffisegol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin, neu'n cynorthwyo â'r gwiriadau hynny ..... 31
**Pennod 4 Cynnal rheolaethau swyddogol ..... 33**
4.1 Cyflwyniad ..... 33
4.2 Pa mor aml y dylid cynnal rheolaethau swyddogol ..... 33
4.2.1 Hylendid bwyd ..... 33
4.2.2 Safonau bwyd ..... 34
4.2.3 Cynhyrchu cynradd ..... 34
4.2.4 Rheolaethau swyddogol cychwynnol ..... 34
4.2.5 Rheolaethau swyddogol dyledus ..... 38
4.2.6 Adolygu sgoriau ymyriadau ..... 38
4.3 Dulliau a thechnegau o gynnal rheolaethau swyddogol ..... 39
4.3.1 Hylendid bwyd ..... 40
4.3.2 Safonau bwyd ..... 41
4.3.3 Samplu, dadansoddi ac archwilio ..... 41
4.4 Cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill ..... 46
4.4.1 Cynnal rheolaethau swyddogol ar longau ac awyrennau ..... 48
4.5 Rheolaethau answyddogol ..... 51
4.6 Cofnodion rheolaethau swyddogol a rheolaethau answyddogol ..... 51
4.7 Rheolaethau mewnforio ..... 53
4.7.1 Gweithdrefnau ar gyfer bwyd a fewnforir ..... 53
4.7.2 Monitro llwythi ..... 54
4.7.3 Rheolaethau swyddogol ar ddulliau cludo a phecynnu ..... 57
4.7.4 Cyswllt/atgyfeiriadau ..... 57
**Pennod 5 Digwyddiadau, rhybuddion, a throseddau bwyd ..... 59**
5.1 Cyflwyniad ..... 59

5.2 Digwyddiadau bwyd a pheryglon bwyd ..... 59
5.2.1 Digwyddiadau bwyd ..... 59
5.2.2 Peryglon bwyd ..... 59
5.3 Gweithredu gan yr Awdurdod Cymwys ..... 60
5.3.1 Ymatebion i gyswllt cyn digwyddiad gan yr ASB ..... 60
5.3.2 Digwyddiadau sy’n cynnwys mwy nag un Awdurdod Cymwys ..... 61
5.3.3 Asesu peryglon bwyd ..... 61
5.3.4 Dadansoddiad o wraidd y broblem ..... 62
5.3.5 Halogi bwriadol ac ymyrraeth faleisus ..... 63
5.3.6 Peryglon bwyd sy’n gysylltiedig â brigiad o achosion o salwch a gludir gan fwyd ..... 63
5.3.7 Digwyddiadau bwyd nad ydynt yn beryglus ..... 63
5.3.8 Mynediad at wybodaeth ..... 64
5.4 Rhybuddion bwyd ..... 64
5.4.1 Diffiniadau ..... 64
5.4.2 Cyfleusterau i gael Rhybuddion Bwyd a diweddariadau ..... 65
5.4.3 Gweithredu gan Awdurdodau Cymwys pan fydd Rhybuddion Bwyd yn dod i law65
5.4.4 Cysylltiadau â’r cyfryngau – Rhybuddion Bwyd ..... 65
5.5 Cyfathrebu a chyswllt rhwng Awdurdodau Cymwys a gwledydd y tu allan i’r DU 66
5.5.1 Hysbysu am faterion trawsffiniol ..... 66
5.5.2 Cyswllt a chyfathrebu â gwledydd y tu allan i’r DU ..... 66
5.5.3 Cyfathrebu â Safonau Bwyd yr Alban ..... 66
5.6 Gwasanaeth y tu allan i oriau arferol ..... 66
5.7 Rhoi gwybod i NFCU yr ASB am amheuon o ran troseddau bwyd ..... 67
**Pennod 6 Gorfodi ..... 68**
6.1 Cyflwyniad ..... 68
6.2 Pwerau mynediad ..... 68
6.3 Camau gorfodi ..... 69
6.3.1 Diffyg cydymffurfio a amheuir ..... 69
6.3.2 Diffyg cydymffurfio a gadarnheir ..... 69
6.3.3 Blaenoriaethu ..... 69
6.3.4 Hierarchaeth y camau gorfodi ..... 69

6.3.5 Hysbysu am gamau gorfodi ........ 70
6.4 Camau gorfodi a chyflwyno hysbysiadau ........ 70
6.4.1 Gwiriadau dilynol ........ 71
6.4.2 Gwirio cydymffurfiaeth â chamau gorfodi ffurfiol ........ 72
**Pennod 7 Materion sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw (pysgod cregyn) 73**
7.1 Cyflwyniad ........ 73
7.2 Cofrestru casglwyr pysgod cregyn ........ 73
7.3 Ardaloedd cynhyrchu ac ailosod ........ 73
7.3.1 Dosbarthu a monitro ardaloedd cynhyrchu ac ailosod ........ 73
7.4 Trefniadau cyswllt ar gyfer pysgod cregyn ........ 74
7.5 Dogfen gofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw, ac eithriadau ........ 74
7.5.1 Dogfennau cofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw . 74
7.5.2 Eithriad rhag defnyddio dogfennau cofrestru ........ 75
7.5.3 Archwilio dogfennau cofrestru ........ 76
7.6 Gweithredu ar ôl cymryd sampl rheolaeth swyddogol nad yw'n cydymffurfio 76
7.6.1 Trefniadau cyswllt ar ôl cymryd sampl rheolaeth swyddogol nad yw'n cydymffurfio ........ 76
7.7 Molysgiaid dwygragennog byw a physgod cregyn eraill nad ydynt yn bodloni gofynion ........ 77
7.8 Molysgiaid dwygragennog byw a fewnforiwyd ........ 77
**Rhestr termau** ........ 78
**Atodiad 1 Cynlluniau Sgorio Ymyriadau mewn Sefydliadau Bwyd ........ 92**
A1.1 Y system sgorio hylendid bwyd ........ 92
**Rhan 1: Y perygl posibl – Mae tri ffactor yn pennu'r perygl posibl:** ........ 92
**Rhan 2: Lefel gydymffurfiaeth (gyfredol)** ........ 95
**Rhan 3: Hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli** ........ 97
**Rhan 4: Amlder ymyriadau hylendid bwyd** ........ 101
A1.2 Y system sgorio safonau bwyd ........ 102
A1.3 Tabl 1: Proffil Risg Gynhenid – Canllawiau ar y system sgorio ........ 103
A1.4 Tabl 2: Asesiad Cydymffurfiaeth – Canllawiau o ran y system sgorio ...... 107
A1.5 Matrics Penderfynu ........ 112

**Atodiad 2 Trefniadau trosiannol ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol ar safonau bwyd: .......................................................................................... 114**

# Pennod 1 Cyflwyniad

Yng Nghymru, cyhoeddir y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (y Cod) o dan Adran 40(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliad 24(1) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliad 6(1) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 sy'n rhoi pŵer i weinidogion Cymru ddyroddi Codau Ymarfer o ran gweithredu a gorfodi deddfwriaeth bwyd gan Awdurdodau Cymwys.

Mae'r Cod:

- wedi ei ysgrifennu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a'i ddyroddi gan weinidogion Cymru
- wedi ei gyfeirio at Awdurdodau Cymwys (awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd) sy'n gyfrifol am gynnal rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill, ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain, fel rheolaethau answyddogol
- yn amlinellu sut y gall Awdurdodau Cymwys sicrhau ansawdd, cysondeb, effeithiolrwydd a phriodoldeb rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill, ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain

Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Cymwys i wneud y pethau a ganlyn:

- gorfodi gofynion cyfraith bwyd
- rhoi sylw i'r Cod[1]
- cyflawni eu dyletswyddau statudol mor effeithiol â phosib, gan ddefnyddio'r dulliau sydd fwyaf priodol i'r amgylchiadau

Dylai Awdurdodau Cymwys gymhwyso'r Cod yn yr un modd i waith pob swyddog awdurdodedig sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill, a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain, boed yn swyddog wedi'i gontractio, yn swyddog parhaol neu'n swyddog dros dro.

Dylid ystyried y gallai'r holl gyfeiriadau at ddeddfwriaeth a geir yn y Cod gael eu diwygio neu'u dirymu ac, oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau rheoleiddiol yn cyfeirio at gyfraith a gymathwyd.

Cyfrifoldeb yr Awdurdodau Cymwys yw sicrhau eu bod yn cyfeirio'n gywir at y fersiynau cyfredol o ddeddfwriaeth berthnasol wrth gynnal rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill, ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain.

---

[1] Adran 40(2)(a) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliad 6(3)(a) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, a Rheoliad 26(3)(a) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

Os bydd Awdurdodau Cymwys yn methu ag ystyried darpariaethau perthnasol y Cod, gallai eu penderfyniadau neu eu gweithredoedd fod yn destun her gyfreithiol lwyddiannus.

Ar ôl ymgynghori â gweinidogion Cymru, caiff yr ASB ddyroddi cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cymwys gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i gydymffurfio â'r Cod.[2]

Oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau at benodau ac adrannau yn y Cod yn cyfeirio at y rhannau perthnasol o'r Cod. Yn ogystal, ceir rhestr termau sy'n cynnwys diffiniadau o'r termau a'r byrfoddau a ddefnyddir drwy'r Cod.

Mae'r ASB yn cyhoeddi Canllawiau Ymarfer sy'n cynnwys canllawiau anstatudol o ran gofynion y Cod a gwybodaeth arall a allai fod yn ddefnyddiol i Awdurdodau Cymwys.

Am gyfnod o 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r Cod hwn, neu o'r adeg honno (os yw'n gynharach) y bydd Awdurdod Cymwys wedi hysbysu'r ASB ei fod mewn sefyllfa i gynnal y rheolaethau swyddogol safonau bwyd a nodir ym Mhennod 4 (Cynnal Rheolaethau Swyddogol), Pennod 6.4.1 (Gwiriadau dilynol) ac Atodiad 1, Adran A1.2 (Y system sgorio safonau bwyd), caiff Awdurdodau Cymwys roi sylw i'r trefniadau trosiannol a nodir yn Atodiad 2.

---

[2] Adran 40(1a) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliad 24(2) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, a Rheoliad 6(2) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

# Pennod 2 Gweinyddu, cysylltu, a chydgysylltu

## 2.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 2 yn ymdrin â'r materion a ganlyn:

- y drefn ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill, ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain, fel rheolaethau answyddogol
- y trefniadau gweinyddol, gan gynnwys dynodi Awdurdodau Cymwys, cofrestru sefydliadau busnes bwyd, a chymeradwyo sefydliadau o'r fath
- trefniadau cysylltu i sicrhau:
  - cydgysylltu effeithlon ac effeithiol rhwng Awdurdodau Cymwys, cyrff dirprwyedig, ac adrannau eraill y llywodraeth sy'n gyfrifol am reolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain
  - cysondeb ac effeithiolrwydd rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill ledled y Deyrnas Unedig (y DU)
- atal buddiannau rhag gwrthdaro
- gweithdrefnau dilysu rheolaethau

## 2.2 Gofynion cyffredinol

Rhaid i Awdurdodau Cymwys ddarparu i'r ASB yr wybodaeth honno, neu'r setiau data hynny, y caiff ofyn amdanynt mewn perthynas â:

- gweithredu a gorfodi Deddf Diogelwch Bwyd 1990[3] neu unrhyw reoliadau neu orchmynion a wneir oddi tani
- gweithredu a gorfodi Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn y rheoliadau
- y swyddogaethau a roddir i'r Awdurdodau Cymwys gan, neu o dan, Reoliad (UE) 2017/625 a gweithredu a gorfodi Rhan 3 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

## 2.3 Gofynion sy'n ymwneud â gweithdrefnau, polisïau, cynlluniau a rhaglenni dogfenedig

Rhaid i Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- cael gweithdrefnau a/neu drefniadau yn eu lle i sicrhau effeithiolrwydd, priodoldeb, didueddrwydd, ansawdd a chysondeb rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill[4]

[3] Adran 41(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990
[4] Erthygl 5(1)(a) a 5(1)(b) o Reoliad (UE) 2017/625

- cynnal rheolaethau swyddogol yn unol â gweithdrefnau dogfenedig sy'n cynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer swyddogion awdurdodedig sy'n cynnal rheolaethau swyddogol[5]
- cymryd camau unioni ym mhob achos pan fo gweithdrefnau dilysu rheolaethau yn nodi diffygion[6]
- diweddaru gweithdrefnau dogfenedig fel y bo'n briodol[7]

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod eu gweithdrefnau a'u trefniadau:
  - yn ystyried deddfwriaeth berthnasol a'r Cod
  - yn cwmpasu pob maes o fewn cyfrifoldeb deddfwriaethol Awdurdod Cymwys, gan gynnwys, pan fo'n briodol, fwyd a fewnforiwyd, hylendid bwyd (gan gynnwys ar lefel cynhyrchu cynradd), a safonau bwyd
  - yn cwmpasu trefniadau atgyfeirio at Awdurdodau Cymwys eraill, gan gynnwys, pan fo'n berthnasol, y rhai sy'n gyfrifol am fwyd wedi'i fewnforio mewn man cyrraedd yn y DU
  - yn cael eu llunio gan ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol
  - yn cael eu diweddaru, pan fo angen, yn unol â phrosesau'r Awdurdod Cymwys ei hun a bod dogfennau sydd wedi'u disodli yn cael eu dileu rhag iddynt gael eu defnyddio
- bod copïau cyfredol o ddogfennaeth briodol, gan gynnwys deddfwriaeth a chanllawiau, ar gael ym mhob lleoliad perthnasol ac i bob aelod staff perthnasol
- bod gwyriadau oddi wrth weithdrefnau, polisïau, cynlluniau, rhaglenni a strategaethau yn cael eu trafod â'r personau perthnasol ymlaen llaw a'u bod yn cytuno arnynt, a bod y rhesymau dros wyro oddi wrthynt yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig

### 2.3.1 Gweithdrefnau dogfenedig

| Math | Diben |
|---|---|
| **Cymeradwyaeth**<br>(Gweithdrefn Awdurdod Cymwys ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd) | Rhaid bod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn i weithredwyr busnesau bwyd ei dilyn pan fyddant yn gwneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer eu sefydliadau.[8]<br>Dylai'r weithdrefn ddarparu templed ar gyfer gwneud cais am gymeradwyaeth sydd ar gael yn rhwydd i |

[5] Erthygl 12(1) o Reoliad (UE) 2017/625
[6] Erthygl 12(3)(a) o Reoliad (UE) 2017/625
[7] Erthygl 12(3)(b) o Reoliad (UE) 2017/625
[8] Erthygl 148(1) o Reoliad (UE) 2017/625

| Math | Diben |
|---|---|
| | weithredwyr busnesau bwyd ac sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu:<br>• manylion y gweithredwr busnes bwyd cyfrifol<br>• manylion cywir am y safle y maent yn bwriadu gweithredu ohono<br>• yr holl weithgareddau cymeradwy y maent yn bwriadu ymgymryd â nhw |
| **Cymeradwyaeth**<br>(gweithdrefn ar gyfer Awdurdod Cymwys) | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn sy'n cynnwys manylion:<br>• y camau i'w cymryd pan fydd ffurflenni cymeradwyaeth yn dod i law, gan gynnwys hysbysu Awdurdodau Cymwys eraill pan fo gweithgareddau yn dod y tu allan i gylch gwaith gorfodi neu awdurdodaeth yr Awdurdod Cymwys y mae ffurflen wedi dod i'w law<br>• o ran sut y bydd yr Awdurdod Cymwys yn cael gafael ar wybodaeth sydd wedi ei hepgor o gais am gymeradwyaeth<br>• o ran sut y mae cymeradwyaethau i'w penderfynu, gan gynnwys dyrannu rhifau cymeradwyo a hysbysu |
| **Dilysu rheolaethau**<br>(monitro mewnol) | Rhaid bod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefnau dilysu rheolaethau yn eu lle.[9]<br><br>Dylai'r rhain:<br>• sicrhau bod rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn cael eu cynnal mewn ffordd gyson ac effeithiol<br>• bod yn seiliedig ar risg<br>• darparu ar gyfer cynnal a chyflawni'r rhaglen o reolaethau swyddogol a gynlluniwyd yn fedrus<br>• rhoi manylion y camau angenrheidiol i'w cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw berfformiad nad yw'n bodloni'r safonau disgwyliedig<br>• dangos bod y systemau sgorio risgiau y manylir arnynt yn y Cod yn cael eu cymhwyso'n briodol ac |

[9] Erthygl 12(2) o Reoliad (UE) 2017/625

| Math | Diben |
|---|---|
| | yn gyson, gan gynnwys pan wneir newidiadau i sgôr risg sefydliad<br><br>Dylai'r weithdrefn a/neu'r trefniadau gynnwys gwaith i fonitro:<br><br>• y gwasanaeth a ddarperir i ddilysu cydymffurfiaeth â dyletswyddau cyfreithiol, y Cod, a'u gweithdrefnau, eu polisïau, eu cynlluniau a'u rhaglenni eu hunain<br>• y rheolaethau swyddogol a gynhelir gan swyddogion awdurdodedig a'r cofnodion cysylltiedig i sicrhau eu bod yn ddigon manwl, cywir ac adferadwy<br>• gwiriadau dilynol a chamau gorfodi i sicrhau eu bod yn briodol, a bod achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael sylw mewn modd amserol ac effeithiol<br>• systemau gwybodaeth reoli i sicrhau eu bod yn gyflawn, yn gyfredol, yn gywir, yn ddibynadwy a bod modd olrhain newidiadau o ran defnydd a pherchnogaeth busnesau, cau busnesau a busnesau newydd<br><br>Dylai pob gweithgaredd perthnasol fod yn destun gwaith monitro meintiol ac ansoddol cymesur a rheolaidd.<br><br>Dylid cadw cofnodion priodol a chymesur i ddilysu goruchwyliaeth sut y caiff y prif weithgareddau a chamau gweithredu'r gwasanaeth eu rheoli, ac i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodir. |
| **Gwrthdaro buddiannau** | Rhaid bod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn a/neu drefniadau yn eu lle i sicrhau nad oes gan swyddogion awdurdodedig sy'n cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro.[10] |
| **Rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill** | Rhaid bod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn yn ei lle i sicrhau bod rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn cael cynnal mewn modd diduedd a chyson.[11] Dylai'r weithdrefn hon:<br><br>• gynnwys manylion rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill, gan gynnwys y rheiny a gynhelir ar fwyd wedi'i fewnforio |

[10] Erthygl 5(1)(c) o Reoliad (UE) 2017/625

[11] Erthygl 5(1)(b) o Reoliad (UE) 2017/625

| Math | Diben |
|---|---|
| | • arwain at gynnal rheolaethau sy'n seiliedig ar risg<br>• darparu digon o fanylion i hwyluso rheolaethau swyddogol effeithiol a phriodol |
| **Gwybodaeth** | Rhaid bod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn i sicrhau bod unrhyw anghywirdebau mewn gwybodaeth a gyhoeddwyd yn cael eu cywiro'n briodol.[12] |
| **Cofrestru** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn i sicrhau bod proses glir a chyson i weithredwyr busnesau bwyd ei dilyn pan fyddant yn cofrestru sefydliadau busnesau bwyd. |
| **Cronfa ddata o sefydliadau busnesau bwyd** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn i sicrhau bod eu cronfa ddata o sefydliadau busnes bwyd yn gywir, yn ddibynadwy, ac yn gyfredol. Dylai'r weithdrefn hon:<br>• nodi sut y mae eu rhestr o sefydliadau busnes bwyd, p'un a ydynt wedi eu cofrestru neu wedi eu cymeradwyo, yn cael ei chynnal<br>• manylu ar y camau a gymerir pan ddaw cofrestriadau sefydliadau busnesau bwyd newydd a hysbysiadau am newidiadau i weithrediadau sefydliadau bwyd i law, a sut, pan fo'n briodol, y gwneir y newidiadau hyn i'r gronfa ddata |
| **Digwyddiadau a rhybuddion bwyd** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn i sicrhau bod digwyddiadau a rhybuddion bwyd yn cael eu trin yn effeithiol ac yn brydlon. Dylai'r weithdrefn hon gynnwys:<br>• cychwyn ymateb effeithiol i Rybuddion Bwyd a gyhoeddir gan yr ASB<br>• yr ymateb effeithiol i gyswllt gan yr ASB<br>• manylion, gan gynnwys manylion cyswllt, y swyddog bwyd arweiniol ar gyfer materion o'r fath<br>• trefniadau cyswllt rhwng swyddogion cyngor sir a swyddogion cyngor dosbarth mewn ardaloedd Awdurdod Cymwys dwy haen<br>• unrhyw drefniadau i gael rhybuddion a gwybodaeth am argyfyngau, ac i ymateb iddynt, y tu allan i oriau gwaith<br>• trefniadau i sicrhau bod Rhybuddion Bwyd a diweddariadau yn cael eu dwyn i sylw swyddog o |

[12] Erthygl 11(2) o Reoliad (UE) 2017/625

| Math | Diben |
|---|---|
| | fewn yr awdurdod er mwyn cychwyn camau priodol heb oedi gormodol<br>• trefniadau i gysylltu â chyrff perthnasol ac Awdurdodau Cymwys eraill, yn ystod oriau swyddfa arferol a'r tu allan i'r oriau hynny, gan gynnwys:<br>- darpariaeth i alw asiantaethau priodol ynghyd ar fyr rybudd<br>- darpariaeth i roi mesurau rheoli brys ar waith pa bryd bynnag y bo eu hangen<br>- darpariaeth i nodi awdurdod arweiniol, pan fo angen<br>• trefniadau i ddarparu adnoddau staff digonol i sicrhau bod modd ymateb yn effeithiol i rybuddion<br>• trefniadau i ddarparu offer digonol, gan gynnwys mynediad y tu allan i oriau gwaith, i sicrhau bod modd ymateb yn effeithiol |
| **Awdurdodi** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn i sicrhau bod swyddogion (gan gynnwys y swyddog(ion) bwyd arweiniol) sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill wedi eu hawdurdodi'n briodol yn unol â'r Cod, a bod cofnodion priodol yn cael eu cadw.<br><br>Mae'r weithdrefn yn gymwys yn yr un modd i swyddogion a gyflogir yn uniongyrchol, staff asiantaeth, staff dros dro, a'r rheiny a gyflogir gan neu fel contractwyr. Dylai'r weithdrefn gynnwys:<br>• swyddogaethau a chyfrifoldebau staff yn y broses awdurdodi<br>• unrhyw awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo achosion cyfreithiol a/neu i ddyroddi cymeradwyaethau<br>• y broses ar gyfer awdurdodi penodiadau newydd, swyddogion newydd gymhwyso a'r rheiny sy'n dychwelyd i orfodi'r gyfraith bwyd<br>• sut y mae'r Awdurdod Cymwys yn sicrhau bod ei swyddog(ion) bwyd arweiniol a'i swyddogion awdurdodedig wedi eu hawdurdodi yn unol â phennod 3 o'r Cod<br>• y broses i'w dilyn i asesu cymhwysedd y swyddog i gynnal rheolaethau swyddogol, gweithgareddau |

| Math | Diben |
|---|---|
| | swyddogol eraill, a/neu unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain, cyn ei awdurdodi. |
| **Cwynion corfforaethol** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn i sicrhau bod cwynion am yr Awdurdod Cymwys yn destun ymchwiliad, eu bod yn cael eu trin yn effeithiol, a'u bod yn cael eu cofnodi, gan gynnwys unrhyw gamau a gymerir. |
| **Cwynion am fwyd** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn i sicrhau bod cwynion am fwyd a sefydliadau busnes bwyd yn destun ymchwiliad, eu bod yn cael eu trin yn effeithiol a'u bod yn cael eu cofnodi. Dylai'r weithdrefn hon:<br>• ymdrin â chwynion am fwyd sy'n tarddu o'r tu mewn a'r tu allan i'r DU, ac am sefydliadau busnesau bwyd<br>• cynnwys gweithdrefnau ar gyfer unrhyw drefniadau atgyfeirio at Awdurdodau Cymwys eraill, gan gynnwys awdurdodau mewndirol, ac awdurdodau sy'n gyfrifol am reolaethau bwyd ar fwyd a fewnforir yn y man cyrraedd<br>• arwain at ymchwilio i gwynion sy'n dod i law yn unol â'r Cod, y canllawiau, a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Cymwys<br>• cynnwys gweithdrefnau ar gyfer cael cwynion a rhoi sylw iddynt, gan gynnwys hysbysu'r personau/busnes o dan sylw am y gŵyn |
| **Samplu** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn i sicrhau bod samplau'n cael eu cymryd yn unol â'r ddeddfwriaeth gymwys a'r canllawiau cymwys, a bod camau priodol yn cael eu cymryd pan ddaw canlyniadau anfoddhaol i law. Dylid sicrhau bod y weithdrefn:<br>• yn cynnwys mesurau i gaffael samplau, gan gynnwys y rheiny a gynigir i'w gwerthu drwy gyfathrebu o bell<br>• yn nodi sut y mae parhad tystiolaeth yn cael ei gynnal<br>• yn cynnwys camau i'w cymryd o ran canlyniadau samplu anfoddhaol<br>• yn cynnwys mesurau i atal samplau rhag dirywio neu gael eu difrodi tra maent o dan reolaeth yr Awdurdod Cymwys, gan gynnwys sut y mae'r samplau'n cael eu cludo |

| Math | Diben |
|---|---|
| **Offer** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn i sicrhau bod offer yn cael eu hadnabod, eu cynnal a'u graddnodi'n briodol, a'u bod yn cael eu hatal rhag cael eu defnyddio pan ganfyddir eu bod yn ddiffygiol. Dylai gynnwys mesurau i ddangos canlyniadau unrhyw wiriadau a'r camau a gymerir pan fo'r canlyniadau'n anfoddhaol. |
| **Gorfodi** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn sy'n cwmpasu'r broses ar gyfer yr holl opsiynau gorfodi sydd ar gael. |
| **Rheoli achosion a brigiadau o achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, ac ymchwilio iddynt** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn i sicrhau bod achosion a brigiadau o achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yr hysbysir amdanynt neu a amheuir yn cael eu rheoli a'u bod yn destun ymchwiliad. |
| **Diogelwch TG** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefn i sicrhau bod mesurau diogelwch TG effeithiol yn eu lle i atal personau anawdurdodedig rhag cael mynediad atynt a'u diwygio, a systemau wrth gefn priodol i leihau'r risg o lygredd neu golli gwybodaeth. |

### 2.3.2 Polisïau dogfenedig

| Math | Diben |
|---|---|
| **Samplu** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys bolisi i nodi sut y maent yn mynd ati i samplu bwyd, gan gynnwys mynd i'r afael â samplau anfoddhaol. Dylai rwymo'r Awdurdod Cymwys i ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i gynnal ei raglen samplu bwyd. |
| **Gorfodi** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys bolisi i nodi sut y maent yn mynd ati i orfodi, gan gynnwys meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl opsiynau gorfodi sydd ar gael. Dylai'r polisi:<br>• gael ei gymeradwyo gan fforwm aelodau perthnasol yr Awdurdod Cymwys neu, pan fo'r gwaith o gymeradwyo a rheoli cynlluniau darparu gwasanaethau wedi ei ddirprwyo i uwch-swyddogion, gan yr uwch-swyddog perthnasol<br>• manylu ar y trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith bwyd mewn |

| | |
|---|---|
| | sefydliadau pan mai'r Awdurdod Cymwys ei hun yw'r gweithredwr busnes bwyd<br>• sicrhau bod y camau a gymerir yn rhesymol, yn gymesur, yn seiliedig ar risg ac yn gyson |
| **Cwynion** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys bolisi i nodi sut y mae cwynion sy'n dod i law am fwyd a sefydliadau busnes bwyd yn dod i law, yn cael eu hasesu ac yn destun ymchwiliad, a dylai gwmpasu cwynion am fwyd sy'n dod o'r tu mewn a'r tu allan i'r DU. |

### 2.3.3 Cynlluniau, rhaglenni a strategaethau dogfenedig

| Math | Diben |
|---|---|
| **Cynllun wrth gefn** | Rhaid bod gan Awdurdodau Cymwys gynllun yn ei le i nodi beth y byddent yn ei wneud pe bai argyfwng.[13] |
| **Hyfforddiant** | Rhaid i swyddogion awdurdodedig sy'n cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill[14]:<br>• gael hyfforddiant priodol, ar gyfer eu maes cymhwysedd, sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n gymwys ac i gynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill mewn modd cyson<br>• cadw eu maes cymhwysedd yn gyfredol a chael hyfforddiant ychwanegol rheolaidd yn ôl yr angen<br>Dylai Awdurdodau Cymwys roi rhaglen yn ei lle sy'n sicrhau bod swyddogion awdurdodedig sy'n cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn cael hyfforddiant priodol ar sail eu hanghenion unigol a'r gweithgareddau y maent wedi eu hawdurdodi i'w cynnal. |
| **Cynllun gwasanaeth** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys gynllun sy'n nodi sut y maent yn bwriadu darparu adnoddau ar gyfer rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill, a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r rhain, fel rheolaethau answyddogol, a'u cynnal, mewn perthynas â phob maes o'r gyfraith bwyd y mae arnynt ddyletswydd i'w orfodi. |

[13] Erthygl 5(1)(i) o Reoliad (UE) 2017/625
[14] Erthygl 5(4) o Reoliad (UE) 2017/625

| | |
|---|---|
| | Dylai'r cynllun gwasanaeth gynnwys manylion am y pethau a ganlyn:<br>• gwasanaethau'r cyngor a strwythur ei bwyllgorau<br>• cwmpas y gwasanaeth bwyd, gan gynnwys pan fo gwasanaethau'n cael eu darparu gan sefydliadau eraill, a gwasanaethau eraill yn cael eu darparu ochr yn ochr â'r gwasanaeth bwyd<br>• y galwadau ar y gwasanaeth bwyd, gan gynnwys:<br>– proffil y sefydliadau<br>– unrhyw ofynion lleol penodol (er enghraifft, prosesau arbenigol neu gymhleth)<br>– cyswllt â sefydliadau eraill<br>– swyddogaethau rheoli mewnol (er enghraifft, dilysu rheolaethau)<br>– ffactorau eraill a all effeithio ar eu gwasanaeth<br>• y gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys rhagolwg o'r pethau a ganlyn:<br>– unrhyw waith sy'n weddill o flynyddoedd blaenorol<br>– nifer y rheolaethau swyddogol ac answyddogol a'r gweithgareddau swyddogol eraill a gynlluniwyd, gan gynnwys arolygiadau, archwiliadau, a gwaith samplu<br>– gwaith ymatebol (er enghraifft, ymdrin â chwynion a digwyddiadau)<br>– camau dilynol (er enghraifft, ailymweliadau a gorfodi)<br>– gweithgarwch rheolaethau swyddogol a dargedir (er enghraifft, blaenoriaethau cenedlaethol neu leol)<br>– gwaith hyrwyddo diogelwch a safonau bwyd<br>– rheoli brigiadau o achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, ac ymchwilio iddynt<br>• y galwadau am adnoddau, a'r adnoddau a ddyrennir, gan gynnwys:<br>– amcangyfrif o'r staff sydd eu hangen (cyfwerth ag amser llawn) i ddarparu'r gwasanaeth, gan wahaniaethu rhwng swyddogion awdurdodedig a staff cymorth<br>– y staff a ddyrennir (cyfwerth ag amser llawn) i ddarparu'r gwasanaeth, gan wahaniaethu rhwng swyddogion awdurdodedig a staff cymorth<br>– nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn sy'n darparu'r gwasanaeth bwyd ac sydd ar gael i'w |

| | |
|---|---|
| | ddarparu, gan wahaniaethu rhwng swyddogion awdurdodedig a staff cymorth<br>– y trefniadau i gael mynediad at arbenigwyr ar gyfer gweithgareddau arbenigol<br>– unrhyw brinder adnoddau (er enghraifft, adnoddau ariannol ac adnoddau staffio – gan gynnwys capasiti a darpariaeth y tu allan i oriau) a sut y bydd hyn yn cael ei reoli<br>• Dylai'r cynllun gwasanaeth:<br>– nodi'n glir y cyfnod y mae'r cynllun yn cael effaith ynddo<br>– cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo, boed ar lefel aelod, fforwm aelodau neu uwch-swyddog y dirprwywyd awdurdod addas iddo, gyda chofnodion i ddangos ei fod wedi cael cymeradwyaeth briodol<br>– manylu ar y trefniadau i adolygu ac i ddiweddaru'r cynllun yn rheolaidd, unrhyw amrywiadau o ran cyflawni'r cynllun o gymharu â blynyddoedd blaenorol, a sut y bwriedir mynd i'r afael â hyn |
| **Rheolaethau swyddogol** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys raglen yn ei lle i nodi sut y byddant yn cynnal rheolaethau swyddogol ar sail risg (yn unol â Phennod 4), a dylai'r rhaglen hon gynnwys pob sefydliad busnes bwyd y mae'r Awdurdod Cymwys yn gyfrifol amdano. |
| **Samplu** | Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys raglen i nodi manylion eu blaenoriaethau a'u gweithgareddau samplu bwyd sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys bwydydd a fewnforir.<br>Dylai'r rhaglen ystyried, o leiaf:<br>• nifer y sefydliadau busnesau bwyd yn eu hardal, y math o sefydliadau busnesau bwyd, eu maint, a'u sgoriau ymyriadau<br>• y math o fwyd a gynhyrchir yn yr ardal, ac a yw unrhyw un o'u safleoedd bwyd yn ymdrin â phrosesau arbenigol |

## 2.4 Dirprwyo rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill

Caiff Awdurdodau Cymwys ddirprwyo rheolaethau swyddogol a/neu weithgareddau swyddogol eraill i un neu ragor o gyrff dirprwyedig neu bersonau naturiol.[15] Pan fo Awdurdodau Cymwys yn dirprwyo rheolaethau swyddogol a/neu weithgareddau swyddogol eraill, rhaid iddynt wneud hynny yn unol ag Erthyglau 29 i 33 o Reoliad (UE) 2017/625. Rhaid i ddirprwyaethau o'r fath fod yn ysgrifenedig.[16]

Dylai Awdurdodau Cymwys:

- rhoi manylion i'r ASB am:
  - y corff dirprwyedig neu'r person naturiol
  - y tasgau penodol a ddirprwywyd iddynt
  - unrhyw dasgau a ddirprwywyd a dynnir yn ôl neu a newidir yn ddiweddarach
- sicrhau bod y corff dirprwyedig a/neu'r person naturiol yn cynnal rheolaethau swyddogol gan roi sylw i'r Cod

## 2.5 Cyswllt lleol, rhanbarthol a chenedlaethol

Rhaid i Awdurdodau Cymwys sicrhau cydgysylltu effeithlon ac effeithiol rhwng awdurdodau yn eu hardal.[17]

### 2.5.1 Trefniadau cyswllt

Dylai Awdurdodau Cymwys:

- roi trefniadau cysylltu yn eu lle, pan fo'n berthnasol, gydag Awdurdodau Cymwys cyfagos, cyrff dirprwyedig, asiantaethau'r llywodraeth ac unrhyw gyrff priodol eraill
- rhannu gwybodaeth am gydymffurfiaeth, ac arferion twyllodrus neu gamarweiniol, sefydliadau busnes bwyd gydag Awdurdodau Cymwys perthnasol eraill a'r ASB, yn unol â deddfwriaeth berthnasol
- ymateb, fel y bo'n briodol, i unrhyw gyfathrebiad rhesymol gan Awdurdodau Cymwys eraill a'r ASB yn gofyn am wybodaeth neu gymorth
- cysylltu â'r Awdurdodau Cymwys hynny sy'n gyfrifol am gadw cofrestrau o sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid o dan erthygl 9 o Reoliad (CE) Rhif 183/2005 sy'n nodi gofynion o ran hylendid bwyd anifeiliaid

---

[15] Erthygl 28(1) o Reoliad (UE) 2017/625
[16] Erthyglau 29 a 30 o Reoliad (UE) 2017/625
[17] Erthygl 4(2) o Reoliad (UE) 2017/625

- cydnabod ac ymateb, fel y bo’n briodol, i’r Awdurdodau Cymwys sy’n gyfrifol am fannau cyrraedd, mewn perthynas ag atgyfeiriadau mewndirol (o ran materion bwyd a fewnforir) i gadarnhau’r camau a gymerwyd
- rhannu gwybodaeth sy’n dod i’w llaw, cyn gynted â phosibl, ag Awdurdodau Cymwys perthnasol eraill ac asiantaethau’r llywodraeth, fel y bo’n briodol, sy’n dangos:
  - newid yng ngweithrediadau neu berchnogaeth sefydliad busnes bwyd
  - unrhyw achos o dynnu cymeradwyaeth sefydliad yn ôl, ei hatal neu ei hadfer

### 2.5.2 Cyswllt â’r ASB

Dylai Awdurdodau Cymwys sydd â sefydliadau busnes bwyd yn eu hardal sy’n destun cymeradwyaeth gan yr ASB gysylltu â swyddogion yr ASB yn y sefydliadau hynny, fel y bo’n briodol, er mwyn:

- nodi unrhyw risgiau a phryderon o ran y sefydliad
- hybu dealltwriaeth o’u swyddogaethau ei gilydd o fewn y sefydliad
- hwyluso gweithgareddau gorfodi er mwyn defnyddio adnoddau’n effeithiol

I sicrhau cyswllt effeithiol, dylai Awdurdodau Cymwys:

- gyfathrebu’n rhagweithiol â swyddogion yr ASB, ar sail anffurfiol, pan fydd swyddogion yr Awdurdod Cymwys yn mynd i sefydliadau a gymeradwyir gan yr ASB
- cynnal trafodaethau parhaus â swyddogion yr ASB mewn perthynas ag atgyfeiriadau neu feysydd o ddiddordeb cyffredin
- gwahodd staff yr ASB i gyfarfodydd lleol neu ranbarthol, pan fo’n briodol
- ystyried cyfleoedd posibl i gael hyfforddiant lleol ar y cyd, a rhannu gwybodaeth
- ymateb i atgyfeiriadau cyn gynted â phosibl, neu roi gwybod pryd a sut y byddant yn gallu ymateb

#### 2.5.2.1 Cyfathrebu ag Awdurdodau Cymwys

Dylai Awdurdodau Cymwys hysbysu’r ASB am:

- y cyfeiriad e-bost y gellir anfon cyfathrebiadau iddo
- unrhyw newidiadau i’r manylion hyn, cyn gynted ag y bo’n ymarferol

### 2.5.3 Cyswllt mewn mannau cyrraedd

Dylai Awdurdodau Cymwys sydd â man cyrraedd ar gyfer bwyd a fewnforir i’r DU, cyfleusterau storio dros dro allanol (ETSF), neu derfynfa reilffordd ryngwladol sefydlu trefn leol i gysylltu a chyfathrebu’n rheolaidd â sefydliadau lleol perthnasol, i gyfnewid gwybodaeth am fewnforion bwyd, ac i ymdrin yn effeithiol â digwyddiadau neu droseddau bwyd a amheuir.

### 2.5.4 Cyswllt mewn ardaloedd ag Awdurdod Cymwys dwy haen

Mewn rhannau o’r DU lle y ceir dwy haen o lywodraeth leol a bo’r ddwy yn Awdurdodau Cymwys, dylid nodi nad yw’r ASB wedi pennu a yw ymchwiliadau a chamau gorfodi mewn perthynas â swyddogaethau penodol, er enghraifft hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd, i’w cynnal ar lefel dosbarth neu ar lefel sir. Yng Nghymru, mae pob awdurdod lleol yn awdurdod unedol ac nid yw’r gwahaniaethau rhwng cynghorau dosbarth a chynghorau sir yn gymwys.

#### 2.5.4.1 Grwpiau cyswllt rhanbarthol a lleol

Dylai Awdurdodau Cymwys o bob ardal gael eu cynrychioli mewn grwpiau cyswllt rhanbarthol a lleol perthnasol gan swyddog â phrofiad priodol.

## 2.6 Cyfleusterau ac offer

Rhaid i Awdurdodau Cymwys sicrhau bod cyfleusterau ac offer priodol sydd wedi eu cynnal a’u cadw’n briodol ar gael i sicrhau bod swyddogion awdurdodedig yn gallu cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn effeithlon ac yn effeithiol.[18]

Dylai Awdurdodau Cymwys ddarparu i swyddogion yr offer a’r cyfleusterau sy’n angenrheidiol i’w galluogi i gynnal yr ystod lawn o reolaethau bwyd. Caniateir rhannu cyfleusterau ac offer ag Awdurdodau Cymwys eraill, ar yr amod y byddant ar gael yn rhwydd i’w defnyddio ac na fydd hyn yn rhwystro rheolaethau swyddogol rhag cael eu cynnal yn effeithiol.

Dylai Awdurdodau Cymwys sefydlu, cynnal a gweithredu cronfa ddata neu system rheoli cofnodion arall wedi ei ffurfweddu’n briodol sy’n gywir, yn ddibynadwy, ac yn gallu:

- rhoi’r cynlluniau sgorio hylendid bwyd a/neu safonau bwyd perthnasol a nodir ym Mhennod 4 ar waith
- cofnodi’r ystod lawn o weithgareddau, gan gynnwys:
  - rheolaethau swyddogol
  - ymchwiliadau i gŵynion
  - digwyddiadau a rhybuddion
  - camau gorfodi
  - rheolaethau mewn mannau cyrraedd
- cofnodi ac adalw manylion sefydliadau busnesau bwyd sydd wedi eu cymeradwyo neu wedi eu cymeradwyo’n amodol ac wedi eu cofrestru, gan gynnwys yr holl weithgareddau busnes bwyd a gynhelir

---

[18] Erthygl 5(1)(f) of Reoliad () 2017/625

- darparu gwybodaeth y mae'r ASB yn gofyn amdani
- cael rhybuddion bwyd

### 2.6.1 Penodi Dadansoddwr Cyhoeddus

Rhaid i Awdurdodau Cymwys:

- feddu ar gapasiti labordy digonol, neu gael mynediad at gapasiti o'r fath, at ddibenion dadansoddi, profi a gwneud diagnosis[19]
- penodi un neu ragor o Ddadansoddwyr Cyhoeddus sy'n meddu ar y cymwysterau gofynnol a nodir yn Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013[20]

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod gan y dadansoddwr/dadansoddwyr a benodir y capasiti i brofi'r ystod o samplau a dadansoddion sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Cymwys neu fod ganddo/ganddynt drefniadau yn eu lle i gael profion o'r fath wedi eu cynnal o dan ei oruchwyliaeth/eu goruchwyliaeth fel y caniateir gan Adran 30 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

### 2.6.2 Rhestrau o sefydliadau bwyd

Rhaid i Awdurdodau Cymwys lunio a chadw rhestr gyfredol o weithredwyr busnesau bwyd yn eu hardal.[21]

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod y rhestr hon yn cynnwys:

- pob sefydliad busnes bwyd sydd naill ai wedi ei gofrestru, wedi ei gymeradwyo neu wedi ei gymeradwyo'n amodol gan yr Awdurdod Cymwys
- yr wybodaeth a ganlyn am bob sefydliad busnes bwyd:
    - enw'r gweithredwr busnes bwyd
    - enw(au) y sefydliad bwyd
    - cyfeiriad y sefydliad bwyd
    - natur y busnes bwyd

### 2.6.3 Ffeiliau cofnodion sefydliadau

Dylai fod gan Awdurdodau Cymwys ffeiliau cofnodion sefydliadau ar gyfer pob sefydliad bwyd sydd wedi ei gofrestru â nhw neu ei gymeradwyo ganddynt, sy'n cynnwys:

- gwybodaeth am faint a graddfa'r busnes, gan gynnwys dosbarthu
- y math o weithgareddau bwyd a gynhelir gan y busnes
- yr holl weithdrefnau a/neu brosesau dogfenedig

---

[19] Erthygl 5(1)(d) o Reoliad (UE) 2017/625
[20] Adran 27 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990
[21] Erthygl 10(2) o Reoliad (UE) 2017/625

- yr holl ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â cheisiadau i gymeradwyo neu i gofrestru busnes
- yr holl ohebiaeth â'r sefydliad bwyd, gan gynnwys ei hysbysu am benderfyniadau cymeradwyo neu gofrestru
- gwybodaeth am samplu a chanlyniadau

Mae'n bwysig bod ffeiliau cofnodion sefydliadau, a all fod ar gyfrifiadur, yn cael eu diweddaru ar ôl pob rheolaeth swyddogol fel eu bod yn parhau i fod yn gyfredol.

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod cofnodion sy'n ymwneud â sefydliadau busnes bwyd, gan gynnwys y rheiny sydd wedi rhoi'r gorau i fasnachu, yn cael eu cadw am o leiaf chwe blynedd, oni bai bod angen eu cadw am yn hirach.

#### 2.6.4 Manylion sefydliadau cofrestredig

Dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- diweddaru manylion sefydliad cofrestredig pan fyddant yn cael eu hysbysu am newid i weithrediad sefydliad bwyd neu i weithredwr busnes bwyd
- darparu rhestr gyflawn o'r sefydliadau busnes bwyd cofrestredig i'r ASB, pan ofynnir amdani

##### 2.6.4.1 Manylion sefydliadau cymeradwy

Dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- darparu copi o ffurflen gais y gweithredwr busnes bwyd a'r gymeradwyaeth a roddwyd gan yr Awdurdod Cymwys i'r ASB, pan ofynnir amdanynt
- at ddibenion rhestru cymeradwyaethau, hysbysu'r ASB:
  - pan fydd sefydliad wedi ei gymeradwyo neu wedi ei gymeradwyo'n amodol
  - pan fo sefydliad cymeradwy'n rhoi'r gorau i weithgareddau sy'n destun cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol
  - pan fo cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol wedi ei thynnu'n ôl neu wedi ei hatal
- darparu rhestr gyflawn o sefydliadau busnesau bwyd cymeradwy i'r ASB, pan ofynnir amdani

## 2.7 Proses gymeradwyo

#### 2.7.1 Ceisiadau

Rhaid i Awdurdodau Cymwys sefydlu gweithdrefnau i weithredwyr busnesau bwyd eu dilyn pan fyddant yn gwneud cais i gymeradwyo eu sefydliad.[22]

Dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

[22] Erthygl 148(1) o Reoliad (UE) 2017/625

- ystyried yr holl weithgareddau a gynhelir yn y sefydliad busnes bwyd
- sicrhau bod yr holl eithriadau wedi eu hystyried
- pan fyddant yn dod i wybod am fusnesau sy'n ymwneud â gweithgareddau y mae angen eu cymeradwyo, ond nad ydynt wedi eu cymeradwyo, hysbysu'r gweithredwr busnes bwyd yn ysgrifenedig am yr angen i gael cymeradwyaeth, ac ystyried camau gorfodi priodol

### 2.7.2 Penderfynu ar geisiadau am gymeradwyaeth

Cyn iddynt benderfynu ar gais, rhaid i Awdurdodau Cymwys ymweld â'r safle.[23]

Dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- sicrhau bod yr ymweliad â'r safle ar ffurf arolygiad
- gwirio a yw'r gweithredwr busnes bwyd yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y gyfraith bwyd, ac a ellir rhoi cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol

### 2.7.3 Cymeradwyaeth amodol a chymeradwyaeth lawn

Rhaid i Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- dim ond cymeradwyo sefydliad, ar gyfer y gweithgareddau o dan sylw, os yw'r gweithredwr busnes bwyd wedi dangos ei fod yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y gyfraith bwyd[24]
- cadw cymeradwyaeth sefydliadau o dan adolygiad pan fyddant yn cynnal rheolaethau swyddogol[25]
- rhoi cymeradwyaeth amodol dim ond pan fo'r sefydliad yn bodloni'r holl ofynion seilwaith ac offer[26]
- pan fo cymeradwyaeth amodol wedi ei rhoi, cynnal rheolaeth swyddogol newydd o fewn tri mis i gadarnhau a yw'r sefydliad yn bodloni gofynion perthnasol eraill y gyfraith bwyd[24]
- pan fo cymeradwyaeth amodol wedi ei rhoi, a bo cynnydd amlwg wedi ei wneud, ond nad yw'r sefydliad yn bodloni'r holl ofynion perthnasol o hyd, ystyried ymestyn y gymeradwyaeth amodol Ni ddylai cymeradwyaeth amodol fyth bara mwy na chyfanswm o chwe mis (ac eithrio yn achos llongau ffatri a llongau rhewi sy'n chwifio baner y DU na chaniateir i'w cymeradwyaeth amodol bara mwy na chyfanswm o 12 mis)[24]

Dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- penderfynu, ar sail barn broffesiynol, a ddylid rhoi cymeradwyaeth amodol, neu estyn cymeradwyaeth amodol, fesul achos, a sicrhau na roddir

---

[23] Erthygl 148(2) o Reoliad (UE) 2017/625
[24] Erthygl 148(3) o Reoliad (UE) 2017/625
[25] Erthygl 148(5) o Reoliad (UE) 2017/625
[26] Erthygl 148(4) o Reoliad (UE) 2017/625

cymeradwyaeth amodol pe gallai achos o ddiffyg cydymffurfio beri i fwydydd effeithio'n andwyol ar iechyd y cyhoedd

- ystyried rhoi cymeradwyaeth lawn, heb fod angen rhoi cymeradwyaeth amodol, ar achlysuron cyfyngedig, mewn sefydliadau sy'n cydymffurfio'n llwyr. Gallai hyn gynnwys pan fo perchnogaeth yn newid, ond bo pob agwedd arall ar y busnes yn aros yr un fath, a bo'r Awdurdod Cymwys wedi gweld y dull Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) ar waith eisoes
- darparu nod adnabod unigryw (gan gynnwys cod cymeradwyo) i bob sefydliad busnes bwyd y mae'n ei gymeradwyo neu'n ei gymeradwyo'n amodol
- hysbysu'r gweithredwr busnes bwyd, yn ysgrifenedig, pan roddir cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol, sy'n cynnwys:
  - natur a chwmpas y gymeradwyaeth
  - unrhyw amodau neu gyfyngiadau sy'n gymwys
  - y cod cymeradwyo, neu pan roddir cymeradwyaeth yn dilyn cymeradwyaeth amodol, cadarnhau y gall barhau i ddefnyddio'r cod cymeradwyo a ddyrannwyd iddo
- pan benderfynir gwrthod cais am gymeradwyaeth, hysbysu'r sawl sy'n ymgeisio yn ysgrifenedig am y penderfyniad cyn gynted â phosibl, a chynnwys:
  - y rhesymau dros wrthod y cais
  - y materion sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion y rheoliad(au)
  - ei gwneud yn glir na chaniateir ymgymryd â gweithgareddau y mae angen eu cymeradwyo oni bai bod cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol wedi ei rhoi
  - manylion am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad a chyfeiriad y Llys Ynadon y gellir gwneud apêl iddo
- cadw copi o unrhyw hysbysiad(au) ysgrifenedig

# Pennod 3 Awdurdodi, cymwysterau a chymhwysedd

## 3.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 3 yn ymdrin â'r materion a ganlyn:

- cymwysterau a chymhwysedd swyddogion awdurdodedig sy'n cynnal rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill, ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain, fel rheolaethau answyddogol
- darpariaethau sy'n ymwneud â hyfforddiant swyddogion o ran rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill

Nid yw Pennod 3 yn gymwys i'r rheiny:

- nad ydynt ond yn ysgwyddo cyfrifoldeb rheoli anuniongyrchol dros wasanaeth gorfodi cyfraith bwyd yr Awdurdod Cymwys, fel Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr, neu Brif Swyddogion
- mewn swyddi cymorth, fel staff gweinyddol a chyfreithiol

## 3.2 Penodi swyddogion

Rhaid i Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- cael nifer ddigonol o swyddogion cymwys a phrofiadol, neu gael mynediad at nifer ddigonol o swyddogion o'r fath, fel bod modd cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn effeithlon ac yn effeithiol[27]
- awdurdodi swyddogion yn ysgrifenedig naill ai'n gyffredinol neu'n benodol[28]
- sicrhau bod swyddogion yn cael hyfforddiant priodol, ar sail y gweithgareddau y maent wedi eu hawdurdodi i'w cynnal, sy'n eu galluogi i gyflawni eu rôl yn fedrus ac i gynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn gyson[29]

### 3.2.1 Swyddogion bwyd arweiniol

Dylai Awdurdodau Cymwys benodi un neu ragor o swyddogion bwyd arweiniol cymwys â chymwysterau priodol sy'n gyfrifol am reolaeth weithredol materion sy'n ymwneud â chyfraith bwyd.

### 3.2.2 Awdurdodi swyddogion

Cyn i Awdurdodau Cymwys awdurdodi swyddog neu ehangu ei ddyletswyddau, dylai'r swyddog bwyd arweiniol sicrhau bod y swyddog:

---

[27] Erthygl 5(1)(e) o Reoliad (UE) 2017/625

[28] Adran 5(6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad 2(1) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

[29] Erthygl 5(4)(a) o Reoliad (UE) 2017/625

- yn meddu ar un neu ragor o’r cymwysterau addas, a restrir yn adrannau 3.2.3.1, 3.2.3.2 a 3.2.3.3, sy’n berthnasol i’w rôl a’r gweithgareddau y bydd wedi ei awdurdodi i’w cyflawni, oni bai mai dim ond y gweithgareddau a restrir yn adran 3.2.3 y mae’r swyddog yn eu cyflawni
- yn gallu dangos ei fod yn gymwys i ymgymryd â’r gweithgareddau sy’n berthnasol i’w awdurdodiad
- yn cael ei awdurdodiad i ddefnyddio pwerau cyfreithiol ac i ysgwyddo dyletswyddau cyfreithiol wedi eu cyfyngu hyd nes ei fod yn gallu dangos ei fod yn gymwys i ymgymryd â’r gweithgareddau sy’n berthnasol i’w awdurdodiad

Dylai Awdurdodau Cymwys hefyd sicrhau:

- bod awdurdodiadau swyddogion yn nodi’n glir, pan fo’n briodol, unrhyw gyfyngiadau
- bod swyddogion, ar sail y gweithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw, wedi eu hawdurdodi’n benodol o dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol
- bod swyddogion yn cael eu goruchwylio’n briodol, ar sail eu profiad, eu cymhwysedd a’u cymwysterau
- eu bod yn cadw cofnodion dogfenedig y gellir eu hadalw mewn perthynas â’u swyddogion o ran:
  - eu cymwysterau (pan fo’n berthnasol)
  - eu hasesiadau cymhwysedd
  - eu hyfforddiant a’u datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- os oes angen iddynt ddefnyddio arbenigwyr, fod unrhyw arbenigwr yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas yn y maes y mae angen yr arbenigedd

### 3.2.3 Cymwysterau

Gan roi sylw i adran 3.2.2, dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod swyddogion yn meddu ar un neu ragor o gymwysterau addas, oni bai nad ydynt ond yn ymgymryd â’r gweithgareddau a ganlyn:

- rheolaethau swyddogol neu dasgau penodol sy’n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol eraill ar gynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid mewn Safleoedd Rheolaethau’r Ffin
- samplu
- rheolaethau answyddogol, gan gynnwys:
  - addysgu, cynghori a hyfforddi
  - casglu gwybodaeth, gan gynnwys yr asesiad bwrdd gwaith cychwynnol o sefydliadau busnes bwyd newydd
  - casglu, prosesu a rhannu deallusrwydd
- monitro amgylcheddol ar gyfer pysgod cregyn

- cynnal rheolaethau hylendid bwyd swyddogol sy’n ddyledus mewn sefydliadau â sgôr risg categori D sy’n cydymffurfio i raddau helaeth, a sefydliadau â sgôr risg categori E sydd:
  - heb fod yn destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 na gofynion Rheoliad (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy’n cynhyrchu egin
  - wedi cael sgôr o 10 neu lai am ‘y math o fwyd a’r dull trin’
  - wedi cael sgôr o 0 am ‘y dull prosesu’
- rheolaethau hylendid bwyd swyddogol cychwynnol mewn sefydliadau, heblaw am y rheiny sy’n gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd sydd:
  - ar sail asesiad bwrdd gwaith cychwynnol, yn unol ag adran 4.2.4.2, heb fod yn destun rheolaethau swyddogol cychwynnol o fewn 28 diwrnod
  - heb fod yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 na gofynion Rheoliad (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy’n cynhyrchu egin
- cynnal rheolaethau safonau bwyd swyddogol dyledus mewn sefydliadau â sgôr risg gynhenid o bedwar o leiaf, a sgôr asesu cydymffurfiaeth o dri o leiaf
- cynnal rheolaethau safonau bwyd swyddogol cychwynnol mewn sefydliadau y disgwylir, ar sail yr asesiad bwrdd gwaith cychwynnol, y bydd ganddynt sgôr risg gynhenid o bump

Pan fo swyddogion nad oes ganddynt gymhwyster addas wedi eu hawdurdodi i ymgymryd ag un neu ragor o’r gweithgareddau uchod, dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod y swyddogion yn destun goruchwyliaeth briodol
- os yw’r categori sgôr risg (hylendid bwyd), y risg gynhenid (safonau bwyd) a/neu lefel gydymffurfiaeth sefydliad wedi newid, gan beri nad yw’n bodloni’r meini prawf uchod mewn perthynas â rheolaethau swyddogol cychwynnol a dyledus, bod rheolaeth swyddogol yn cael ei chynnal cyn gynted ag y bo’n ymarferol gan swyddog â chymhwyster addas sy’n gymwys i gynnal rheolaethau swyddogol yn y math hwnnw o sefydliad
- pan fo rheolaeth swyddogol wedi ei chynnal, a bo camau anffurfiol yn briodol, bod y swyddog yn gymwys i ymgymryd â’r camau anffurfiol O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw camau gweithredu anffurfiol yn cynnwys:
  - gwaharddiadau a chau gwirfoddol
  - ildio bwydydd yn wirfoddol
- os yw’n ofynnol cymryd camau gorfodi ffurfiol, eu bod yn cael eu cymryd gan swyddog â chymhwyster addas sy’n gymwys i ymgymryd â’r camau gorfodi ffurfiol

#### 3.2.3.1 Cymwysterau addas ar gyfer hylendid bwyd

Y cymwysterau addas ar gyfer hylendid bwyd, a gydnabyddir gan yr ASB, yw’r rheiny a restrir isod (neu eu rhagflaenwyr):

- Tystysgrif Uwch mewn Rheoli Bwyd a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd (EHRB) neu Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH)
- Tystysgrif Uwch mewn Rheolaethau Swyddogol a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Swyddogion Diogelwch Bwyd yr Alban (SFSORB)
- Tystysgrif Gofrestru a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd i ymarfer fel Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd
- Diploma mewn Iechyd yr Amgylchedd a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd neu Sefydliad Brenhinol Iechyd yr Amgylchedd yr Alban (REHIS)
- Tystysgrif Broffesiynol Uwch mewn Rheoli Hylendid a Safonau Bwyd a ddyfarnwyd gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
- Gradd mewn Iechyd yr Amgylchedd
- Gradd Meistr mewn Iechyd yr Amgylchedd
- Prentisiaeth Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd (Gradd Integredig)
- Gradd mewn Iechyd yr Amgylchedd a ddyfarnwyd gan Sefydliad Technoleg Dulyn (wedi ei ddyfarnu o fis Mehefin 2012 ymlaen)
- Gradd mewn Iechyd yr Amgylchedd a ddyfarnwyd gan Brifysgol Dechnolegol Dulyn

#### 3.2.3.2 Cymwysterau addas ar gyfer safonau bwyd

Y cymwysterau addas ar gyfer safonau bwyd, a gydnabyddir gan yr ASB, yw'r rheiny a restrir isod (neu eu rhagflaenwyr):

- Tystysgrif Ymarferydd Safonau Masnach y Sefydliad Siartredig Safonau Masnach (CTSI) gyda'r uned Safonau Bwyd o'r Diploma Ymarferydd Safonau Masnach
- Diploma'r Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach (TSQF) mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (DCATS) gyda'r Modiwl Darparu Gwasanaeth Safonau Bwyd
- Diploma Uwch y Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (HDCATS) gyda'r Modiwl Darparu Gwasanaeth Safonau Bwyd
- Diploma mewn Safonau Masnach
- Diploma mewn Materion Defnyddwyr (DCA Rhan II) ar yr amod ei fod yn cynnwys y papur Bwyd ac Amaethyddiaeth
- Modiwl darparu gwasanaeth Tystysgrif Cymhwysedd y Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Safonau Bwyd
- Tystysgrif Sgiliau Craidd y Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (CSCATS) gyda'r Modiwl Darparu Gwasanaeth Safonau Bwyd
- Tystysgrif Cymhwysedd mewn Bwyd ac Amaethyddiaeth y Diploma mewn Materion Defnyddwyr

- Prentisiaeth Broffesiynol Safonau Masnach gyda'r Modiwl Bwyd
- Tystysgrif Uwch mewn Rheoli Bwyd a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd neu Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
- Tystysgrif Uwch mewn Rheolaethau Swyddogol a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Swyddogion Diogelwch Bwyd yr Alban
- Tystysgrif Broffesiynol Uwch mewn Rheoli Hylendid a Safonau Bwyd a ddyfarnwyd gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
- Tystysgrif Gofrestru a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd i ymarfer fel Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd
- Diploma mewn Iechyd yr Amgylchedd a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd neu Sefydliad Brenhinol Iechyd yr Amgylchedd yr Alban
- Gradd mewn Iechyd yr Amgylchedd
- Gradd Meistr mewn Iechyd yr Amgylchedd
- Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd, y Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd (IFST) neu Fwrdd Cofrestru Swyddogion Diogelwch Bwyd yr Alban gyda'r Gymeradwyaeth Safonau Bwyd
- Y Dystysgrif Uwch mewn Arolygu Safonau Bwyd a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Swyddogion Diogelwch Bwyd yr Alban
- Prentisiaeth Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd (Gradd Integredig)
- Gradd mewn Iechyd yr Amgylchedd a ddyfarnwyd gan Sefydliad Technoleg Dulyn (wedi ei ddyfarnu o fis Mehefin 2012 ymlaen)
- Gradd mewn Iechyd yr Amgylchedd a ddyfarnwyd gan Brifysgol Dechnolegol Dulyn

### 3.2.3.3 Cymwysterau addas ar gyfer hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd

Y cymwysterau addas ar gyfer hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd, ac eithrio sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Reoliad (UE) Rhif 210/2013, fel y'i cydnabyddir gan yr ASB, yw'r rheiny a restrir isod (neu eu rhagflaenwyr):

- y cymwysterau addas ar gyfer gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd a restrir yn adrannau 3.2.3.1 a 3.2.3.2
- Tystysgrif Ymarferydd Safonau Masnach CTSI gyda'r uned Bwyd Anifeiliaid o'r Diploma Ymarferydd Safonau Masnach
- Diploma Uwch y Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (HDCATS) gyda'r Modiwl Darparu Gwasanaeth Iechyd Anifeiliaid

- Diploma'r Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (DCATS) gyda'r Modiwl Darparu Gwasanaeth Iechyd Anifeiliaid
- Diploma'r Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (DCATS) gyda'r Modiwl Darparu Gwasanaethau Amaethyddol
- Tystysgrif Cymhwysedd y Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Amaethyddiaeth
- Tystysgrif Cymhwysedd y Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Iechyd Anifeiliaid
- Tystysgrif Sgiliau Craidd y Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (CSCATS) gyda'r Modiwl Darparu Gwasanaethau Amaethyddol
- Prentisiaeth Broffesiynol Safonau Masnach gyda'r Modiwl Bwyd Anifeiliaid

O ran swyddogion sy'n cynnal rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau busnesau bwyd sy'n ddarostyngedig i ofynion Rheoliad (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin, y cymwysterau addas yw'r rheiny a restrir yn adran 3.2.3.1.

### 3.2.3.4 Cymwysterau â chyfyngiadau

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau, pan nad yw swyddog ond yn dal cymhwyster a nodir isod, fod awdurdodiad y swyddog hwnnw i arfer pwerau a dyletswyddau cyfreithiol wedi ei gyfyngu hyd nes bod y swyddog yn gallu dangos ei fod yn gymwys i ymgymryd â'r gweithgareddau cyfyngedig perthnasol.

O ran hylendid bwyd, mae'r cymwysterau â chyfyngiadau, fel y'u dyfarnwyd gan yr EHRB, yr IFST neu'r SFSORB, a'r gweithgareddau cyfyngedig, wedi eu nodi yn y tabl isod.

| **Cymhwyster** | **Gweithgareddau sydd wedi eu cyfyngu hyd nes y bernir bod swyddog yn gymwys** |
|---|---|
| Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd | • cynnal arolygiad o fwyd i bennu ei addasrwydd<br>• atafaelu a chadw bwyd<br>• ymgymryd â swyddogaethau rheolaethau mewnforio ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd |
| Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd | • cynnal arolygiad o fwyd i bennu ei addasrwydd<br>• atafaelu a chadw bwyd |

| Cymhwyster | Gweithgareddau sydd wedi eu cyfyngu hyd nes y bernir bod swyddog yn gymwys |
|---|---|
| gyda'r Ardystiad Safonau Bwyd | • ymgymryd â swyddogaethau rheolaethau mewnforio ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd |
| Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd gyda'r Ardystiad Arolygu Bwyd | • cynnal arolygiad o fwyd i bennu ei addasrwydd<br>• atafaelu a chadw bwyd<br>• ymgymryd â swyddogaethau rheolaethau mewnforio ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd |
| Tystysgrif Gyffredin mewn Arolygu Safleoedd Bwyd | • cynnal arolygiad o fwyd i bennu ei addasrwydd<br>• atafaelu a chadw bwyd<br>• cyflwyno hysbysiadau camau unioni<br>• cyflwyno hysbysiadau gwahardd brys at ddibenion hylendid |

### 3.2.3.5 Cyfwerthedd cymwysterau

Yn ogystal â'r cymwysterau addas a gydnabyddir gan yr ASB, gall swyddogion presennol neu ddarpar swyddogion fod wedi ennill amrywiaeth o gymwysterau eraill, a chael amrywiaeth o hyfforddiant a phrofiadau eraill, gan gynnwys mewn gwledydd nad ydynt yn y DU, sy'n dangos eu cymhwysedd i gynnal rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill a/neu weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r rhain.

O dan yr amgylchiadau hyn, dylai Awdurdodau Cymwys, cyn awdurdodi'r swyddog, sicrhau bod y cymhwyster yn gyfwerth â'r cymhwyster addas perthnasol a restrir yn adrannau 3.2.3.1, 3.2.3.2 a/neu 3.2.3.3.

### 3.2.3.6 Hysbysu am gymwysterau newydd rhwng adolygiadau o'r Cod

Pan argymhellir cynnwys cymhwyster newydd yn y Cod, bydd yr ASB yn hysbysu'r Awdurdodau Cymwys ac yn egluro sut y dylid ystyried y cymhwyster mewn perthynas â'r bennod hon o'r Cod.

### 3.2.4 Cymhwysedd

Cymhwysedd yw cyfuniad o'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i gyflawni gweithgareddau rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill, ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain yn effeithiol.

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod swyddogion a swyddogion bwyd arweiniol yn gallu dangos, drwy asesiad priodol, eu bod yn gymwys i ymgymryd â'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w rôl a'r rheiny y byddant wedi eu hawdurdodi i'w cyflawni

- bod cymhwysedd swyddogion a swyddogion bwyd arweiniol yn cael ei adolygu'n barhaus, er enghraifft, fel rhan o broses arfarnu Awdurdod Cymwys

Dylai Awdurdodau Cymwys hefyd sicrhau:

- bod swyddogion sy'n dychwelyd i gynnal rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill a/neu weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r rhain, fel rheolaethau answyddogol, ar ôl cyfnod o absenoldeb, yn destun asesiad cymhwysedd priodol sy'n gymesur â hyd yr absenoldeb ac yn berthnasol i'r gweithgareddau y byddant yn eu cyflawni
- bod swyddogion sy'n symud o'r naill Awdurdod Cymwys i'r llall yn destun asesiad cymhwysedd priodol sy'n ystyried eu profiad blaenorol, a'u hasesiadau, ac sy'n berthnasol i'r gweithgareddau y byddant yn eu cyflawni
- bod swyddogion yn cael y cyfleoedd dysgu a datblygu angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion y tynnwyd sylw atynt yn eu hasesiad cymhwysedd

#### 3.2.4.1 Asesiad cymhwysedd

I gynnal asesiad cymhwysedd priodol, dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- gwirio cefndir addysgol y swyddog, a'r tystysgrifau a/neu'r cymwysterau a ddelir ganddo
- nodi'r gweithgareddau a'r is-weithgareddau sy'n berthnasol i rôl y swyddog a'r gweithgareddau y bydd wedi ei awdurdodi i'w cyflawni
- asesu a all y swyddog ddangos cymhwysedd ar sail safon gymhwysedd gynhwysfawr sydd wedi ei diffinio a'i dogfennu ar gyfer pob gweithgaredd neu is-weithgaredd y bydd yn ymgymryd ag ef
- nodi anghenion dysgu a datblygu'r swyddog sy'n gysylltiedig â'i gymhwysedd y gellir eu defnyddio yn sail i'w gynllun datblygu personol, yn ogystal â hyfforddiant a blaenoriaethau DPP eraill
- rhoi rhaglenni hyfforddi angenrheidiol ar waith a darparu mynediad at gyfleoedd dysgu a datblygu angenrheidiol, o dan oruchwyliaeth swyddog bwyd arweiniol neu swyddog cymwys arall, i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion y tynnir sylw atynt yn yr asesiad cymhwysedd

Dylai Awdurdodau Cymwys hefyd wneud y pethau a ganlyn:

- defnyddio'r asesiad cymhwysedd i benderfynu ar awdurdodiad swyddog, i gyfyngu arno a/neu i'w ddiwygio
- cynnwys asesiad cymhwysedd priodol mewn cylch rheolaidd o adolygiadau neu arfarniadau perfformiad

## 3.3 Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus arall

Rhaid i Awdurdodau Cymwys sicrhau bod swyddogion, gan gynnwys swyddogion bwyd arweiniol:

- yn cadw eu cymhwysedd yn gyfredol ar gyfer y gweithgareddau y maent wedi eu hawdurdodi i'w cyflawni, ac yn cael hyfforddiant ychwanegol rheolaidd, yn ôl yr angen[30]
- yn cael hyfforddiant ar destunau a nodir ym Mhennod I o Atodiad II i Reoliad (UE) 2017/625 ac ar rwymedigaethau'r Awdurdod Cymwys sy'n deillio o'r Rheoliad hwn, fel y maent yn berthnasol i'r gweithgareddau y maent yn eu cyflawni[31]

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod hyfforddiant a DPP arall yn cael ei lywio gan:
  - asesiad cymhwysedd swyddog, ac yn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd a nodwyd lle mae cymhwysedd y swyddog yn is na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni ei rôl bresennol neu i ymestyn ei awdurdodiad i gynnwys gweithgareddau newydd
  - y rôl a'r gweithgareddau y mae'r swyddog wedi ei awdurdodi i'w cyflawni
  - rhaglen hyfforddi'r Awdurdod Cymwys
- swyddogion awdurdodedig:
  - yn parhau i fod yn gymwys drwy ymgymryd ag o leiaf 20 awr o DPP y flwyddyn, sy'n berthnasol i'r gweithgareddau y maent wedi eu hawdurdodi i'w cyflawni, a ddylai fod wedi ei rannu fel a ganlyn:
    - o leiaf 10 awr ar destunau a nodir ym Mhennod 1 o Atodiad II i Reoliad (UE) 2017/625 ac ar rwymedigaethau'r Awdurdod Cymwys sy'n deillio o'r Rheoliad hwn, fel y maent yn berthnasol i'r gweithgareddau y maent wedi eu hawdurdodi i'w cyflawni
    - 10 awr ar faterion proffesiynol eraill
  - bod hyfforddiant a DPP yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n flynyddol a'u dogfennu'n briodol

## 3.4 Swyddogion sy'n cynnal rheolaethau mewnforio mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin

### 3.4.1 Rheolaethau mewnforio ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin

#### 3.4.1.1 Arolygwyr Pysgod Swyddogol

Os yw'r gymeradwyaeth ar gyfer y Safle Rheolaethau'r Ffin yn caniatáu mewnforio unrhyw gynhyrchion pysgodfeydd, infertebratau dyfrol, molysgiaid dwygragennog byw, echinodermau byw, tiwnigogion byw, a gastropodau morol byw y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl, gall yr Awdurdod Cymwys benodi'r canlynol i fod yn

[30] Erthygl 5(4)(b) o Reoliad (UE) 2017/625

[31] Erthygl 5(4)(c) o Reoliad (UE) 2017/625

arolygwyr pysgod swyddogol ar gyfer y safle hwnnw mewn perthynas â chynhyrchion o'r fath:

- swyddogion iechyd yr amgylchedd sydd wedi cael hyfforddiant addas
- personau eraill sydd wedi cael hyfforddiant priodol i gynnal rheolaethau swyddogol neu dasgau penodol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol eraill

Cyn penodi swyddog yn arolygydd pysgod swyddogol, dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod y swyddog yn gallu dangos ei fod yn gymwys i ymgymryd â'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w awdurdodiad.

#### 3.4.1.2 Gwiriadau dogfennol a gwiriadau adnabod

Gall Awdurdodau Cymwys awdurdodi swyddogion i gynnal gwiriadau dogfennol a gwiriadau adnabod ar anifeiliaid, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cynhyrchion cenhedlol, neu sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Cyn awdurdodi swyddog i gynnal y gwiriadau dogfennol a'r gwiriadau adnabod hyn, dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod y swyddog yn gallu dangos ei fod yn gymwys i ymgymryd â'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w awdurdodiad.

#### 3.4.1.3 Gwiriadau ffisegol

Caiff Awdurdodau Cymwys ddynodi swyddogion i gynnal gwiriadau ffisegol ar[32]:

- anifeiliaid dyfrol
- cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid eraill (ac eithrio cig ac offal cig bwytadwy)
- cynhyrchion cenhedlol
- sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Caiff Awdurdodau Cymwys hefyd ddynodi swyddogion i gynorthwyo milfeddygon swyddogol â gwiriadau ffisegol ar[33]:

- anifeiliaid (ac eithrio'r anifeiliaid dyfrol hynny a restrir uchod)
- cig ac offal cig bwytadwy

Cyn dynodi swyddog i gynnal y gwiriadau ffisegol hyn, dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod y swyddog yn gallu dangos ei fod yn gymwys i ymgymryd â'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w awdurdodiad.

---

[32] Erthygl 49(2)(b) o Reoliad (UE) 2017/625
[33] Erthygl 49(2)(a) o Reoliad (UE) 2017/625

#### 3.4.1.4 Penderfyniadau ar lwythi o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid

Rhaid i Awdurdodau Cymwys sicrhau bod penderfyniadau ar lwythi o anifeiliaid, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cynhyrchion cenhedlol neu sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cael eu gwneud gan filfeddyg swyddogol.[34]

Gall arolygydd pysgod swyddogol wneud penderfyniadau ar gynhyrchion pysgodfeydd, infertebratau dyfrol, molysgiaid dwygragennog byw, echinodermau byw, tiwnigogion byw, a gastropodau morol byw y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl.[35]

### 3.4.2 Swyddogion sy'n cynnal rheolaethau mewnforio ar gynhyrchion nad ydynt yn dod o anifeiliaid mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod swyddogion sy'n cynnal rheolaethau swyddogol (neu dasgau penodol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol eraill) mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin ar y cynhyrchion a fewnforir a ganlyn nad ydynt yn dod o anifeiliaid yn bodloni'r darpariaethau awdurdodi yn adran 3.2.2:

- bwyd risg uchel nad yw'n dod o anifeiliaid
- nwyddau sy'n destun mesur brys
- amodau neu fesurau penodedig
- deunyddiau risg uchel sy'n dod i gysylltiad â bwyd

### 3.4.3 Rhaglen hyfforddi ar gyfer swyddogion sy'n cynnal gwiriadau ffisegol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin, neu'n cynorthwyo â'r gwiriadau hynny

Pan fo swyddogion wedi eu dynodi i gynnal gwiriadau ffisegol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforir mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin, neu'n cynorthwyo â'r gwiriadau hynny, rhaid i Awdurdodau Cymwys:

- sicrhau bod y swyddogion wedi cwblhau'n llwyddiannus raglen hyfforddi y darperir ar ei chyfer yn Erthygl 3 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/1081[36]
- llunio a threfnu'r rhaglen hyfforddi er mwyn[37]:
  - sicrhau bod gwiriadau ffisegol yn cael eu cynnal yn unol â'r lefel angenrheidiol o gymhwysedd a phrofiad technegol
  - bod yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol[11]
- cadw cofnodion o'r rhaglen hyfforddi ar gyfer pob swyddog, gan gynnwys y dyddiadau, hyd y rhaglen, disgrifiad o'r rhaglen, a, phan fo'n briodol,

---

[34] Erthygl 55(2)(a) o Reoliad (UE) 2017/625
[35] Erthygl 55(3) o Reoliad (UE) 2017/625
[36] Erthygl 2(1) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/1081
[37] Erthygl 2(2) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/1081

tystysgrifau sy'n rhoi tystiolaeth bod y rhaglen hyfforddi wedi ei chwblhau'n llwyddiannus[38]

Pan fyddant yn llunio'r rhaglen hyfforddi, rhaid i Awdurdodau Cymwys sicrhau bod cynnwys y rhaglen:

- yn cael ei bennu yn ôl yr anifeiliaid a'r nwyddau y mae'r Safleoedd Rheolaethau'r Ffin wedi eu dynodi ar eu cyfer a'r tasgau a'r cyfrifoldebau y mae'r swyddogion wedi eu neilltuo iddynt[39]
- yn trafod y testunau a ganlyn,[40] fel y bo'n briodol:
  - y gyfraith gymwys sy'n ymwneud â mynediad anifeiliaid a nwyddau i Brydain Fawr, gan gynnwys gweithdrefnau a gweithgareddau i'w cynnal yn ystod ac ar ôl gwiriadau ffisegol
  - egwyddorion cyffredinol archwilio anifeiliaid
  - archwilio addasrwydd anifeiliaid i deithio
  - agweddau ymarferol ar drin anifeiliaid yn unol â'r gyfraith gymwys, gan gynnwys trefniadau i atal neu leihau oedi mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin a, phan fo angen, i fwydo'r anifeiliaid, i roi dŵr iddynt, i'w dadlwytho ac i'w lletya
  - archwilio nwyddau'n synhwyraidd
  - archwilio'r dull cludo a'r amodau cludo, gan gynnwys rheoli nwyddau sy'n sensitif i dymheredd (cadwyn oer) a chludo anifeiliaid
  - adnabod rhywogaethau o anifeiliaid, gan gynnwys, pan fo'n briodol, adnabod rhywogaethau estron ymledol a gyflwynir drwy anifeiliaid a nwyddau
  - gweithdrefnau rheoli, o ran defnyddio offer, gweithredu cynlluniau monitro a gweithdrefnau samplu a dadansoddiadau labordy, o ran anifeiliaid ac agweddau ar iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd
  - dulliau o ddehongli canlyniadau profion labordy a phenderfyniadau cysylltiedig yn unol â gofynion y gyfraith gymwys
  - asesiad risg, gan gynnwys casglu data mewn perthynas ag iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd er mwyn cynnal gwiriadau ffisegol wedi eu targedu'n briodol
  - atal croeshalogi, a chydymffurfio â safonau bioddiogelwch perthnasol
  - gofynion labelu ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid
  - ymchwiliadau a thechnegau rheoli y bwriedir iddynt ganfod arferion twyllodrus neu gamarweiniol mewn masnach

[37] Erthygl 2(3) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/1081
[38] Erthygl 3(1) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/1081
[39] Erthygl 3 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/1081

# Pennod 4 Cynnal rheolaethau swyddogol

## 4.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 4 yn ymdrin â'r materion a ganlyn:

- cynnal rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r rhain, fel rheolaethau answyddogol

## 4.2 Pa mor aml y dylid cynnal rheolaethau swyddogol

Rhaid i Awdurdodau Cymwys sicrhau eu bod yn cynnal rheolaethau swyddogol ar bob gweithredwr yn rheolaidd, ar sail risg ac mor aml ag sy'n briodol, gan ystyried[41]:

- y risgiau a nodwyd sy'n gysylltiedig ag:
  - anifeiliaid a nwyddau
  - y gweithgareddau o dan reolaeth y gweithredwyr
  - lleoliad gweithgareddau neu weithrediadau'r gweithredwyr
  - y defnydd o gynhyrchion, prosesau, deunyddiau, neu sylweddau a allai ddylanwadu ar ddiogelwch, cyfanrwydd ac iachusrwydd bwyd, neu ddiogelwch bwyd anifeiliaid, iechyd anifeiliaid neu les anifeiliaid, iechyd planhigion neu, yn achos organebau wedi eu haddasu'n enetig (GMOs) a chynhyrchion diogelu planhigion, a allai hefyd effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd
- unrhyw wybodaeth sy'n dangos y tebygolrwydd y gallai defnyddwyr gael eu camarwain, yn enwedig o ran natur, hunaniaeth, priodweddau, cyfansoddiad, swm, gwydnwch, gwlad neu fan tarddiad, dull cynhyrchu neu weithgynhyrchu bwyd
- hanes blaenorol gweithredwyr o ran canlyniad rheolaethau swyddogol a gyflawnwyd arnynt a'u cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd berthnasol
- dibynadwyedd a chanlyniadau'r rheolaethau a gynhaliwyd gan y gweithredwyr eu hunain, neu gan drydydd parti ar gais y gweithredwyr, gan gynnwys, pan fo'n briodol, gynlluniau sicrhau ansawdd preifat, at ddiben canfod a ydynt yn cydymffurfio â'r gyfraith bwyd gymwys
- unrhyw wybodaeth a allai ddangos diffyg cydymffurfi â'r gyfraith bwyd gymwys

### 4.2.1 Hylendid bwyd

Nid yw'r adran hon yn gymwys i sefydliadau sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd (a drafodir yn adran 4.2.3) ond mae'n gymwys i sefydliadau busnes bwyd sy'n ddarostyngedig i ofynion Rheoliad (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin.

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

---

[41] Erthygl 9(1) o Reoliad (UE) 2017/625

- bod amlder lleiaf y rheolaethau swyddogol ar gyfer sefydliadau busnes bwyd yn eu hardal yn cael ei bennu gan ddefnyddio'r cynllun sgorio ymyriadau hylendid bwyd (Atodiad 1)
- pan fo sefydliad busnes bwyd yn dod o fewn mwy nag un categori sgorio ar gyfer ffactor sgorio, ei fod yn cael y sgôr uchaf o blith y rhai sy'n gymwys iddo

#### 4.2.2 Safonau bwyd

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod amlder lleiaf y rheolaethau swyddogol ar gyfer sefydliadau busnes bwyd yn eu hardal yn cael ei bennu gan ddefnyddio'r cynllun sgorio ymyriadau safonau bwyd (Atodiad 1)
- pan fo sefydliad busnes bwyd yn dod o fewn mwy nag un categori sgorio ar gyfer ffactor sgorio, ei fod yn cael y sgôr isaf o blith y rhai sy'n gymwys iddo

#### 4.2.3 Cynhyrchu cynradd

Pan fyddant yn penderfynu ar amlder rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd, dylai Awdurdodau Cymwys flaenoriaethu rheolaethau swyddogol drwy wneud y defnydd gorau o unrhyw wybodaeth neu ddeallusrwydd a allai ddangos:

- bod defnyddwyr yn cael eu camarwain
- diffyg cydymffurfio â'r gyfraith bwyd gymwys

#### 4.2.4 Rheolaethau swyddogol cychwynnol

Mae'r adran hon, ac is-adrannau 4.2.4.1, 4.2.4.2, 4.2.4.3 a 4.2.4.4, yn gymwys:

- i sefydliadau busnes bwyd newydd sy'n dod i sylw'r Awdurdod Cymwys am y tro cyntaf
- i sefydliadau busnes bwyd nad oes ganddynt sgôr risg hanesyddol
- pan fo gweithredwr busnes bwyd wedi newid

Nid yw'r adran hon, nac is-adrannau 4.2.4.1, 4.2.4.2, 4.2.4.3 a 4.2.4.4, yn gymwys i sefydliadau sydd:

- yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 neu ofynion Rheoliad (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin, y dylid cynnal ymweliad cychwynnol ar eu safle cyn gynted ag y bo'n ymarferol
- yn gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd

Dylai Awdurdodau Cymwys flaenoriaethu rheolaethau swyddogol cychwynnol ar sefydliadau busnes bwyd newydd, fel nad yw'r rheiny mewn sefydliadau â pherygl posibl is (hylendid bwyd) a/neu risg gynhenid is (safonau bwyd) yn peri oedi gormodol rhag cynnal rheolaethau swyddogol cychwynnol neu ddyledus mewn sefydliadau risg uwch a/neu sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio.

#### 4.2.4.1 Hylendid bwyd

Dylai Awdurdodau Cymwys, o fewn 28 diwrnod i ddyddiad cofrestru sefydliad busnes bwyd newydd, neu i'r adeg y daw'r Awdurdod Cymwys i wybod bod y sefydliad yn gweithredu, pa un bynnag sydd gyntaf, naill ai:

- gynnal archwiliad neu arolygiad ffisegol (boed yn llawn neu'n rhannol) i'w alluogi i bennu sgôr ymyriad ar gyfer y sefydliad hwnnw
- cynnal asesiad bwrdd gwaith cychwynnol Pan fo'r sgôr perygl bosibl rhwng:
  - 30 – 97, dylid cynnal y rheolaeth swyddogol gychwynnol o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad cofrestru, neu i'r adeg y daw'r Awdurdod Cymwys i wybod bod y sefydliad yn gweithredu
  - 5 – 29, caniateir i'r rheolaeth swyddogol gychwynnol gael ei chynnal o fewn tri mis i'r dyddiad cofrestru, neu i'r adeg y daw'r Awdurdod Cymwys i wybod bod y sefydliad yn gweithredu

  gan ddefnyddio'r dulliau a'r technegau priodol y manylir arnynt yn nhabl 4.2.4.2.

Dylai sgoriau'r asesiad bwrdd gwaith cychwynnol fod yn seiliedig ar y perygl posibl o ran 1 o'r system sgorio hylendid bwyd yn Atodiad 1.

#### 4.2.4.2 Asesiad bwrdd gwaith cychwynnol hylendid bwyd

Pan fyddant yn cynnal asesiad bwrdd gwaith cychwynnol, dylai Awdurdodau Cymwys ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan y gweithredwr busnes bwyd pan oedd yn cofrestru ei sefydliad busnes bwyd, ac unrhyw wybodaeth arall y bernir ei bod yn berthnasol, i bennu'r perygl posibl sy'n gysylltiedig â'r busnes.

Pan fo asesiad bwrdd gwaith cychwynnol o berygl posibl sefydliad wedi ei gynnal, dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod y rheolaeth swyddogol gychwynnol yn cael ei chynnal, gan ddefnyddio'r dulliau a'r technegau priodol, ac o fewn yr amserlenni a nodir yn y tabl isod:

| Sgôr perygl posibl | Amserlenni ar gyfer cynnal rheolaeth swyddogol gychwynnol | Dulliau a thechnegau priodol wrth gynnal rheolaethau swyddogol |
|---|---|---|
| 30 – 97 | Cynnal rheolaeth swyddogol gychwynnol o fewn 28 diwrnod i ddyddiad cofrestru sefydliad busnes bwyd newydd neu i'r adeg y daw'r Awdurdod Cymwys i wybod bod y sefydliad yn gweithredu, pa un bynnag sydd gyntaf | Arolygiad ffisegol neu archwiliad (boed yn llawn neu'n rhannol) |

| Sgôr perygl posibl | Amserlenni ar gyfer cynnal rheolaeth swyddogol gychwynnol | Dulliau a thechnegau priodol wrth gynnal rheolaethau swyddogol |
|---|---|---|
| 5 – 29 | Cynnal rheolaeth swyddogol gychwynnol, ar sail risg, o fewn tri mis i ddyddiad cofrestru sefydliad busnes bwyd newydd neu i'r adeg y daw'r Awdurdod Cymwys i wybod bod y sefydliad yn gweithredu, pa un bynnag sydd gyntaf | Arolygiad ffisegol neu archwiliad (boed yn llawn neu'n rhannol), ac eithrio mewn:<br>• sefydliadau nad ydynt yn cymryd bwyd i'w ailwerthu i fusnesau eraill nac yn dal meddiant corfforol o fwyd o'r fath<br>• sefydliadau nad ydynt yn cael eu cydnabod yn gyffredinol gan ddefnyddwyr fel busnesau bwyd am nad yw'r prif fusnes neu weithgaredd yn ymwneud â bwyd<br>• sefydliadau penodol sy'n gweithredu o gyfeiriadau preifat<br>Yn y sefydliadau hyn, caiff Awdurdodau Cymwys ddefnyddio unrhyw ddull a thechneg o gynnal rheolaeth swyddogol (yn unigol neu gyfuniad ohonynt), y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625, boed yn ffisegol neu o bell, ar yr amod eu bod:<br>• yn effeithiol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau (gan roi sylw i'r ystyriaethau a ddarperir yn adran 4.3)<br>• yn gwirio cydymffurfiaeth â'r gyfraith bwyd berthnasol<br>• yn galluogi dilysu'r asesiad bwrdd gwaith<br>Ni ddylid cynnal rheolaethau swyddogol o bell pan fo'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Awdurdod Cymwys roi sgôr hylendid bwyd i sefydliad. |

#### 4.2.4.3 Safonau bwyd

Dylai Awdurdodau Cymwys, o fewn 28 diwrnod i ddyddiad cofrestru sefydliad busnes bwyd newydd neu i'r adeg y daw'r Awdurdod Cymwys i wybod bod y sefydliad yn gweithredu, pa un bynnag sydd gyntaf, gynnal naill ai:

- archwiliad neu arolygiad ffisegol (boed yn llawn neu'n rhannol) i'w alluogi i bennu sgôr ymyriad ar gyfer y sefydliad hwnnw

- asesiad bwrdd gwaith cychwynnol, ac yna reolaeth swyddogol gychwynnol. Pan fo'r sgôr risg gynhenid:
    - yn un neu'n ddau, dylid cynnal y rheolaeth swyddogol gychwynnol o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad cofrestru neu i'r adeg y daw'r Awdurdod Cymwys i wybod bod y sefydliad yn gweithredu
    - yn dri neu'n bedwar, dylid cynnal y rheolaeth swyddogol gychwynnol o fewn tri mis i'r dyddiad cofrestru neu i'r adeg y daw'r Awdurdod Cymwys i wybod bod y sefydliad yn gweithredu
    - yn bump, dylid cynnal y rheolaeth swyddogol gychwynnol o fewn chwe mis i'r dyddiad cofrestru neu i'r adeg y daw'r Awdurdod Cymwys i wybod bod y sefydliad yn gweithredu

gan ddefnyddio'r dulliau a'r technegau priodol y manylir arnynt yn nhabl 4.2.4.4

Dylai sgoriau'r asesiad bwrdd gwaith cychwynnol fod yn seiliedig ar y risg gynhenid o'r system sgorio safonau bwyd yn Atodiad 1.

#### 4.2.4.4 Asesiad bwrdd gwaith cychwynnol safonau bwyd

Pan fyddant yn cynnal asesiad bwrdd gwaith cychwynnol, dylai Awdurdodau Cymwys ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan y gweithredwr busnes bwyd pan oedd yn cofrestru ei sefydliad busnes bwyd, ac unrhyw wybodaeth arall y bernir ei bod yn berthnasol, i bennu lefel debygol y risg gynhenid sy'n gysylltiedig â'r busnes.

Pan fo asesiad bwrdd gwaith cychwynnol o risg gynhenid sefydliad wedi ei gynnal, dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod y rheolaeth swyddogol gychwynnol yn cael ei chynnal, gan ddefnyddio'r dulliau a'r technegau priodol, ac o fewn yr amserlenni a nodir yn y tabl isod:

| **Sgôr risg gynhenid** | **Amserlenni ar gyfer cynnal rheolaeth swyddogol gychwynnol** | **Dulliau a thechnegau priodol wrth gynnal rheolaethau swyddogol** |
|---|---|---|
| 1 (Perygl difrifol)<br>neu<br>2 (Perygl sylweddol) | Cynnal rheolaeth swyddogol gychwynnol o fewn 28 diwrnod i ddyddiad cofrestru sefydliad busnes bwyd newydd neu i'r adeg y daw'r Awdurdod Cymwys i wybod bod y sefydliad yn gweithredu, pa un bynnag sydd gyntaf | Arolygiad neu archwiliad (boed yn llawn neu'n rhannol) |
| 3 (Mân berygl)<br>neu<br>4 (Perygl isel) | Cynnal rheolaeth swyddogol gychwynnol o fewn tri mis i ddyddiad cofrestru sefydliad busnes bwyd newydd neu i'r adeg y daw'r Awdurdod Cymwys i wybod bod y | Arolygiad neu archwiliad (boed yn llawn neu'n rhannol) |

| | | |
|---|---|---|
| | sefydliad yn gweithredu, pa un bynnag sydd gyntaf | |
| 5 (Perygl isel iawn) | Cynnal rheolaeth swyddogol gychwynnol o fewn chwe mis i ddyddiad cofrestru sefydliad busnes bwyd newydd neu i'r adeg y daw'r Awdurdod Cymwys i wybod bod y sefydliad yn gweithredu, pa un bynnag sydd gyntaf | Unrhyw ddull a thechneg o gynnal rheolaeth swyddogol (yn unigol neu gyfuniad ohonynt) y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625, boed yn ffisegol neu o bell, ar yr amod eu bod:<br>• yn effeithiol a phriodol o dan yr amgylchiadau<br>• yn gwirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd berthnasol<br>• yn galluogi dilysu'r asesiad bwrdd gwaith |

### 4.2.5 Rheolaethau swyddogol dyledus

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- ar sail yr amlderau yn y systemau sgorio hylendid bwyd a safonau bwyd a nodir yn Atodiad 1, fod rheolaethau swyddogol a rheolaethau answyddogol busnesau presennol yn cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod i'w dyddiad dyledus
- bod rheolaethau swyddogol mewn busnesau risg uwch a/neu fusnesau nad ydynt yn cydymffurfio, neu'r rheiny sy'n debygol o fod yn rhai risg uchel, yn cael blaenoriaeth dros reolaethau swyddogol yn y busnesau hynny lle y mae'r risg yn is a/neu fusnesau sy'n cydymffurfio
- pan fo gwybodaeth neu ddeallusrwydd yn awgrymu natur gweithgareddau gweithredwr busnes bwyd, neu fod y lefel gydymffurfiaeth wedi newid, eu bod yn ailystyried priodoldeb y rheolaeth swyddogol nesaf sy'n ddyledus ar gyfer y sefydliad hwnnw, ac yn penderfynu a yw'n briodol cynnal rheolaeth swyddogol yn gynt

### 4.2.6 Adolygu sgoriau ymyriadau

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod eu swyddogion:

- yn diwygio sgôr ymyriad sefydliad busnes bwyd o dan yr amgylchiadau a ganlyn yn unig:
  - ar gyfer hylendid bwyd – ar ddiwedd archwiliad ffisegol neu archwiliad (llawn neu rannol), gan ystyried adrannau 4.2.4, 4.2.4.1, 4.2.4.2, 4.3 a 4.3.1, ac eithrio mewn:
    - sefydliadau nad ydynt yn cymryd bwyd i'w ailwerthu i fusnesau eraill nac yn dal meddiant corfforol o fwyd o'r fath

        - sefydliadau nad ydynt yn cael eu cydnabod yn gyffredinol gan ddefnyddwyr fel busnesau bwyd am nad yw'r prif fusnes neu weithgaredd yn ymwneud â bwyd
        - sefydliadau penodol sy'n gweithredu o gyfeiriadau preifat
        - sefydliadau nad ydynt yn cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr
    - Yn y sefydliadau hyn, caiff Awdurdodau Cymwys ddiwygio sgôr ymyriad sefydliad busnes bwyd ar ddiwedd rheolaeth swyddogol pan fo dulliau a thechnegau priodol ac effeithiol wedi eu defnyddio (gan ystyried gofynion y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol[42])
    - ar gyfer safonau bwyd – ar ddiwedd rheolaeth swyddogol pan fo dulliau a thechnegau priodol ac effeithiol wedi eu defnyddio, gan ystyried adrannau 4.2.4, 4.2.4.3, 4.2.4.4, 4.3 a 4.3.2
- wedi casglu digon o wybodaeth i gyfiawnhau diwygio'r sgôr ymyrryd
- pan fyddant yn pennu'r sgôr ymyrryd hylendid bwyd a/neu safonau bwyd:
    - yn defnyddio'r ystod lawn o sgoriau sydd ar gael yn y cynllun sgorio ymyriadau perthnasol
    - yn ystyried gwybodaeth a deallusrwydd a ddarparwyd gan drydydd partïon
- yn cofnodi'r sgôr ymyriad a'r cyfiawnhad dros ei newid

## 4.3 Dulliau a thechnegau o gynnal rheolaethau swyddogol

Pan fyddant yn penderfynu ar y dulliau a'r technegau priodol ac effeithiol i'w defnyddio i gynnal rheolaeth swyddogol,[43] rhaid i Awdurdodau Cymwys sicrhau bod y dulliau'n gallu gwirio cydymffurfiaeth[44] a nodi diffyg cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.[45]

Dylai Awdurdodau Cymwys hefyd ystyried:

- darpariaethau adran 4.3.1 a/neu 4.3.2
- diben y rheolaeth swyddogol
- pa ddulliau a thechnegau fyddai fwyaf effeithiol a phriodol, o dan yr amgylchiadau
- y dulliau a'r technegau a ddefnyddiwyd yn flaenorol, gan gynnwys a gawsant eu cynnal yn ffisegol neu o bell

---

[42] Adran 2 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013
[43] Erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625
[44] Erthygl 2(1) o Reoliad (UE) 2017/625
[45] Erthygl 9(2) o Reoliad (UE) 2017/625

- a yw'r swyddogion yn gyfarwydd â'r sefydliad
- hanes y sefydliad ac unrhyw ddata, gwybodaeth neu ddeallusrwydd sydd wedi dod i law am y sefydliad ers cynnal y rheolaeth swyddogol ddiwethaf
- a yw'r gweithredwr busnes bwyd yn gallu cael rheolaeth swyddogol o bell
- a yw'r dechnoleg a ddefnyddir yn ystod rheolaeth swyddogol yn sicrhau cyfrinachedd a diogelwch data busnes

### 4.3.1 Hylendid bwyd

Nid yw'r adran hon yn gymwys i sefydliadau:

- sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 neu ofynion Rheoliad (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin, a ddylai gael archwiliad neu arolygiad ffisegol (boed yn llawn neu'n rhannol) ni waeth beth fo'r sgôr ymyrryd
- yn gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod swyddogion, pan fyddant yn cynnal rheolaethau swyddogol priodol mewn perthynas â hylendid bwyd, yn ystyried y tabl isod:

| Sgôr ymyrryd bresennol ar gyfer hylendid bwyd | Dulliau a thechnegau priodol o gynnal rheolaethau swyddogol |
|---|---|
| A neu B | • arolygiad neu archwiliad (boed yn llawn neu'n rhannol) |
| C | • sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio i raddau helaeth<br>– arolygiad neu archwiliad (boed yn llawn neu'n rhannol)<br>• sefydliadau sy'n cydymffurfio i raddau helaeth<br>– arolygiad neu archwiliad (boed yn llawn neu'n rhannol)<br>Gall Awdurdodau Cymwys, ar sail eiledol, ddefnyddio unrhyw ddull a thechneg o gynnal rheolaeth swyddogol (yn unigol neu gyfuniad ohonynt) y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625 |
| D | • sefydliadau sy'n sgorio 30 neu 40 ar gyfer y math o fwyd a'r dull trin a thrafod:<br>– arolygiad neu archwiliad (boed yn llawn neu'n rhannol)<br>Gall Awdurdodau Cymwys, ar sail eiledol, ddefnyddio unrhyw ddull a thechneg o gynnal rheolaeth swyddogol (yn unigol neu gyfuniad ohonynt) y darperir ar eu cyfer yn |

| Sgôr ymyrryd bresennol ar gyfer hylendid bwyd | Dulliau a thechnegau priodol o gynnal rheolaethau swyddogol |
|---|---|
| | Erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625, boed yn ffisegol neu o bell, neu reolaeth answyddogol<br>• sefydliadau sy'n sgorio pump neu ddeg ar gyfer y math o fwyd a'r dull trin a thrafod:<br>unrhyw ddull a thechneg o gynnal rheolaeth swyddogol (yn unigol neu gyfuniad ohonynt) y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625; gall Awdurdodau Cymwys, ar sail eiledol, ddefnyddio rheolaeth answyddogol y gellir ei chynnal yn ffisegol neu o bell |
| E | • unrhyw ddull a thechneg o gynnal rheolaeth swyddogol (yn unigol neu mewn cyfuniad) y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625, boed yn ffisegol neu o bell<br>Gall Awdurdodau Cymwys, ar sail eiledol, ddefnyddio rheolaeth answyddogol y gellir ei chynnal yn ffisegol neu o bell |

### 4.3.2 Safonau bwyd

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod swyddogion, pan fyddant yn cynnal rheolaethau swyddogol dyladwy mewn perthynas â safonau bwyd, yn defnyddio dulliau a thechnegau effeithiol a phriodol, fel y nodir yn y tabl isod:

| Sgôr ymyrryd ar gyfer safonau bwyd | Dulliau a thechnegau priodol o gynnal rheolaethau swyddogol |
|---|---|
| Ymyriad sy'n flaenoriaeth | • arolygiad neu archwiliad (boed yn llawn neu'n rhannol) |
| Pob sefydliad arall | • unrhyw ddull a thechneg o gynnal rheolaeth swyddogol (yn unigol neu mewn cyfuniad) y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625, boed yn ffisegol neu o bell |

### 4.3.3 Samplu, dadansoddi ac archwilio

Mae'r adran hon yn gymwys i samplau bwyd sydd wedi eu caffael o dan Reoliad 12 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu adran 29 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, a gofynion cysylltiedig Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013.

Nid yw'r adran hon yn gymwys i samplau bwyd:

- sy'n destun cwyn ac yn dod i law'r Awdurdod Cymwys drwy ddefnyddwyr neu asiantaethau eraill
- sydd wedi eu cyflwyno i'r Dadansoddwr Cyhoeddus at ddibenion monitro neu wyliadwriaeth yn unig, pan nad oes dim bwriad ar adeg y samplu y bydd unrhyw gamau gorfodi ffurfiol yn deillio o'r canlyniad
- sydd wedi eu caffael yn unol â'r gyfraith bwyd, ond nad ydynt wedi eu cymryd i'w dadansoddi na'u harchwilio, er enghraifft, samplau a gyflwynir i gael barn arbenigwyr eraill, fel adnabod plâu
- sydd wedi eu cymryd fel tystiolaeth

#### 4.3.3.1 Caffael samplau

Mae pob sampl a gymerir gan swyddogion awdurdodedig ac a anfonir i labordy swyddogol yn sampl rheolaeth swyddogol.

Caiff Awdurdodau Cymwys gaffael ar samplau naill ai drwy eu 'prynu' neu drwy eu 'cymryd'.[46]

Pan fyddant yn caffael ar samplau, rhaid i Awdurdodau Cymwys:

- cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi rhybudd i'r perchennog y bydd y sampl yn cael ei dadansoddi neu ei harchwilio[47]
- pan fydd sampl a archebwyd drwy gyfrwng cyfathrebu o bell (fel ar-lein) yn eu meddiant ac nad ydynt wedi dweud pwy ydynt, gymryd pob cam i sicrhau bod y gweithredwr busnes bwyd y mae'r samplau wedi eu harchebu ganddo yn cael gwybod bod y sampl wedi ei chymryd a, phan fo'n briodol, ei bod i'w dadansoddi neu ei phrofi[48]
- sicrhau bod gan weithredwyr busnesau bwyd y mae eu hanifeiliaid neu eu nwyddau yn destun samplu, dadansoddi, profi neu ddiagnosis, yng nghyd-destun rheolaethau swyddogol, yr hawl i ail farn arbenigol, ar draul y gweithredwr busnes bwyd ei hun[49]

Dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- asesu ai prynu neu gymryd samplau, ac ystyried beth i'w samplu, yn enwedig mewn busnesau gweithgynhyrchu bwyd, pecynnu bwyd ac arlwyo
- atal samplau rhag cael eu halogi
- cynnal a chofnodi parhad tystiolaeth ac olrheiniadwyedd samplau ym mhob cam, gan gynnwys pan fydd sampl yn cael ei thrin, ei storio a'i chludo i'r labordy

---

[46] Adran 29 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad 12 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
[47] Rheoliad 7(3)(c) a 9(c)(ii) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013
[48] Erthygl 36(2)(a) o Reoliad (UE) 2017/625
[49] Erthygl 36(2)(b) o Reoliad (UE) 2017/625

- cofnodi'r dull o anfon sampl i'r labordy ac, os caiff ei phostio, cadw tystiolaeth ei bod wedi ei phostio
- hysbysu partïon eraill â diddordeb (fel y gwneuthurwr, y pecynnwr, y mewnforiwr neu'r asiant) yn ysgrifenedig fod y sampl wedi ei chaffael, oni bai nad yw eu manylion adnabod ar gael, neu fod eu cyfeiriad y tu allan i'r DU
- bodloni pob cais rhesymol gan weithgynhyrchwyr neu fewnforwyr i ddarparu gwybodaeth am y pethau a ganlyn:
  - dewis y sampl
  - y dull samplu
  - y dull o gynnal archwiliad microbiolegol neu ddadansoddiad cemegol

#### 4.3.3.2 Samplau i'w dadansoddi

Pan fo samplau wedi eu caffael o dan Adran 29 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 y mae swyddog awdurdodedig yn ystyried y dylid eu dadansoddi, rhaid i Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod y samplau'n cael eu cyflwyno i Ddadansoddwr Cyhoeddus penodedig[50]
- bod y samplau'n cael eu rhannu'n dair rhan, oni bai[51]:
  - bod y sampl yn cynnwys cynwysyddion wedi eu selio ac y byddai eu hagor, ym marn y swyddog, yn rhwystro dadansoddiad priodol
  - bod y swyddog o'r farn nad yw'n rhesymol ymarferol rhannu'r rhannau neu fod hynny'n debygol o rwystro dadansoddiad priodol
- bod pob rhan o'r sampl, os oes angen, yn cael ei rhoi mewn cynhwysydd addas a bod pob cynhwysydd yn cael ei selio[52]
- bod pob rhan neu gynhwysydd yn cael ei marcio/farcio neu ei labelu[53]
- pan fo'r sampl wedi ei rhannu'n dair rhan[54]:
  - bod un rhan o'r sampl yn cael ei rhoi i'r perchennog cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol
  - bod un rhan yn cael ei chyflwyno i'w dadansoddi
  - bod un rhan yn cael ei chadw

---

[50] Adran 30(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990
[51] Rheoliad 7(1), 7(2) a 7(4) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013
[52] Rheoliad 7(3)(a) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013
[53] Rheoliad 7(3)(b) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013
[54] Rheoliad 7(3)(c), 7(3)(d) a 7(3)(e) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013

- bod y dystysgrif ddadansoddi yn y fformat a nodir yn Atodlen 3 i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013, ond gellir ei haddasu os yw'n rhesymol ofynnol yn ôl yr amgylchiadau[55]
- bod perchennog y bwyd a samplwyd yn cael copi o'r dystysgrif ddadansoddi pan fydd yn gofyn amdano[56]

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod labordy'r Dadansoddwr Cyhoeddus wedi ei achredu at ddibenion dadansoddi a'i fod yn labordy swyddogol
- bod samplau a gymerir i'w dadansoddi'n cael eu rhannu'n dair rhan gynrychioliadol, cyn gynted â phosibl, oni bai bod y sampl yn bodloni'r meini prawf i'w chyflwyno i'w dadansoddi heb ei rhannu
- bod y weithdrefn ar gyfer cymryd samplau heb eu rhannu'n rhannau cynrychioliadol yn cael ei defnyddio â gofal, oherwydd ni fyddai dim rhan i'w rhoi i'r gwerthwr/perchennog, na dim rhan i'w chadw
- pan fo'n ymarferol, bod y rhannu'n cael ei wneud yn sefydliad y gweithredwr busnes bwyd, ac os yw'r gweithredwr busnes bwyd yn bresennol, ei fod yn cael y cyfle i arsylwi ar y samplu a'r rhannu cyn cael ei wahodd i ddewis un rhan i'w chadw
- bod natur a maint sampl a gymerir i'w dadansoddi yn peri, ar ôl ei rhannu'n dair rhan, ei bod yn dal i fod yn ddigonol i alluogi'r dadansoddiad gofynnol i gael ei gynnal
- bod protocolau samplu cenedlaethol yn cael eu hystyried, lle maent yn bodoli
- bod rhannau'r sampl yn cael eu selio yn y fath fodd fel na ellir ymyrryd â nhw, a bod seliau gwrth-ymyrraeth yn cael eu defnyddio
- bod rhannau'r sampl yn cael eu labelu i ddangos:
  - y math o sampl bwyd
  - enw'r swyddog
  - rhif adnabod yr arddangosyn
  - dyddiad, lleoliad ac amser y samplu
- bod copi o'r label bwyd (os yw ar gael) ac unrhyw fanylion perthnasol eraill yn cael eu cyflwyno i'r Dadansoddwr Cyhoeddus pan gyflwynir y sampl
- bod rhannau'r sampl yn cael eu storio a'u cludo'n briodol i sicrhau eu cyfanrwydd, a bod y rhan berthnasol yn cael ei chyflwyno i'r Dadansoddwr Cyhoeddus cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl samplu

---

[55] Rheoliad 10(2) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013

[56] Rheoliad 10(1) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013

- ar ôl i'r canlyniadau ddod i law, pan amheuir bod trosedd yn gysylltiedig â'r gweithgynhyrchwr, ei fod yn cael ei hysbysu am y canlyniadau cyn gynted â phosibl, yn y modd mwyaf effeithiol, ynghyd ag Awdurdodau Cymwys perthnasol eraill. Fodd bynnag, gellir oedi cyn rhyddhau'r dystysgrif pan allai ei rhyddhau beryglu'r ymchwiliad

#### 4.3.3.3 Samplau i'w harchwilio

Pan fo samplau wedi eu caffael o dan Reoliad 12 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 y mae swyddog awdurdodedig yn ystyried y dylid eu harchwilio, rhaid i Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod samplau'n cael eu cyflwyno i Archwiliwr Bwyd[57] cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol[58]
- bod y sampl, os oes angen, yn cael ei rhoi mewn cynhwysydd addas a bod pob cynhwysydd yn cael ei selio[59]
- bod y sampl neu'r cynhwysydd yn cael ei marcio/farcio neu ei labelu[60]
- bod y dystysgrif archwilio yn y fformat a nodir yn Atodlen 3 i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013, ond gellir ei haddasu os yw'n rhesymol ofynnol yn ôl yr amgylchiadau[61]
- bod perchennog y bwyd a samplwyd yn cael copi o'r dystysgrif archwilio pan fydd yn gofyn amdani[62]

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod labordy'r Archwiliwr Bwyd wedi ei achredu at ddibenion archwilio a'i fod yn labordy swyddogol
- bod maint unrhyw sampl sy'n cael ei gaffael yn peri y gellir cynnal archwiliad boddhaol
- bod y sampl yn cael ei selio yn y fath fodd fel na ellir ymyrryd â hi a bod seliau gwrth-ymyrraeth yn cael eu defnyddio
- nad yw'r swyddog samplu'n halogi'r sampl
- bod rhannau'r sampl yn cael eu labelu i ddangos:

---

[57] Rheoliad 13(1)(b) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
[58] Rheoliad 9(c)(i) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013
[59] Rheoliad 9(a) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013
[60] Rheoliad 9(b) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013
[61] Rheoliad 10(2) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013
[62] Rheoliad 10(1) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013

- enw'r bwyd
- enw'r swyddog
- enw'r Awdurdod Cymwys
- y man samplu
- dyddiad ac amser y samplu
- rhif adnabod

- bod copi o'r label bwyd (os yw ar gael) ac unrhyw fanylion perthnasol eraill yn cael eu cyflwyno i'r Archwiliwr Bwyd pan gyflwynir y sampl
- bod y sampl yn cael ei thrin, ei storio a'i chludo'n briodol i sicrhau:
  - ei chyfanrwydd
  - ei bod, cyn belled ag y bo modd, yn cyrraedd y labordy heb fod ei chyflwr wedi newid yn ficrobiolegol o'i gymharu â'i chyflwr pan gymerwyd y sampl
  - nad yw'r sampl wedi ei halogi, a bod twf microbaidd neu farwolaeth yn cael ei atal
- bod tymheredd y cludiant yn cael ei fonitro a'i gofnodi, gan ddefnyddio thermomedr wedi ei raddnodi neu ddyfais debyg i'w fonitro
- ar ôl i'r canlyniadau ddod i law, pan amheuir bod trosedd yn gysylltiedig â'r gweithgynhyrchwr, ei fod yn cael ei hysbysu am y canlyniadau cyn gynted â phosibl, yn y modd mwyaf effeithiol, ynghyd ag Awdurdodau Cymwys perthnasol eraill. Fodd bynnag, gellir oedi cyn rhyddhau'r dystysgrif pan allai ei rhyddhau beryglu'r ymchwiliad
- wrth ymchwilio i achosion o salwch a gludir gan fwyd yr adroddwyd amdanynt neu a amheuir a chael sbesimenau ysgarthol, bod y sbesimenau'n cael eu casglu a'u cludo i'r labordy cyn gynted â phosibl ar ôl i'r symptomau ddechrau, a bod manylion yr unigolyn perthnasol yn cael eu nodi ar y cynhwysydd ac ar unrhyw ddogfennaeth sy'n mynd gydag ef

## 4.4 Cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill

Rhaid i Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- eu bod yn cynnal rheolaethau swyddogol yn rheolaidd, gan bennu'r amlderau ar sail risg, i nodi tramgwyddau bwriadol posibl yn erbyn cyfraith bwyd gymwys a gyflawnwyd drwy arferion twyllodrus neu gamarweiniol, a chan ystyried gwybodaeth ynghylch tramgwyddau o'r fath a rannwyd gan Awdurdodau Cymwys eraill ac unrhyw wybodaeth arall sy'n awgrymu'r posibilrwydd o dramgwyddau o'r fath[63]

[63] Erthygl 9(2) o Reoliad (UE) 2017/625

- bod rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal heb rybudd ymlaen llaw, ac eithrio pan fo'n angenrheidiol rhoi rhybudd a bo modd cyfiawnhau gwneud hynny ar gyfer y rheolaeth sydd i'w chynnal[64]
- bod rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal, cymaint â phosibl, yn y fath fodd fel eu bod yn rhoi cyn lleied â phosibl o faich gweinyddol ar weithredwyr busnesau bwyd, ac yn tarfu cyn lleied â phosibl ar eu gweithrediadau, ond heb effeithio'n negyddol ar effeithiolrwydd y rheolaethau[65]
- bod swyddogion, pan fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau yng nghyd-destun rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill, yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfrinachedd yn Erthygl 8 o Reoliad (UE) 2017/625
- eu bod yn cynnal rheolaethau swyddogol yn yr un modd, gan ystyried yr angen i addasu'r rheolaethau i'r sefyllfa benodol, ni waeth a yw'r anifeiliaid a'r nwyddau o dan sylw yn cael eu mewnforio, eu hallforio, neu eu rhoi ar y farchnad ym Mhrydain Fawr[66]
- bod rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal gyda lefel uchel o dryloywder, a'u bod, o leiaf unwaith y flwyddyn, yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am y drefn rheolaethau swyddogol a'u perfformiad ar gael i'r cyhoedd[67]
- pan fyddant yn amau nad yw sefydliad yn cydymffurfio, eu bod yn cynnal ymchwiliad er mwyn cadarnhau neu ddileu'r amheuaeth honno[68]

Pan fyddant yn cynnal rheolaethau swyddogol, dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod eu swyddogion:

- yn cynllunio ar gyfer y rheolaeth swyddogol drwy adolygu gwybodaeth a gedwir yng nghofnodion yr Awdurdod Cymwys mewn perthynas â'r sefydliad busnes bwyd perthnasol
- yn pennu'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyd a gynhelir gan y busnes a chyfraith bwyd berthnasol sy'n gymwys i'r gweithrediadau sy'n digwydd, gan gynnwys unrhyw newidiadau perthnasol ers y rheolaeth swyddogol ddiwethaf
- yn nodi unrhyw rannau o'r sefydliad a ddefnyddir ar gyfer paratoi, cynhyrchu, storio a chludo bwydydd, ac unrhyw brosesau a ddefnyddir, gan gynnwys y staff sy'n ymwneud â'r pethau hynny
- yn sicrhau bod y gweithredwr busnes bwyd (neu ei gynrychiolydd) yn gwybod am bwrpas y rheolaeth swyddogol a'r hyn y mae'r swyddog yn bwriadu ei wneud
- yn asesu'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau a gyflawnir gan y busnes a'r risg y bydd y busnes yn methu â bodloni gofynion cyfraith bwyd

---

[64] Erthygl 9(4) o Reoliad (UE) 2017/625
[65] Erthygl 9(5) o Reoliad (UE) 2017/625
[66] Erthygl 9(6) o Reoliad (UE) 2017/625
[67] Erthygl 11(1) o Reoliad (UE) 2017/625
[68] Erthygl 137(2) o Reoliad (UE) 2017/625

- yn defnyddio barn broffesiynol i benderfynu pa weithgareddau, mewn sefydliad busnes bwyd, sydd i'w harchwilio yn ystod rheolaeth swyddogol, er mwyn rhoi sicrwydd bod gofynion perthnasol y gyfraith bwyd yn cael eu bodloni
- yn asesu, pan fo'n berthnasol, y system rheoli diogelwch bwyd a'r camau i'w rhoi ar waith
- yn casglu a chofnodi gwybodaeth sy'n deillio o'r pethau a ganlyn:
  - arsylwadau, archwiliadau, a thrafodaethau â'r gweithredwr busnes bwyd a/neu ei gyflogeion i sicrhau bod modd dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd berthnasol
  - arsylwi ar arferion, gweithdrefnau a phrosesau, gan gynnwys, pan fo'n berthnasol, weithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP
- yn holi staff sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau penodol dros sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol perthnasol, er mwyn gwirio eu bod yn deall eu dyletswyddau a'u bod yn eu cyflawni'n effeithiol
- yn rhoi cyngor, pan fo'n briodol neu pan ofynnir amdano, ac yn annog gweithredwyr busnesau bwyd drwy ddull addysgol i fabwysiadu arferion da
- yn ystyried croeshalogi, gan gynnwys unrhyw halogiad sy'n gysylltiedig ag alergenau a nodir wrth baratoi bwyd yn benodol ar gyfer defnyddwyr ag alergedd neu anoddefiad bwyd, ac yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar reoli alergenau
- yn ystyried rheolaethau ar fwyd a fewnforiwyd pan fyddant yn cynnal rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau mewndirol, gan gynnwys a ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran bwyd a fewnforir
- yn nodi unrhyw achosion gwirioneddol neu bosibl o dorri cyfraith bwyd, yn penderfynu ar y camau i'w cymryd, gan gynnwys, pan fo angen, gamau gorfodi ac, os yw'n briodol, yn casglu a chadw tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio
- yn trafod unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd â'r gweithredwr busnes bwyd (neu ei gynrychiolydd) gan gynnwys:
  - unrhyw gamau unioni angenrheidiol
  - amserlen y camau unioni
  - unrhyw gamau pellach y mae'r swyddog yn bwriadu eu cymryd
  - unrhyw argymhellion o ran arferion da y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn briodol

### 4.4.1 Cynnal rheolaethau swyddogol ar longau ac awyrennau

Mae'r adran hon yn gymwys i reolaethau swyddogol a gynhelir ar longau ac awyrennau. Nid yw'n gymwys i'r canlynol:

- llongau pysgota sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd
- llongau sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004

#### 4.4.1.1 Cyffredinol

Pan fyddant yn cynnal rheolaethau swyddogol ar longau ac awyrennau, yn ogystal ag ystyried adran 4.4, dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod swyddogion yn cael cliriad diogelwch priodol cyn i reolaethau swyddogol gael eu cynnal
- bod swyddogion yn ystyried tarddiad y bwyd ar fwrdd y llong neu'r awyren, gan gynnwys dŵr a diodydd eraill, yn ogystal â sut y maent yn cael eu cludo a'u llwytho
- pan fyddant yn cyflwyno hysbysiadau, fod swyddogion yn cysylltu â'r cwmni rheoli neu'r asiant trin/morgludiant, ac os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol mewn perthynas â llongau, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau
- eu bod yn mabwysiadu strategaeth ar gyfer amlder rheolaethau swyddogol, ar sail gwybodaeth am wahanol fathau o longau/awyrennau, eu tarddiad a'u hanes
- bod swyddogion yn cael yr holl wybodaeth berthnasol gan y partïon perthnasol eraill, fel y gweithredwr morgludiant, y cwmni hedfan, neu'r asiant morgludiant, fel y bo'n briodol, cyn i'r rheolaeth swyddogol gael ei chynnal
- mai dim ond awyrennau milwrol a ddefnyddir i symud personél anhactegol sydd wedi eu cynnwys yn y rhaglen rheolaethau swyddogol

#### 4.4.1.2 Rheolaethau swyddogol ar longau

Pan fyddant yn cynnal rheolaethau swyddogol ar longau, yn ogystal ag ystyried adrannau 4.4 a 4.4.1.1, dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod y penderfyniad i gynnal rheolaeth swyddogol ar long at ddibenion diogelwch bwyd, a'r amlder, yn seiliedig ar y meini prawf a ganlyn:
  - a yw'r gweithrediad bwyd yn gwasanaethu aelodau'r cyhoedd (p'un a ydynt yn talu ai peidio)
  - a yw porthladd cartref y llong yn y DU
- bod unrhyw gyfleuster rhannu data sydd ar gael yn cael ei ystyried, gan gyfeirio at dystiolaeth hanesyddol o ddiffyg cydymffurfio
- bod swyddogion yn ystyried yr ystod a'r amrywiaeth o longau pan fyddant yn cynllunio rheolaethau swyddogol
- pan gynhelir rheolaeth swyddogol ar yr un pryd â rheolaethau at ddibenion glanweithdra llong, fod y swyddog awdurdodedig:
  - yn glir o ran ble mae gofynion y gwahanol reolaethau'n dechrau ac yn gorffen
  - yn gwahaniaethu'n glir rhwng canfyddiadau pob rheolaeth pan fydd yn rhoi gwybod amdanynt i feistr y llong
- bod swyddogion yn pennu cwmpas y gweithgareddau busnes bwyd sy'n digwydd ar y llong ac yn defnyddio'u barn broffesiynol i benderfynu pa weithgareddau a archwilir yn ystod rheolaeth swyddogol, er mwyn rhoi sicrwydd bod gofynion perthnasol y gyfraith bwyd yn cael eu bodloni

- bod meistr y llong (neu'r swyddog priodol sy'n rheoli):
  - yn gwybod am bwrpas y rheolaeth swyddogol
  - wedi bod yn rhan o drafodaethau ynghylch canfyddiadau'r rheolaeth swyddogol ac wedi cael syniad o'r amserlenni disgwyliedig ar gyfer unrhyw gamau unioni
  - yn cael tystysgrif arolygu cyn i'r swyddog adael y llong, neu os nad yw'n bosibl gwneud hynny cyn i'r llong adael, bod y dogfennau'n cael eu hanfon ato
- bod perchennog y llong, yn ogystal ag Awdurdodau Cymwys ac asiantaethau perthnasol eraill, yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig am ganlyniad y rheolaeth swyddogol, gan gynnwys, pan fo'n briodol:
  - Llywodraeth Cymru
  - awdurdod iechyd porthladd y porthladd nesaf y mae'r llong yn bwriadu ymweld ag ef, os yw'r porthladd hwnnw yn y DU
  - yr Awdurdod Cymwys cartref perthnasol, os yw wedi ei ddynodi, pan nodir unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio

#### 4.4.1.3 Rheolaethau swyddogol ar awyrennau

Pan fyddant yn cynnal rheolaethau swyddogol ar awyrennau, yn ogystal ag ystyried adrannau 4.4 a 4.4.1.1, dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- eu bod yn cael gwybodaeth berthnasol am y cwmni hedfan a'r awyren i benderfynu a ddylid cynnal rheolaeth swyddogol
- eu bod yn cysylltu â'r cwmni hedfan a/neu Awdurdodau Cymwys perthnasol eraill i ddod i ddeall sut y mae rheolaethau diogelwch bwyd yn gweithredu ar awyrennau ac i alluogi swyddogion i ddilysu systemau diogelwch bwyd
- pan fo gwiriadau dogfennol o'r wybodaeth a ddarparwyd yn peri unrhyw bryderon, neu os ceir unrhyw ansicrwydd ynghylch yr wybodaeth a ddarparwyd gan staff y caban, fod y pencadlys perthnasol a/neu'r Awdurdod Cymwys perthnasol yn cael ei hysbysu, a phan fo'n briodol, bod cynyddu'r gwaith gwyliadwriaeth yn cael ei ystyried
- bod y penderfyniad i gynnal rheolaeth swyddogol ar awyren yn ystyried:
  - unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gan y cwmni hedfan
  - cadarnhad o ddilysrwydd yr wybodaeth
  - unrhyw gwynion yn ymwneud â bwyd neu hylendid bwyd sydd wedi dod i law gan deithwyr neu gan griw'r awyren
  - a roddwyd gwybod am unrhyw achosion o salwch a gludir gan fwyd sy'n effeithio ar griw'r awyren
- ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd, bod rheolaethau swyddogol ar awyrennau sy'n darparu prydau risg uchel yn cael eu cynnal bob 18 mis i ddwy flynedd, oni bai bod rhesymau cryf dros eu cynnal yn gynt
- pan gynhelir rheolaeth swyddogol ar fwrdd awyren, bod swyddogion yn defnyddio'u barn broffesiynol i benderfynu pa weithgareddau i'w harchwilio, er

mwyn rhoi sicrwydd bod gofynion perthnasol y gyfraith bwyd yn cael eu bodloni

- nad yw rheolaethau swyddogol ond yn cael eu cynnal os yw'n hollol angenrheidiol yn ystod arosiadau tramwy
- bod y cwmni hedfan a, phan fo'n briodol, Awdurdodau Cymwys perthnasol eraill, yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig:
  - am ganlyniad y rheolaeth swyddogol
  - am unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd, gan gynnwys manylion am y math o awyren a rhif yr hediad, i sicrhau bod modd cymryd unrhyw gamau dilynol angenrheidiol

## 4.5 Rheolaethau answyddogol

Rhaid i Awdurdodau Cymwys sicrhau, pan fyddant yn amau nad yw sefydliad yn cydymffurfio, eu bod yn cynnal ymchwiliad er mwyn cadarnhau'r amheuaeth honno neu ei dileu.[69]

Pan fyddant yn cynnal rheolaethau answyddogol (fel cynghori, addysgu neu hyfforddi, neu gasglu gwybodaeth a deallusrwydd) a bod achosion sylweddol o ddiffyg cydymffurfio'n cael eu nodi sy'n peri risg i iechyd y cyhoedd, dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- cynnal rheolaeth swyddogol gan ddefnyddio, o dan yr amgylchiadau, y dulliau a'r technegau mwyaf effeithiol a phriodol i wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd berthnasol
- pan fo angen, cymryd camau gorfodi priodol yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod Cymwys

## 4.6 Cofnodion rheolaethau swyddogol a rheolaethau answyddogol

Rhaid i Awdurdodau Cymwys lunio cofnodion ysgrifenedig o bob rheolaeth swyddogol a gynhelir ganddynt. Caiff y cofnodion hynny fod ar bapur neu ar ffurf electronig a rhaid iddynt gynnwys[70]:

- disgrifiad o bwrpas y rheolaeth swyddogol
- y dull a'r technegau a ddefnyddiwyd i gynnal y rheolaeth swyddogol
- canlyniad y rheolaeth swyddogol
- pan fo'n briodol, y camau y mae'r Awdurdod Cymwys yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr busnes bwyd eu cymryd o ganlyniad i'r rheolaeth swyddogol

Rhaid i Awdurdodau Cymwys[71]:

[69] Erthygl 137(2) o Reoliad (UE) 2017/625
[70] Erthygl 13(1) o Reoliad (UE) 2017/625
[71] Erthygl 13(2) o Reoliad (UE) 2017/625

- hysbysu'r gweithredwr busnes bwyd yn ysgrifenedig ac yn brydlon am unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd drwy'r rheolaeth swyddogol
- pan ofynnir iddynt wneud hynny, darparu copi o'r cofnod ysgrifenedig i'r gweithredwr busnes bwyd, ac eithrio pan fo:
  - camau gorfodi neu achos llys yn ei gwneud yn ofynnol gwneud fel arall
  - bod tystysgrif swyddogol wedi ei dyroddi neu ardystiad swyddogol wedi ei ddyroddi

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod eu swyddogion:

- yn gwahaniaethu'n glir rhwng y camau gweithredu sy'n ofynnol i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac argymhellion arferion da
- yn llunio cofnodion ysgrifenedig o bob rheolaeth answyddogol y maent yn ei chynnal y caniateir iddynt fod ar bapur neu ar ffurf electronig
- yn defnyddio ffurflenni templed perthnasol, lle maent wedi'u mabwysiadu, a'u llenwi'n llwyr
- yn cofnodi digon o wybodaeth i ddangos:
  - yr hyn a gafodd ei archwilio/asesu (a'r hyn na chafodd ei archwilio/asesu)
  - sut y mae cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd berthnasol yn cael ei chyflawni yn y sefydliad busnes bwyd
  - unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd, unrhyw gamau unioni sy'n angenrheidiol a'r amserlenni ar eu cyfer
  - y manylion a ddefnyddiwyd i bennu'r sgôr risg
  - y sail resymegol dros unrhyw gamau a gymerwyd a/neu dros beidio â chymryd camau
  - y sail resymegol dros y dulliau a'r technegau a ddefnyddiwyd
- yn sicrhau bod cofnodion rheolaethau swyddogol yn cynnwys:
  - manylion y swyddog sy'n cynnal y rheolaeth swyddogol
  - manylion yr Awdurdod Cymwys
  - manylion y busnes bwyd
  - manylion y rheolaeth swyddogol a gynhelir
  - manylion gweinyddol
- yn darparu copi o'r cofnod ysgrifenedig i'r gweithredwr busnes bwyd ar ôl cynnal rheolaeth swyddogol
- yn diweddaru systemau gwybodaeth reoli cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cynnal rheolaeth swyddogol neu reolaeth answyddogol
- pan fydd yn gadael dogfennaeth gyda phersonél ar y safle (neu'n ei hanfon yn electronig), yn anfon copi hefyd i'r pencadlys perthnasol, neu gyfeiriad arall, oni bai bod y pencadlys yn nodi fel arall

## 4.7 Rheolaethau mewnforio

### 4.7.1 Gweithdrefnau ar gyfer bwyd a fewnforir

Rhaid bod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefnau a/neu drefniadau yn eu lle i sicrhau effeithiolrwydd a phriodoldeb rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill[72].

Dylai Awdurdodau Cymwys:

- sefydlu, gweithredu a chynnal trefniadau i ymdrin yn effeithiol â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a gyflwynir yn anghyfreithlon a sicrhau:
    - bod swyddogion wedi eu hawdurdodi'n briodol
    - bod templedi hysbysiadau ar gael
    - bod mecanweithiau effeithiol yn eu lle ar gyfer samplu neu archwilio
    - bod trefniadau yn eu lle i gludo, storio a dinistrio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid drwy eu llosgi ar dymheredd uchel
- sicrhau bod y rhaglen o reolaethau swyddogol:
    - yn cynnwys bwyd a fewnforir ac yn ystyried pob busnes bwyd yn eu hardal sy'n mewnforio neu'n gwerthu bwyd o'r tu allan i Brydain Fawr yn rheolaidd
    - yn cael ei llywio gan Rybuddion Bwyd a hanes cydymffurfio sefydliadau busnesau bwyd
- nodi pob busnes bwyd yn eu hardal sy'n mewnforio bwyd a chofnodi'r manylion a ganlyn yn eu system gwybodaeth reoli:
    - y gweithgareddau perthnasol a gynhelir
    - y math o fwydydd a fewnforiwyd
    - tarddiad y bwydydd a fewnforiwyd

Pan fo Awdurdod Cymwys yn goruchwylio mannau cyrraedd, fel porthladdoedd môr, meysydd awyr, cyfleusterau storio dros dro allanol a/neu derfynellau rheilffordd rhyngwladol, dylent:

- sefydlu, gweithredu a chynnal gweithdrefnau dogfenedig o ran y trefniadau sydd yn eu lle i adnabod bwyd a fewnforiwyd
- gwybod am feintiau a natur y bwydydd sy'n dod i mewn drwy'r man cyrraedd
- cadw gwybodaeth gyfredol am fannau cyrraedd yn eu hardal
- pan fo'n briodol, rhoi trefniadau yn eu lle i gael gafael ar restrau cargo awyrennau, neu gael mynediad atynt, ac yna eu gwirio'n aml
- mewn perthynas â phorthladdoedd môr, pan fo ymholiadau â gweithredwr y porthladd yn dangos bod bwyd yn cael ei fewnforio:

---

[72] Erthygl 5(1)(a) o Reoliad 2017/625

- gwirio 100% o restrau cargo llongau am fwyd a fewnforir hyd nes y dangosir nad oes dim bwyd yn cael ei fewnforio am gyfnod parhaus o dri mis ac nad oes mewnforion pellach yn rhesymol ragweladwy
- gwirio statws mewnforion bwyd o leiaf unwaith bob tri mis

### 4.7.2 Monitro llwythi

#### 4.7.2.1 Anifeiliaid a nwyddau sy'n ddarostyngedig i reolaethau swyddogol mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin

Rhaid i Awdurdodau Cymwys:

- sicrhau bod llwythi o'r categorïau o anifeiliaid a nwyddau y cyfeirir atynt yn Erthygl 47 o Reoliad (UE) 2017/625 yn destun rheolaethau swyddogol pan fo'r nwyddau'n dod i Brydain Fawr yn unol ag Erthyglau 47 i 64 o Reoliad (UE) 2017/625[73]
- sicrhau bod y rheolaethau swyddogol yn cynnwys gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol[74]
- os oes achos o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei amau, ac os ceir achos o ddiffyg cydymffurfio, mewn perthynas ag anifeiliaid a nwyddau sy'n dod i Brydain Fawr[75]:
  - cynnal rheolaethau swyddogol i gadarnhau'r amheuaeth honno neu i'w dileu
  - cymryd camau priodol a gwneud penderfyniadau dilynol pan geir achosion o lwythi nad ydynt yn cydymffurfio
- casglu ffioedd am reolaethau swyddogol a gynhelir ar fwyd a fewnforir nad yw'n dod o anifeiliaid a restrir ym mhwyntiau (d), (e) ac (f) o Erthygl 47(1) o Reoliad (UE) 2017/625, yn unol ag Erthyglau 81 ac 82 o'r Rheoliadau hynny.[76]

Dylai Awdurdodau Cymwys:

- sicrhau, pan fo ar gael, fod gwybodaeth sy'n ymwneud â nifer y llwythi bwyd, a'r math o lwythi bwyd, yn cael ei chadw, ynghyd â gwybodaeth berthnasol am y gwiriadau a wnaed i benderfynu a ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol
- cadw'r cofnodion a ganlyn am hyd at dair blynedd:
  - cofnodion o'r gwiriadau samplu
  - cofnodion sy'n ymwneud â rheolaethau brys
  - y ddogfen mynediad iechyd gyffredin (CHED)

---

[73] Erthygl 43 o Reoliad (UE) 2017/625
[74] Erthyglau 49 a 54 o Reoliad (UE) 2017/625
[75] Erthyglau 65 i 72 o Reoliad (UE) 2017/625
[76] Erthygl 79 o Reoliad (UE) 2017/625

- copi gwreiddiol o dystysgrif iechyd pob gwlad nad yw'n rhan o Brydain Fawr neu unrhyw ddogfen y mae'n ofynnol iddi fynd gyda llwyth ac sy'n destun gwirio, er enghraifft, canlyniadau dadansoddiad

- cadw ffurflenni cyflwyno ar gyfer samplau a anfonir i labordai i'w harchwilio/dadansoddi am gyfnod o flwyddyn
- yn ogystal â'r sampl cyfeirio sy'n ofynnol gan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013, roi i'r perchennog, y mewnforiwr, neu asiant y mewnforiwr dderbynneb am yr holl samplau a gymerwyd, neu gofnod ohonynt, a chopi o'r canlyniadau pan geir achos o ddiffyg cydymffurfio

Pan fo'r Safle Rheolaethau'r Ffin wedi ei ddynodi ar gyfer nwyddau penodol risg uwch, dylai Awdurdodau Cymwys hefyd wneud y pethau a ganlyn:

- sicrhau bod ganddynt fynediad i gyfleusterau lle y gellir arolygu bwyd a fewnforiwyd, a'u bod yn gwneud trefniadau i storio nwyddau sy'n cael eu cadw/atafaelu
- cynnal a chadw'r cyfarpar ar gyfer arolygu a samplu bwyd a fewnforiwyd
- cadw manylion am labordai penodedig ac arbenigol ar gyfer dadansoddi a/neu archwilio samplau sy'n gallu darparu gwasanaeth priodol

#### 4.7.2.2 Anifeiliaid a nwyddau ac eithrio'r rheiny sy'n ddarostyngedig i reolaethau swyddogol mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin

Rhaid i Awdurdodau Cymwys:

- cynnal rheolaethau swyddogol yn rheolaidd, ar sail risg, ac yn ôl yr amlder priodol, ar anifeiliaid a nwyddau sy'n dod i Brydain Fawr nad yw Erthygl 47 o Reoliad (UE) 2017/625 yn gymwys iddynt[77]
- sicrhau, pan gynhelir rheolaethau swyddogol sy'n seiliedig ar risg, eu bod:
  - yn cynnwys gwiriad dogfennol bob amser[78]
  - yn cynnwys gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol gan ddibynnu ar y risg i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, lles anifeiliaid neu, o ran organebau a addaswyd yn enetig a chynhyrchion diogelu planhigion, i'r amgylchedd hefyd[79]
- sicrhau eu bod yn cynnal gwiriadau ffisegol o dan amodau priodol gan ganiatáu i ymchwiliadau gael eu cynnal yn briodol[80]
- sicrhau bod rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal mewn man priodol yn y DU, gan gynnwys[81]:
  - y man cyrraedd ym Mhrydain Fawr

---

[77] Erthygl 44(1) o Reoliad (UE) 2017/625
[78] Erthygl 45(1)(a) o Reoliad (UE) 2017/625
[79] Erthygl 45(1)(b) o Reoliad (UE) 2017/625
[80] Erthygl 45(2) o Reoliad (UE) 2017/625
[81] Erthygl 44(3) o Reoliad (UE) 2017/625

- Safle Rheolaethau'r Ffin
- y pwynt rhyddhau cynhyrchion i'w cylchredeg yn rhydd ym Mhrydain Fawr
- warysau a safle'r gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth
- y gyrchfan

- sicrhau, pan fo gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod neu wiriadau ffisegol yn dangos nad yw anifeiliaid a nwyddau yn cydymffurfio â'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625, eu bod yn cymryd camau gorfodi yn unol ag Erthyglau 66 i 69, 71, 72, 137 a 138 o Reoliad (UE) 2017/625[82]
- os oes achos o ddiffyg cydymffurfio'n cael ei amau, ac os ceir achos o ddiffyg cydymffurfio, o ran anifeiliaid a nwyddau sy'n dod i'r DU, cynnal rheolaethau bwyd swyddogol i gadarnhau neu ddileu'r amheuaeth honno, a chymryd camau priodol a gwneud penderfyniadau dilynol yn achos llwythi nad ydynt yn cydymffurfio[83]

Rhaid i Awdurdodau Cymwys hefyd sicrhau bod amlder priodol y rheolaethau swyddogol yn cael ei bennu, gan ystyried[84]:

- y peryglon i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion, lles anifeiliaid neu, o ran organebau a addaswyd yn enetig a chynhyrchion diogelu planhigion, hefyd i'r amgylchedd, sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o anifeiliaid a nwyddau
- unrhyw wybodaeth sy'n dangos ei bod yn debygol y gallai defnyddwyr gael eu camarwain, yn enwedig o ran natur, hunaniaeth, priodweddau, cyfansoddiad, maint, gwydnwch, gwlad neu fan tarddiad, dull cynhyrchu neu weithgynhyrchu nwyddau
- hanes cydymffurfio:
  - y drydedd wlad a'r sefydliad tarddiad neu'r man cynhyrchu, fel y bo'n briodol
  - yr allforiwr
  - y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth
- y rheolaethau sydd eisoes wedi eu cynnal ar yr anifeiliaid a'r nwyddau o dan sylw
- y gwarantau y mae Awdurdodau Cymwys y drydedd wlad tarddiad wedi eu rhoi, o ran cydymffurfiaeth yr anifeiliaid a'r nwyddau â'r gofynion a sefydlwyd gan y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625 neu ofynion y cydnabyddir eu bod o leiaf yn gyfwerth â'r gofynion hynny

[82] Erthygl 45(3) o Reoliad (UE) 2017/625
[83] Erthyglau 65 i 72 o Reoliad (UE) 2017/625
[84] Erthygl 44(2) o Reoliad (UE) 2017/625

Dylai Awdurdodau Cymwys, pan fyddant yn ystyried amlder rheolaethau swyddogol, roi trefniadau a gynlluniwyd ar sail risg ar waith, ac adolygu a dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd, gan gynnwys ystyried:

- nifer y llwythi sy'n cyrraedd y porthladd (yn enwedig os nad yw'r deunydd wedi ei weld o'r blaen neu os nad yw wedi ei weld yn aml)
- unrhyw faterion sy'n ymwneud â dibynadwyedd unrhyw wiriadau a all fod eisoes wedi eu cynnal
- blaenoriaethau samplu'r ASB
- gwybodaeth flaenorol am y cynnyrch

Pan nad oes presenoldeb parhaol gan Awdurdod Cymwys, ac nad yw'n cael ei ystyried yn fan cyrraedd ar gyfer bwyd, dylai Awdurdodau Cymwys gynnal gwiriadau, o leiaf unwaith bob tri mis, ar unrhyw fwyd a fewnforiwyd, i sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau ar sail risg o ran targedu camau gorfodi ac i sicrhau bod rheolaethau neu gyfyngiadau brys ar fwydydd risg uwch penodol yn cael eu gorfodi.

#### 4.7.2.3 Samplau a gymerir o anifeiliaid a nwyddau ac eithrio'r rheiny sy'n destun rheolaethau swyddogol mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin

Pan gymerir samplau o anifeiliaid a nwyddau, rhaid i Awdurdodau Cymwys[85]:

- hysbysu'r gweithredwyr o dan sylw a, phan fo'n briodol, awdurdodau'r tollau
- penderfynu a oes angen cadw'r anifeiliaid neu'r nwyddau hyd nes y ceir canlyniadau'r dadansoddiad, y prawf neu'r diagnosis, neu a ellir eu rhyddhau ar yr amod bod sicrwydd y gellir olrhain yr anifeiliaid neu'r nwyddau

### 4.7.3 Rheolaethau swyddogol ar ddulliau cludo a phecynnu

Rhaid i Awdurdodau Cymwys mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin a mannau cyrraedd eraill ym Mhrydain Fawr gyflawni rheolaethau swyddogol ar y canlynol pa bryd bynnag y bydd ganddynt reswm i gredu y gallai eu mynediad beri risg i iechyd pobl neu blanhigion, lles anifeiliaid, neu o ran organebau a addaswyd yn enetig a chynhyrchion diogelu planhigion, hefyd i'r amgylchedd[86]

- y dull cludo, gan gynnwys pan fo'n wag
- y deunydd pecynnu, gan gynnwys paledi

### 4.7.4 Cyswllt/atgyfeiriadau

Pan fydd Awdurdod Cymwys yn dod i wybod am achos o ddiffyg cydymffurfio y gallai fod iddo oblygiadau i Awdurdod Cymwys arall, rhaid iddo hysbysu'r Awdurdod Cymwys arall hwnnw am yr wybodaeth honno heb oedi gormodol.[87] Bydd hyn yn

[85] Erthygl 46 o Reoliad (UE) 2017/625
[86] Erthygl 44(4) o Reoliad (UE) 2017/625
[87] Erthygl 105(1) o Reoliad (UE) 2017/625

cynnwys Awdurdodau Cymwys mewndirol yn hysbysu'r Awdurdodau Cymwys perthnasol mewn mannau cyrraedd pan fyddant yn nodi problemau â bwyd a fewnforiwyd sy'n debygol o gael eu canfod mewn llwythi eraill a fewnforiwyd.

Rhaid i'r Awdurdod Cymwys sy'n cael hysbysiad o'r fath[88] wneud y pethau a ganlyn:

- cydnabod bod yr hysbysiad wedi dod i law heb oedi gormodol
- pan fo'r Awdurdod Cymwys sy'n hysbysu yn pennu hynny, nodi o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y mae'r hysbysiad yn dod i law pa ymchwiliadau y mae'n bwriadu eu cynnal, neu'r rhesymau pam nad yw'n ystyried bod angen cynnal unrhyw ymchwiliadau
- pan ystyrir bod angen cynnal ymchwiliadau, ymchwilio i'r mater a rhoi gwybod i'r Awdurdod Cymwys sy'n hysbysu heb oedi am y canlyniadau a, phan fo'n briodol, am unrhyw gamau a gymerwyd

Dylid gwneud atgyfeiriadau at Awdurdodau Cymwys mewndirol perthnasol:

- pan fo mannau cyrraedd yn nodi sefyllfaoedd pan fo angen goruchwylio llwythi'n fewndirol a phan fo gwiriadau yn y man cyrraedd yn datgelu pryderon o ran diogelwch bwyd neu safonau bwyd
- pan fo gwybodaeth yn dod i law'r ASB am gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforiwyd yn anghyfreithlon

Dylai Awdurdodau Cymwys sy'n gwneud ac yn cael atgyfeiriadau hefyd gadw cofnodion o'r atgyfeiriadau a manylion unrhyw gamau a gymerwyd.

[88] Erthygl 105(2) o Reoliad (UE) 2017/625

# Pennod 5 Digwyddiadau, rhybuddion, a throseddau bwyd

## 5.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 5 yn ymdrin â’r materion a ganlyn:

- digwyddiadau bwyd, peryglon bwyd a Rhybuddion Bwyd
- sut y disgwylir i Awdurdodau Cymwys ymateb a chysylltu, fel y bo’n briodol, ag Awdurdodau Cymwys eraill, adrannau’r llywodraeth, cyrff dirprwyedig, gweithredwyr busnesau bwyd, yr ASB, asiantaethau perthnasol eraill a gwledydd y tu allan i’r DU
- Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) yr ASB ac adrodd am droseddau bwyd

## 5.2 Digwyddiadau bwyd a pheryglon bwyd

### 5.2.1 Digwyddiadau bwyd

Diffinnir ’digwyddiad bwyd’ gan yr ASB fel unrhyw ddigwyddiad pan fo pryderon, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, am fygythiadau gwirioneddol neu amheus i ddiogelwch, ansawdd neu gyfanrwydd bwyd a allai beri bod angen ymyrryd i ddiogelu buddiannau defnyddwyr. Ystyrir bod ansawdd yn cynnwys safonau, dilysrwydd a chyfansoddiad bwyd.

Mae digwyddiadau bwyd wedi eu rhannu’n ddau gategori a all orgyffwrdd:

- digwyddiadau peryglus yw digwyddiadau sy’n ymwneud (neu yr amheuir eu bod yn ymwneud) â pherygl bwyd, neu gyflwr unrhyw fwyd ac iddo’r potensial i effeithio’n andwyol ar iechyd neu ddiogelwch defnyddwyr (gan gynnwys brigiadau o achosion o glefydau a gludir gan fwyd, clefydau perfeddol heintus, a/neu glefydau milheintiol)
- digwyddiadau nad ydynt yn beryglus yw digwyddiadau nad oes iddynt y potensial i effeithio’n andwyol ar iechyd na diogelwch defnyddwyr a/neu anifeiliaid ond a all effeithio ar y gadwyn cyflenwi bwyd neu fwyd anifeiliaid. Gall y rhain gynnwys materion ansawdd, tarddiad, dilysrwydd, cyfansoddiad, a darparu gwybodaeth am fwyd.

Ym mhob un o’r categorïau hyn, gall fod elfennau o fwriad anonest sy’n awgrymu, felly, fod potensial y gall twyll bwyd/bwyd anifeiliaid fod yn bresennol neu, pan fo’n bresennol ar raddfa ehangach, drosedd bwyd.

### 5.2.2 Peryglon bwyd

Diffinnir ’perygl bwyd’ gan yr ASB fel unrhyw beth sy’n bresennol mewn bwyd sydd â’r potensial i niweidio’r defnyddiwr, naill ai drwy achosi salwch neu anaf; gall fod yn asiant biolegol, cemegol a/neu ffisegol.

Dylai Awdurdodau Cymwys gategoreiddio peryglon bwyd a hysbysu’r ASB pan fo angen, yn ôl y meini prawf a ganlyn:

- **Perygl bwyd lleol** – un lle nad yw'r bwyd yr effeithir arno yn cael ei ddosbarthu y tu hwnt i ffiniau'r Awdurdod Cymwys ac nad yw'n cael ei ystyried yn berygl bwyd lleol difrifol. Dylai'r Awdurdod Cymwys ymdrin â'r peryglon hyn yn lleol, ar y cyd ag asiantaethau perthnasol eraill, ac ni ddylai'r Awdurdod Cymwys roi gwybod i'r ASB amdanynt.
- **Perygl bwyd lleol difrifol** – un lle nad yw'r bwyd yr effeithir arno yn cael ei ddosbarthu y tu hwnt i ffiniau'r Awdurdod Cymwys, ond mae'n ymwneud â'r pethau a ganlyn neu gall ymwneud â nhw:
    - alergenau heb eu datgan, adwaith anaffylacsis difrifol sy'n peri bod angen ymyrraeth feddygol o ganlyniad i alergenau mewn bwyd, derbyniad i'r ysbyty, neu farwolaeth o ganlyniad i alergenau mewn bwyd
    - E. coli O157 neu Escherichia coli arall sy'n cynhyrchu ferocytotocsin (VTEC)
    - Clostridium botulinum
    - Salmonella typhimurium, Salmonella paratyphi, Salmonella enteritidis
    - Listeria monocytogenes
    - peryglon y mae'r Awdurdod Cymwys yn ystyried eu bod yn arwyddocaol oherwydd, er enghraifft, fod Tîm Rheoli Digwyddiadau/Tîm Rheoli Brigiad o Achosion wedi ei sefydlu mewn cysylltiad â'r bwyd, bregusrwydd y boblogaeth y mae'r digwyddiad yn debygol o effeithio arni, y niferoedd o dan sylw, difrifoldeb y salwch (derbyniadau i'r ysbyty) neu unrhyw farwolaethau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad

Dylai'r Awdurdod Cymwys hysbysu Tîm Digwyddiadau'r ASB ac asiantaethau perthnasol eraill am y peryglon hyn cyn gynted â phosibl, yn y modd cyflymaf sydd ar gael, a'u cadarnhau'n ysgrifenedig ar y ffurflen adrodd am ddigwyddiad.

- **Perygl bwyd nad yw'n lleol** – un lle y mae'r bwyd yr effeithir arno yn cael ei ddosbarthu y tu hwnt i ffiniau'r Awdurdod Cymwys. Dylai'r Awdurdod Cymwys hysbysu Tîm Digwyddiadau'r ASB ac asiantaethau perthnasol eraill cyn gynted â phosibl, yn y modd cyflymaf sydd ar gael, a'i gadarnhau'n ysgrifenedig ar y ffurflen adrodd am ddigwyddiad.

Dylai Awdurdodau Cymwys geisio cyngor yr ASB os oes ganddynt unrhyw amheuaeth ynghylch a yw digwyddiad bwyd yn gyfystyr â pherygl bwyd.

## 5.3 Gweithredu gan yr Awdurdod Cymwys

### 5.3.1 Ymatebion i gyswllt cyn digwyddiad gan yr ASB

Os yw swyddogaethau sganio'r gorwel yr ASB yn nodi problem diogelwch bwyd a allai effeithio ar y DU, gall fod angen i'r ASB ddilysu hyn drwy gysylltu â'r gweithredwr busnes bwyd yn uniongyrchol i gadarnhau a oes unrhyw gynnyrch/gynhyrchion neu gynhwysion sy'n gysylltiedig â'r broblem wedi dod i law. Cyn cysylltu â'r busnes, bydd yr ASB yn anfon e-bost at yr Awdurdod Cymwys perthnasol i ofyn a yw'n fodlon bod cyswllt yn cael ei wneud.

### 5.3.2 Digwyddiadau sy’n cynnwys mwy nag un Awdurdod Cymwys

Yn unol â gweithdrefn ddogfenedig/gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod Cymwys ar gyfer digwyddiadau bwyd a Rhybuddion Bwyd, dylai Awdurdodau Cymwys drafod a chytuno ar Awdurdod Cymwys arweiniol i arwain yr ymchwiliad i ddigwyddiadau sy’n peri bod angen i fwy nag un Awdurdod Cymwys ymwneud â hwy.

### 5.3.3 Asesu peryglon bwyd

#### 5.3.3.1 Gofynion cyffredinol

Pan fydd perygl bwyd wedi ei nodi, dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- cynnal asesiad ar unwaith i bennu graddfa, maint a difrifoldeb tebygol y risg i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd o ganlyniad i’r perygl, gan gynnwys asiantaethau eraill yn y gwaith, fel y bo’n briodol
- categoreiddio’r perygl(on) bwyd yn briodol fel perygl(on) bwyd lleol, perygl(on) bwyd lleol difrifol, neu berygl(on) bwyd nad yw (nad ydynt) yn lleol
- os ceir unrhyw amheuaeth, dylid cysylltu â Thîm Digwyddiadau’r ASB i ofyn am gyngor o ran a ddylid hysbysu’r ASB am ddigwyddiad bwyd

Dylai’r asesiad gynnwys y pethau a ganlyn:

- natur y perygl
- pa mor wenwynig yw’r halogydd, pa mor alergenaidd yw cynhwysyn/cyfansoddyn heb ei ddatgan, neu pa mor firwlaidd a phathogenaidd yw’r organeb
- y math o anaf a allai gael ei achosi gan halogydd ffisegol
- y boblogaeth y mae’n debygol o effeithio arni, a pha mor agored i niwed yw’r boblogaeth honno
- cwmpas daearyddol y perygl
- maint a dosbarthiad tebygol y bwyd yr effeithir arno yn y gadwyn fwyd hyd at y pwynt pan gaiff ei fwyta
- gallu a pharodrwydd y cynhyrchwr neu’r dosbarthwr i roi proses effeithiol ar waith i dynnu’r cynnyrch yn ôl
- y gallu i adnabod yn gywir y swp/sypiau neu’r llwyth/llwythi yr effeithir arnynt
- cywirdeb a manylder y cofnodion a ddelir gan y cynhyrchwr neu’r dosbarthwr
- effeithiolrwydd tebygol tynnu’r cynnyrch yn ôl ym mhob cam o’r gadwyn fwyd
- effeithiolrwydd tebygol unrhyw broses i alw cynnyrch yn ôl gan ddefnyddwyr
- y cam(au) lle y mae’r bai yn debygol o fod wedi digwydd (er enghraifft wrth brosesu, pecynnu, trin, storio neu ddosbarthu) a’i arwyddocâd tebygol i’r broblem
- a all y perygl fod wedi effeithio ar gynhyrchion eraill a gynhyrchir yn yr un sefydliad

- a yw'r bwyd yr effeithir arno wedi ei fewnforio
- a yw unrhyw ran o'r bwyd yr effeithiwyd arno wedi ei allforio
- a oes goblygiadau ehangach i eraill yn yr un diwydiant neu i sefydliadau sy'n defnyddio prosesau tebyg mewn diwydiannau bwyd eraill
- y posibilrwydd bod gweithred faleisus neu dwyllodrus wedi achosi'r gŵyn neu'r broblem
- a yw gwraidd y digwyddiad neu'r perygl yn hysbys, ac a oes camau unioni wedi eu cymryd i'w atal rhag digwydd eto.

Pan fydd Awdurdod Cymwys yn dod i wybod am berygl bwyd, dylai gymryd camau i ddiogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd cyn gynted â phosibl, a hysbysu'r ASB drwy Dîm Digwyddiadau'r ASB, ac asiantaethau perthnasol eraill, drwy'r dull cyflymaf sydd ar gael, os yw gweithredwr busnes bwyd yn ei ardal wedi tynnu bwyd yn ôl neu wedi galw bwyd yn ôl o'r farchnad yn unol ag erthygl 19 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 am nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd y Rheoliad hwnnw. Os oes angen, dylai'r Awdurdod Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- cadw neu atafaelu'r bwyd dan sylw os yw wedi ei leoli yn ardal yr Awdurdod Cymwys
- ystyried defnyddio pwerau eraill, fel y bo'n briodol, sy'n berthnasol i'r amgylchiadau o dan sylw
- os ceir perygl bwyd lleol, cyhoeddi negeseuon priodol drwy'r cyfryngau, neu ymateb i ddatganiadau i'r wasg lleol, fel y bo'n briodol, i rybuddio'r cyhoedd am y perygl. Pan fydd yn gwneud hynny, dylai'r pethau a ganlyn ddigwydd:
  - dylid ymgynghori â'r gweithredwyr busnesau bwyd perthnasol cyn trafod manylion adnabod busnes a enwir neu fwyd wedi ei frandio, â'r cyfryngau, neu cyn eu rhyddhau iddynt
  - dylid anfon y datganiadau i'r cyfryngau hynny at Dîm Digwyddiadau'r ASB yn ddi-oed
  - dylai'r Awdurdod Cymwys hysbysu'r ASB ar unwaith os yw'r gweithredwr busnes bwyd yn gwrthwynebu rhyddhau'r wybodaeth honno

Mae'r Awdurdod Cymwys yn parhau i ysgwyddo cyfrifoldeb dros weithredu ar lefel leol, oni bai a hyd nes bod yr ASB yn hysbysu'r Awdurdod Cymwys yn ysgrifenedig fel arall.

### 5.3.4 Dadansoddiad o wraidd y broblem

Pan fo Awdurdodau Cymwys yn dod i wybod bod gweithredwr busnes bwyd wedi galw neu dynnu bwyd yn ôl o'r farchnad yn unol ag Erthygl 19 o Reoliad a gymathwyd (CE) Rhif 178/2002, am nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd y Rheoliad hwnnw, dylent wneud y pethau a ganlyn:

- gofyn i'r gweithredwr busnes bwyd gynnal dadansoddiad o wraidd y broblem i bennu'r rheswm (rhesymau) dros alw neu dynnu'r cynnyrch yn ôl
- nodi camau unioni a fydd yn lliniaru'r risg y gallai'r broblem ddigwydd eto

- pan ganiateir iddynt wneud hynny, anfon canlyniadau asesiad y busnes bwyd at yr ASB i'w dadansoddi ymhellach i sicrhau bod modd nodi camau ataliol hirdymor a rhoi arferion gorau ar waith ar draws y diwydiant bwyd

### 5.3.5 Halogi bwriadol ac ymyrraeth faleisus

Gall bwyd fod wedi ei halogi'n fwriadol. Os bydd digwyddiad o'r fath, dylai Awdurdodau Cymwys ddilyn y trefniadau yn y bennod hon, ac eithrio pan gredir bod yr halogiad bwriadol wedi digwydd o ganlyniad i ymyrraeth faleisus.

Mae'r ASB, Safonau Bwyd yr Alban a heddluoedd ledled y DU wedi sefydlu trefniadau i ymdrin ag achosion o ymyrraeth faleisus ac, os oes angen, bydd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn ymwneud â'r ymchwiliad.

Pan fyddant yn amau achos o ymyrraeth faleisus, dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- cysylltu â Thîm Digwyddiadau'r ASB cyn gynted â phosibl
- trosglwyddo cyfrifoldeb dros ymdrin â digwyddiadau o'r fath i'r heddlu os gofynnir iddynt wneud hynny
- cydweithredu'n llwyr ag ymchwiliadau'r heddlu i ddigwyddiadau o'r fath
- parchu ceisiadau'r heddlu am gyfrinachedd, pryd bynnag y bo modd
- os bydd achlysur yn codi pan fydd yr angen i rybuddio defnyddwyr o fodolaeth perygl bwyd yn drech na'r angen i gynnal cyfrinachedd, hysbysu Tîm Digwyddiadau'r ASB cyn cymryd camau o'r fath

### 5.3.6 Peryglon bwyd sy'n gysylltiedig â brigiad o achosion o salwch a gludir gan fwyd

Os yw perygl bwyd wedi arwain at frigiad o achosion o salwch a gludir gan fwyd, dylai'r Awdurdod Cymwys ystyried, gyda'i Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy a'i Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd (Clefydau Trosglwyddadwy/Iechyd yr Amgylchedd), roi ei Gynllun Rheoli Brigiad ar waith.

Dylid hysbysu Tîm Digwyddiadau'r ASB a'r corff iechyd y cyhoedd perthnasol ar unwaith am ddigwyddiadau nad ydynt yn lleol, digwyddiadau difrifol lleol, neu ddigwyddiadau brys sy'n ymwneud â salwch a gludir gan fwyd.

Dylai Awdurdodau Cymwys drefnu â'u Dadansoddwr Cyhoeddus a'u Harchwiliwr Bwyd i gael gwybod yn brydlon os byddant yn nodi perygl bwyd pan fyddant yn dadansoddi neu'n archwilio sampl bwyd.

### 5.3.7 Digwyddiadau bwyd nad ydynt yn beryglus

Digwyddiadau pan fo'r gyfraith bwyd wedi ei thorri yw digwyddiadau bwyd nad ydynt yn beryglus, ond nid yw'r digwyddiadau hyn yn ymwneud â pheryglon bwyd.

Fel arfer, dylai'r Awdurdod Cymwys a'r gweithredwr busnes bwyd eu datrys drwy gysylltu ag Awdurdodau Cymwys perthnasol eraill, fel y bo'n briodol, ac yn unol â pholisi gorfodi pob Awdurdod Cymwys.

Fodd bynnag, dylid rhoi gwybod i'r ASB ar unwaith am ddigwyddiadau bwyd arwyddocaol, hyd yn oed os nad ydynt yn ymwneud â pheryglon bwyd.

Wrth bennu arwyddocâd digwyddiad bwyd, dylid ystyried y ffactorau a ganlyn:

- achosion o dorri'r gyfraith bwyd
- yr angen i ymateb mewn ffordd gydgysylltiedig
- yr anfantais i ddefnyddwyr
- effaith anghymesur ar sector o'r boblogaeth
- dosbarthiad y cynnyrch y tu hwnt i'r DU
- niwed i enw da Cymru (neu'r DU)
- pryder y cyhoedd
- y tebygolrwydd y bydd o ddiddordeb i'r cyfryngau
- y tebygolrwydd o arferion twyllodrus neu gamarweiniol

Pan fo gan Awdurdod Cymwys amheuaeth ynghylch a oes angen rhoi gwybod i'r ASB am ddigwyddiad bwyd 'nad yw'n beryglus', dylid trafod y mater â Thîm Digwyddiadau'r ASB i gael eglurhad.

#### 5.3.8 Mynediad at wybodaeth

I hwyluso ymchwiliad i salwch a gludir gan fwyd, brigiad o achosion o salwch a gludir gan fwyd, perygl bwyd, neu argyfwng neu ymchwiliad troseddol arall sy'n gysylltiedig â bwyd, dylai Awdurdodau Cymwys ddarparu manylion cofnodion y sefydliad busnes bwyd perthnasol, os gofynnir amdanynt gan:

- Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- yr ASB
- yr awdurdod perthnasol sy'n gyfrifol am ddiogelu iechyd y cyhoedd
- corff arall tebyg sy'n gorfodi neu'n cadw gwyliadwriaeth

### 5.4 Rhybuddion bwyd

#### 5.4.1 Diffiniadau

- **Rhybudd Bwyd – Angen Gweithredu** – drwy'r rhybudd hwn, mae'r ASB yn rhoi gwybod i Awdurdod Cymwys am berygl bwyd neu ddigwyddiad bwyd arall pan fo'n ofynnol i'r Awdurdod Cymwys neu'r ASB (yn rhinwedd ei rôl fel Awdurdod Cymwys) gymryd camau penodol neu roi ymatebion penodol ar waith. Dylid darllen 'Diweddariad Rhybudd Bwyd' a gweithredu ar ei sail. Gall camau a negeseuon tebyg hefyd arwain at gyhoeddi Rhybudd Bwyd – Angen Gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr, busnesau bwyd neu randdeiliaid eraill. Ni fydd y rhybudd i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid eraill a'r rhybudd i Awdurdodau Cymwys o reidrwydd yn cynnwys yr un wybodaeth nac yn gofyn am i'r un camau gael eu cymryd

- **Hysbysiad Gwybodaeth Galw Cynnyrch yn Ôl** – mae'n rhoi gwybod bod bwyd yn cael ei alw yn ôl pan nad oes angen i'r Awdurdod Cymwys gymryd unrhyw gamau penodol. Mae galw'n ôl yn ymwneud â galw bwyd yn ôl oddi wrth y defnyddiwr, pan gaiff ei wneud gan fusnes bwyd
- **Rhybudd Alergedd** – fe'i cyhoeddir gan yr ASB i roi gwybod yn gyflym ac yn uniongyrchol i'r defnyddiwr am risgiau alergenau. Mae Awdurdodau Cymwys yn cael copïau o'r Rhybuddion Alergedd hyn er gwybodaeth yn unig

### 5.4.2 Cyfleusterau i gael Rhybuddion Bwyd a diweddariadau

Dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- sicrhau bod ganddynt gyfleusterau i gael Rhybuddion Bwyd a diweddariadau gan yr ASB drwy system post electronig sy'n dderbyniol i'r ASB
- rhoi gwybod i'r ASB am eu cyfeiriad post electronig ac am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn cyn gynted â phosibl

### 5.4.3 Gweithredu gan Awdurdodau Cymwys pan fydd Rhybuddion Bwyd yn dod i law

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod systemau yn eu lle i sicrhau bod modd ymateb i Rybuddion Bwyd ar unwaith, gan gynnwys y tu allan i oriau gwaith arferol. Mae hyn yn cynnwys cael a darparu gwybodaeth i sicrhau bod modd dyroddi Rhybuddion Bwyd y tu allan i oriau gwaith
- bod unrhyw gamau a bennir gan yr ASB mewn Rhybudd Bwyd – Angen Gweithredu fel rhai sy'n angenrheidiol i leihau risgiau diogelwch bwyd neu i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn cael eu cymryd yn brydlon ac yn unol ag unrhyw gyngor/asesiad rheoli risg a ddarparwyd gan yr ASB
- os ydynt yn bwriadu cymryd camau amgen, eu bod yn cytuno arnynt â'r ASB cyn eu rhoi ar waith
- pan fônt yn rhagweld anawsterau o ran cydymffurfio â chais i weithredu a roddir mewn Rhybudd neu i lunio asesiad risg neu gyngor rheoli risg, dylent gysylltu â Thîm Digwyddiadau'r ASB ar unwaith
- eu bod yn dogfennu eu hymateb i ganlyniad pob Rhybudd Bwyd

### 5.4.4 Cysylltiadau â'r cyfryngau – Rhybuddion Bwyd

Gall yr Awdurdodau Cymwys hynny sydd am roi mwy o gyhoeddusrwydd yn lleol ddefnyddio datganiad i'r wasg/cyfryngau a gyhoeddwyd gan yr ASB fel sail ar gyfer datganiad i'r wasg lleol, pan fo'r ASB yn caniatáu iddynt wneud hynny. Mewn achosion o'r fath, dylai'r Awdurdod Cymwys sicrhau bod y datganiad lleol yn gywir, yn berthnasol, ac yn gyson â datganiad yr ASB.

Os yw Awdurdodau Cymwys yn dymuno arddangos Rhybuddion Bwyd ar eu gwefan, dylent sicrhau:

- bod unrhyw ddeunydd o Rybuddion Bwyd neu ddatganiadau i'r wasg/cyfryngau yr ASB yn cael ei olygu i bennu pa gamau lleol sydd wedi eu cymryd yn sgil y Rhybudd

- bod y wefan yn cynnwys gwybodaeth gyswllt leol

## 5.5 Cyfathrebu a chyswllt rhwng Awdurdodau Cymwys a gwledydd y tu allan i'r DU

### 5.5.1 Hysbysu am faterion trawsffiniol

Yr ASB sy'n ymdrin â materion trawsffiniol y gall fod iddynt oblygiadau polisi, a materion sy'n ymwneud â pheryglon bwyd a digwyddiadau bwyd.

### 5.5.2 Cyswllt a chyfathrebu â gwledydd y tu allan i'r DU

Bydd yr holl gyfathrebu â gwledydd y tu allan i'r DU ynghylch digwyddiadau yn digwydd drwy'r ASB, fel Pwynt Cyswllt Brys y Rhwydwaith Awdurdodau Diogelwch Bwyd Rhyngwladol yn y DU.

Dylai Awdurdodau Cymwys a chanddynt Awdurdod Iechyd Porthladd a/neu Safle Rheolaethau'r Ffin hysbysu Tîm Digwyddiadau'r ASB os ydynt yn nodi digwyddiad a allai beri risg bosibl o ran diogelwch bwyd sy'n ymwneud â chynnyrch (neu gynhyrchion) a fewnforiwyd yn y man cyrraedd.

Dylai Awdurdodau Cymwys mewndirol hysbysu Tîm Digwyddiadau'r ASB os ydynt yn nodi digwyddiad sy'n ymwneud â chynnyrch (neu gynhyrchion) a fewnforiwyd yn eu hardal sy'n peri risg bosibl o ran diogelwch bwyd ac sydd wedi ei ryddhau gan Awdurdod Iechyd Porthladd a/neu Safle Rheolaethau'r Ffin.

Dylid parhau i reoli mewnforion â phroblemau diffyg cydymffurfio nad ydynt yn peri risg bosibl o ran diogelwch ac sydd wedi eu rhyddhau'n fewndirol gan Awdurdod Iechyd Porthladd a/neu Safle Rheolaethau'r Ffin drwy'r busnes sy'n trin y nwyddau a'r mewnforwyr cysylltiedig fel rhan o weithgareddau gorfodi arferol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Dylai Awdurdodau Cymwys hysbysu Tîm Digwyddiadau'r ASB pan fo achosion o ddiffyg cydymffurfio parhaus, achosion o ddiffyg cydymffurfio eang neu achosion o ddiffyg cydymffurfio, er mwyn i'r ASB allu casglu gwybodaeth, bod yn wyliadwrus a darparu gwerthusiad o'r risgiau a allai ddod i'r amlwg gyda golwg ar eu hatal neu lunio polisi.

Dylid anfon cyfathrebiadau yn sgil ymholiadau, ac eithrio digwyddiadau sy'n peri risg bosibl o ran diogelwch bwyd, o wledydd y tu allan i'r DU, i'r ASB.

### 5.5.3 Cyfathrebu â Safonau Bwyd yr Alban

Ceir Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) i sicrhau bod trefniadau cyswllt yn parhau i ddarparu ymateb cydgysylltiedig i ddigwyddiadau ledled Cymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## 5.6 Gwasanaeth y tu allan i oriau arferol

Dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- rhoi gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau y gellir cysylltu â swyddogion cyfrifol mewn argyfwng, er enghraifft, digwyddiadau perygl difrifol

- rhoi gwybod i'r ASB am rif(au) ffôn brys er mwyn iddi allu cysylltu â'r Awdurdod Cymwys y tu allan i'w oriau swyddfa arferol
- sicrhau bod manylion cyswllt y tu allan i oriau/brys (enw(au), rhif(au) ffôn a chyfeiriad(au) e-bost) yn cael eu darparu yn y modd ac ar yr amlder sy'n ofynnol gan yr ASB
- mynd ati i hysbysu'r ASB am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol drwy lwyfan cyfathrebu'r ASB

## 5.7 Rhoi gwybod i NFCU yr ASB am amheuon o ran troseddau bwyd

Mae NFCU yr ASB yn gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu defnyddwyr rhag twyll bwyd/bwyd anifeiliaid difrifol a throseddolrwydd cysylltiedig yn y gadwyn cyflenwi bwyd a bwyd anifeiliaid, ac yn diffinio troseddau bwyd fel twyll difrifol a throseddolrwydd cysylltiedig mewn cadwyni cyflenwi bwyd. Mae'r cylch gwaith hwn hefyd yn cynnwys diodydd a bwyd anifeiliaid.

Dylai Awdurdodau Cymwys rannu ag Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr ASB unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud neu a allai ymwneud ag arferion twyllodrus neu gamarweiniol sy'n effeithio ar ddiogelwch neu ddilysrwydd bwyd.

# Pennod 6 Gorfodi

## 6.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 6 yn ymdrin â'r materion a ganlyn:

- pwerau mynediad
- camau sydd ar gael i Awdurdodau Cymwys eu cymryd pan fyddant yn ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio a amheuir neu a gadarnheir
- dulliau gorfodi i'w defnyddio pan fyddant yn ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio a gadarnheir

## 6.2 Pwerau mynediad

Pan fyddant yn arfer pwerau mynediad, rhaid i swyddogion awdurdodedig ymlynu wrth y gofynion cyfreithiol a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol.[89]

Ynghyd â phwerau i gael mynediad i safleoedd yn ardal yr Awdurdod Cymwys, gall swyddog awdurdodedig fynd i unrhyw safle busnes neu unrhyw safle yn ardaloedd Awdurdodau Cymwys eraill i ganfod a oes tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio yn ardaloedd yr Awdurdodau Cymwys hynny. O dan amgylchiadau o'r fath, dim ond pwerau sy'n gysylltiedig â'u pwerau i gael mynediad y gall swyddogion awdurdodedig eu defnyddio, oni bai eu bod wedi eu hawdurdodi'n briodol i ddefnyddio pwerau penodol eraill, gan yr Awdurdod Cymwys y mae'r safle wedi ei leoli yn ei ardal.

Dylai'r Awdurdod Cymwys sicrhau bod ei swyddogion awdurdodedig:

- yn cysylltu â'r Awdurdodau Cymwys perthnasol ymlaen llaw, ond pan nad yw'n bosibl rhoi rhybudd ymlaen llaw, er enghraifft, mewn argyfwng, dylid hysbysu'r Awdurdodau Cymwys perthnasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol
- ddim yn rhoi cyngor nac yn argymell newidiadau i systemau neu weithdrefnau gweithredwr busnes bwyd. Dylid trosglwyddo materion o'r fath i'r Awdurdod Cymwys ar gyfer yr ardal y mae'r safle wedi ei leoli ynddi er mwyn iddo gymryd camau priodol
- yn hysbysu'r Awdurdodau Cymwys perthnasol am ganlyniad unrhyw ymweliad, fel y bo'n briodol

[89] Adran 32 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliad 14 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliad 18 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2009

## 6.3 Camau gorfodi

### 6.3.1 Diffyg cydymffurfio a amheuir

Pan fo Awdurdodau Cymwys yn amau bod achos o ddiffyg cydymffurfio, rhaid iddynt gynnal ymchwiliad er mwyn cadarnhau neu ddileu'r amheuaeth honno a, phan fo angen, rhaid iddynt wneud y pethau a ganlyn[90]:

- cynnal rheolaethau swyddogol dwys am gyfnod priodol
- cadw bwyd ac unrhyw sylweddau neu gynhyrchion anawdurdodedig, fel y bo'n briodol

### 6.3.2 Diffyg cydymffurfio a gadarnheir

Pan gadarnheir achos o ddiffyg cydymffurfio, rhaid i Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn[91]:

- cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i benderfynu ar darddiad a hyd a lled y diffyg cydymffurfio ac i bennu cyfrifoldebau'r gweithredwr
- cymryd camau priodol i sicrhau bod y gweithredwr busnes bwyd yn unioni'r achos o ddiffyg cydymffurfio ac yn atal achosion pellach o'r diffyg cydymffurfio
- pan fyddant yn penderfynu pa gamau i'w cymryd, ystyried natur y diffyg cydymffurfio a hanes y gweithredwr busnes bwyd o gydymffurfio yn y gorffennol

### 6.3.3 Blaenoriaethu

Rhaid i Awdurdodau Cymwys flaenoriaethu camau gweithredu sy'n dileu neu'n ffrwyno risgiau i[92]:

- iechyd pobl
- iechyd anifeiliaid
- iechyd planhigion
- lles anifeiliaid
- yr amgylchedd (o ran organebau a addaswyd yn enetig a chynhyrchion diogelu planhigion)

### 6.3.4 Hierarchaeth y camau gorfodi

Dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- defnyddio dull gorfodi sy'n seiliedig ar hierarchaeth, gan ddechrau gyda chamau graddol ac addysgiadol a symud at gamau ffurfiol dim ond pan nad yw'n debygol y bydd camau anffurfiol yn cyflawni'r effaith a ddymunir, neu pan

[90] Erthygl 137(2) a 137(3) o Reoliad (UE) 2017/625

[91] Erthygl 138 o Reoliad (UE) 2017/625

[92] Erthygl 137(1) o Reoliad (UE) 2017/625

nad ydynt yn cyflawni'r effaith honno, ac eithrio pan fo amgylchiadau'n dangos bod:

  - risg sylweddol i iechyd
  - arferion twyllodrus
  - arferion dichellgar

- sicrhau bod camau gorfodi'n rhesymol, yn gymesur, yn seiliedig ar risg, ac yn gyson
- gweithredu mewn ffordd sy'n arwain at unioni achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r gyfraith bwyd yn brydlon, fel y bo'n briodol, ac yn gymesur â'r risg
- ystyried yr holl opsiynau gorfodi sydd ar gael iddynt pan fyddant yn penderfynu ar gam(au) gweithredu priodol
- ystyried polisi gorfodi'r Awdurdod Cymwys a, phan fo'n briodol, dogfennu'r cyfiawnhad dros unrhyw wyriad oddi wrtho
- sicrhau, fel y bo'n briodol, fod achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi eu datrys cyn penderfynu nad oes angen cymryd dim camau pellach

#### 6.3.5 Hysbysu am gamau gorfodi

Pan fo angen gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth, rhaid i Awdurdodau Cymwys roi hysbysiad ysgrifenedig i'r gweithredwr busnes bwyd, neu i'w gynrychiolydd, am[93]:

- eu penderfyniad o ran y camau i'w cymryd neu'r mesur i'w roi ar waith
- y rheswm dros y penderfyniad hwnnw
- gwybodaeth am unrhyw hawliau apelio, unrhyw weithdrefn gymwys, a'r terfynau amser mewn cysylltiad â'r hawliau apelio hynny

Dylai'r Awdurdod Cymwys gynnwys gwybodaeth am y pethau a ganlyn:

- beth yw'r achos o ddiffyg cydymffurfio, a gwahaniaethu'n glir rhwng gofynion statudol a gofynion cyfreithiol eraill ac arferion da a argymhellir
- y camau i'w cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth
- yr amserlen ar gyfer cydymffurfio

Dylai Awdurdodau Cymwys hefyd gadw cofnodion dogfenedig y gellir eu hadalw o'r cam(au) a gymerwyd.

## 6.4 Camau gorfodi a chyflwyno hysbysiadau

Rhaid i Awdurdodau Cymwys gymryd camau priodol i sicrhau bod y gweithredwr busnes bwyd yn unioni'r achos o ddiffyg cydymffurfio ac yn atal achosion pellach o ddiffyg cydymffurfio.[94]

---

[93] Erthygl 138(3) o Reoliad (UE) 2017/625
[94] Erthygl 138 o Reoliad (UE) 2017/625

Pan fyddant yn cymryd camau gorfodi, dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod y camau a gymerir yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod Cymwys a'u bod yn cael eu hystyried fel rhan o hierarchaeth y camau gorfodi
- bod y gweithdrefnau perthnasol wedi eu dilyn
- bod tystiolaeth o'r diffyg cydymffurfio wedi ei chael a'i chofnodi
- eu bod yn cynnal parhad tystiolaeth a phrawf bod yr hysbysiad wedi ei gyflwyno

Dylai swyddogion awdurdodedig sicrhau eu bod yn defnyddio'r hysbysiad cywir ar gyfer yr achos o ddiffyg cydymffurfio, a'u bod yn ystyried ac yn dilyn gofynion pob un ohonynt, fel y nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- terfynau amser
- apeliadau
- tynnu camau'n ôl
- defnyddio ffurflenni rhagnodedig
- iawndal
- monitro cydymffurfiaeth
- defnyddio cyfeiriad priodol a'i gyflwyno'n briodol
- sicrhau ei fod wedi ei lofnodi, fel y bo'n briodol, gan y swyddog a arsylwodd ar yr achos o ddiffyg cydymffurfio

### 6.4.1 Gwiriadau dilynol

Dylai gwiriadau dilynol ganolbwyntio ar yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn flaenorol a, pha bryd bynnag y bo'n ymarferol, dylai'r swyddog a gynhaliodd yr ymyriad gwreiddiol eu cynnal.

#### 6.4.1.1 Gwiriadau dilynol – hylendid bwyd

Dylai Awdurdodau Cymwys gynnal gwiriadau dilynol hylendid bwyd mewn sefydliadau busnes bwyd a chanddynt y sgoriau a ganlyn, fel y nodir yn y cynllun sgorio ymyriadau yn atodiad 1 i'r Cod:

- sgôr gydymffurfio o 15 neu ragor ar gyfer hylendid a/neu strwythur
- sgôr hyder yn y rheolwyr/gweithdrefnau rheoli o 20 neu ragor

Dylid pennu'r math o wiriadau dilynol, a'u hamseriad, yn ôl natur a difrifoldeb yr achos(ion) o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd, y risg i iechyd y cyhoedd, y camau unioni y mae'n ofynnol eu cymryd, a natur y camau gorfodi a gymerwyd.

#### 6.4.1.2 Gwiriadau dilynol – safonau bwyd (ymyriadau sy'n flaenoriaeth)

Dylai Awdurdodau Cymwys ystyried a ddylid cynnal gwiriadau dilynol ar gyfer safonau bwyd mewn sefydliadau busnes bwyd yr aseswyd bod angen cynnal

ymyriad sy'n flaenoriaeth ynddynt, gan ystyried natur yr achos(ion) o ddiffyg cydymffurfio a dyddiad y rheolaeth swyddogol ddyledus nesaf. Caiff Awdurdodau Cymwys hefyd ddwyn ymlaen ddyddiad yr ymyriad sy'n flaenoriaeth, gan ddibynnu ar natur a/neu hyd a lled yr achosion o ddiffyg cydymffurfio y cafwyd hyd iddynt.

#### 6.4.1.3 Gwiriadau dilynol – safonau bwyd (ymyriadau eraill)

Dylai Awdurdodau Cymwys gynnal gwiriadau dilynol safonau bwyd mewn sefydliadau busnes bwyd nad ydynt yn destun ymyriad sy'n flaenoriaeth, ond pan fo achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi eu nodi, i sicrhau bod problemau wedi cael sylw ac nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

### 6.4.2 Gwirio cydymffurfiaeth â chamau gorfodi ffurfiol

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod swyddogion awdurdodedig:

- yn rhoi dull cymesur sy'n seiliedig ar risg ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hysbysiadau a gorchmynion
- yn gwirio gwaith unioni cyn gynted â phosibl ar ôl cael eu hysbysu bod y gwaith wedi ei gwblhau, neu ar ôl i hysbysiad ddod i ben
- yn ystyried camau ffurfiol pellach pan na chydymffurfiwyd â hysbysiadau neu orchmynion

# Pennod 7 Materion sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw (pysgod cregyn)

## 7.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 7 yn ymdrin â'r materion a ganlyn:

- cofrestru casglwyr pysgod cregyn
- ardaloedd cynhyrchu ac ailosod
- grwpiau cyswllt pysgod cregyn
- dogfen gofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw, ac eithriadau
- gweithredu ar ôl cymryd sampl rheolaeth swyddogol nad yw'n cydymffurfio
- molysgiaid dwygragennog byw a physgod cregyn eraill sy'n methu â bodloni'r gofynion
- molysgiaid dwygragennog byw a fewnforiwyd

## 7.2 Cofrestru casglwyr pysgod cregyn

Rhaid i Awdurdodau Cymwys lunio rhestr o weithredwyr a'i chadw'n gyfredol.[95]

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod y rhestr o weithredwyr yn cynnwys casglwyr/cynaeafwyr pysgod cregyn sydd wedi eu dosbarthu fel cynhyrchwyr cynradd ac y mae'n ofynnol iddynt fod wedi eu cofrestru fel gweithredwyr busnesau bwyd o dan Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

## 7.3 Ardaloedd cynhyrchu ac ailosod

### 7.3.1 Dosbarthu a monitro ardaloedd cynhyrchu ac ailosod

Cyfrifoldeb yr ASB yw dosbarthu ardaloedd cynhyrchu ac ailosod molysgiaid dwygragennog byw y mae cynaeafu molysgiaid dwygragennog byw ohonynt wedi ei awdurdodi.

Rhaid i Awdurdodau Cymwys ymgymryd â gwaith cyfnodol i fonitro ardaloedd cynhyrchu ac ailosod sydd wedi eu dosbarthu.[96] Dylid gwneud hyn yn unol â chanfyddiadau'r arolwg glanweithdra a'r cynllun samplu i sicrhau bod y statws dosbarthu a ddyfarnwyd gan yr ASB yn cydymffurfio â'r meini prawf dosbarthu.

Rhaid trin molysgiaid dwygragennog byw a gynaeafir o ardaloedd cynhyrchu ac ailosod a ddosbarthwyd yn unol â'r dosbarthiad (A, B neu C) a ddyfarnwyd cyn eu rhoi ar y farchnad.[97]

---

[95] Erthygl 10(2) o Reoliad (UE) 2017/625
[96] Erthygl 59 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627
[97] Erthyglau 52, 53, 54 a 55 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627

Ar gyfer cregyn bylchog (Pectinidae), gastropodau nad ydynt yn bwydo drwy hidlo a *Holothuroidea* a gynaeafwyd o'r tu allan i ardaloedd cynhyrchu a ddosbarthwyd, rhaid i Awdurdodau Cymwys ddilysu cydymffurfiaeth â'r safonau iechyd a'r gofynion penodol.[98]

## 7.4 Trefniadau cyswllt ar gyfer pysgod cregyn

Rhaid i Awdurdodau Cymwys fonitro ardaloedd cynhyrchu ac ailosod o bryd i'w gilydd i wirio nad oes unrhyw gamymddwyn o ran ffynhonnell, tarddiad na chyrchfan molysgiaid.[99] Rhaid i Awdurdodau Cymwys rannu gwybodaeth â phartïon â diddordeb[100] a'u hysbysu ar unwaith am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar ardaloedd cynhyrchu a ddosbarthwyd.[101]

Dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- sefydlu a chynnal grŵp cyswllt pysgod cregyn mewn ardaloedd lle y ceir gweithgareddau pysgod cregyn masnachol
- sicrhau bod y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff perthnasol
- sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn amserol, gan ddefnyddio'r data a gyfrennir i gefnogi penderfyniadau ar fesurau priodol sy'n diogelu iechyd y cyhoedd

## 7.5 Dogfen gofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw, ac eithriadau

### 7.5.1 Dogfennau cofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw

Rhaid i Awdurdodau Cymwys sefydlu system reoli i sicrhau nad yw cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n niweidiol i iechyd pobl yn cael eu rhoi ar y farchnad.[102]

Dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- dyroddi dogfennau cofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw i gasglwyr, gan gynnwys llongau pysgota sy'n cynaeafu molysgiaid dwygragennog byw
- defnyddio rhif unigryw ar y ddogfen a ddyroddir i alluogi'r ddogfennaeth gofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw i gael ei monitro, a rhoi'r rhif unigryw i'r cynaeafwr neu'r casglwr cyn iddo ymgymryd â'r gwaith cynaeafu

---

[98] Erthygl 11 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/624
[99] Erthygl 59(a) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627
[100] Erthygl 66(a) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627
[101] Erthygl 66(b) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627
[102] Erthygl 64 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627

- darparu dogfennau cofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw pan ofynnir amdanynt, a pheidio â gwrthod dyroddi dogfennau i gasglwr yn afresymol
- cadw cofnod o'r holl ddogfennau cofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw sydd wedi eu dyroddi ganddynt am o leiaf 12 mis Dylai'r cofnod gynnwys:
  - y rhif(au) unigryw
  - manylion y cynaeafwyr y maent wedi eu dyroddi iddynt
  - yr ardaloedd cynhyrchu y mae ar y cynaeafwr angen y dogfennau cofrestru ar eu cyfer
- dyroddi dogfennau cofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw i gasglwyr sy'n cynaeafu o fewn ardal Awdurdod Cymwys arall dim ond gyda chytundeb yr Awdurdod Cymwys arall hwnnw
- sicrhau bod pob casglwr molysgiaid dwygragennog byw (gan gynnwys Pectinidae, gastropodau morol nad ydynt yn bwydo drwy hidlo a *Holothuroidea*) yn darparu dogfen gofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw sy'n nodi pob swp y mae'n ei gynaeafu, oni bai bod yr Awdurdod Cymwys yn caniatáu nad oes angen dogfennau cofrestru

### 7.5.2 Eithriad rhag defnyddio dogfennau cofrestru

Os yw'r casglwr molysgiaid dwygragennog byw hefyd yn gweithredu'r ganolfan ddosbarthu, y ganolfan buro, yr ardal ailosod neu'r sefydliad prosesu sy'n cael y molysgiaid dwygragennog byw, a bod pob sefydliad wedi ei leoli o fewn ardal un Awdurdod Cymwys, yna caiff yr Awdurdod Cymwys benderfynu nad oes angen dogfennau cofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw.[103]

Mewn achosion o'r fath, dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod gan weithredwyr busnesau bwyd drefniadau olrhain priodol yn eu lle ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw. Pan fyddant yn ystyried a oes angen dogfennau cofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw ar weithredwr busnes bwyd, dylai Awdurdodau Cymwys:

- nodi a yw'r holl sefydliadau'n cael eu gweithredu gan yr un casglwr
- nodi a yw'r holl sefydliadau a weithredir gan y casglwr wedi eu lleoli o fewn awdurdodaeth yr Awdurdod Cymwys
- ystyried hanes cydymffurfio'r gweithredwr â deddfwriaeth diogelwch bwyd berthnasol
- ystyried sut y mae'r gweithredwr yn rhoi gweithdrefnau rheolaethau rheoli ar waith

[103] Atodiad III, Adran VII, Pennod I, Paragraff 7 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004

Pan nad yw'r Awdurdod Cymwys yn fodlon â chydymffurfiaeth y gweithredwyr â'r ddeddfwriaeth diogelwch bwyd, dylai dynnu yn ôl ei ganiatâd i'r gweithredwr busnes bwyd gael ei eithrio rhag defnyddio dogfennau cofrestru.

#### 7.5.3 Archwilio dogfennau cofrestru

Rhaid i Awdurdodau Cymwys gynnal rheolaethau swyddogol ar bob gweithredwr busnes bwyd yn rheolaidd, ar sail risg ac mor aml ag sy'n briodol.[104]

Gellir cynnal archwiliad o ddogfennau cofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw, cofnodion olrheiniadwyedd a chofnodion eraill a allai fod yn berthnasol i asesu cydymffurfiaeth, ac unrhyw samplu gwirio, fel rhan o reolaeth swyddogol mewn canolfannau dosbarthu, canolfannau puro neu sefydliadau prosesu. Fodd bynnag, caniateir i'r gweithgaredd hwn gael ei gynnal mewn unrhyw gam yn y broses o gyflenwi molysgiaid dwygragennog byw.

Dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- cynnal archwiliadau rheolaidd o ddogfennau cofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw i ddilysu eu cywirdeb
- pan fydd sypiau o folysgiaid dwygragennog byw yn dod i law o'r tu allan i'w hardal, cysylltu â'r Awdurdod Cymwys a'u dyroddodd pan fyddant yn archwilio dogfennau cofrestru ar gyfer symud molysgiaid dwygragennog byw i ddilysu eu dilysrwydd

### 7.6 Gweithredu ar ôl cymryd sampl rheolaeth swyddogol nad yw'n cydymffurfio

Pan fo canlyniadau samplu'n dangos nad yw safonau iechyd molysgiaid dwygragennog byw (E. coli, biotocsinau morol neu halogion cemegol) wedi eu bodloni neu y gallai fod risg fel arall i iechyd pobl, rhaid i'r Awdurdod Cymwys weithredu'n brydlon i gau neu israddio dros dro yr ardal gynhyrchu neu'r ardal ailosod ddosbarthedig o dan sylw105 a rhaid iddo hysbysu partïon â diddordeb ar unwaith.106

#### 7.6.1 Trefniadau cyswllt ar ôl cymryd sampl rheolaeth swyddogol nad yw'n cydymffurfio

Dylai cyswllt â'r ASB gynnwys ystyriaeth o'r pethau a ganlyn:

- a ddylid cymryd unrhyw gamau i dynnu unrhyw folysgiaid dwygragennog byw sydd eisoes wedi eu dosbarthu'n lleol neu'n genedlaethol oddi ar y farchnad
- cymryd samplau ychwanegol i benderfynu pryd y gellir codi'r cyfyngiadau cynaeafu dros dro

---

[104] Erthygl 9(1) o Reoliad (UE) 2017/625

[105] Erthygl 62(1) ac Erthygl 65(1) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627

[106] Erthygl 66(b) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627

Dylid hysbysu Awdurdodau Cymwys ag awdurdodaeth ar y cyd hefyd am unrhyw gamau a gymerwyd, a dylai'r rhain wedyn gyflawni eu cyfrifoldeb hwy drwy hysbysu gweithredwyr busnesau bwyd y mae'r cau neu'r israddio dros dro yn effeithio arnynt yn eu hardal nhw.

Pan fo angen cau ardal gynhyrchu, dylid dyroddi Hysbysiad Cau Ardal Gynhyrchu Dros Dro (Hysbysiad Cau) yn gyflym a'i ddefnyddio fel y modd o hysbysu partïon â diddordeb nad oes dim cynaeafu i ddigwydd yn ystod y cyfnod cau. Dylai Awdurdodau Cymwys fonitro ardaloedd cynaeafu i sicrhau nad oes casglu anghyfreithlon yn digwydd.

## 7.7 Molysgiaid dwygragennog byw a physgod cregyn eraill nad ydynt yn bodloni gofynion

Pan fo Awdurdod Cymwys wedi ardystio nad yw molysgiaid dwygragennog byw na physgod cregyn eraill wedi eu cynhyrchu, eu prosesu neu eu dosbarthu yn unol â'r Rheoliadau Hylendid, rhaid i'r Awdurdod Cymwys drin y molysgiaid dwygragennog byw neu'r pysgod cregyn eraill at ddibenion Adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 fel pe baent yn methu â chydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd.[107] O dan yr amgylchiadau hyn, gall yr Awdurdod Cymwys, pan fo'n briodol, gadw neu atafaelu'r molysgiaid dwygragennog byw neu'r pysgod cregyn eraill.

### 7.8 Molysgiaid dwygragennog byw a fewnforiwyd

Mae angen dyroddi hysbysiad  a chynnal rheolaethau swyddogol cyn mewnforio molysgiaid dwygragennog byw i'w bwyta gan bobl neu eu prosesu. Mae hyn i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w bwyta gan bobl.

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod molysgiaid dwygragennog byw a fewnforiwyd wedi bod yn destun rheolaethau swyddogol mewn Safle Rheolaethau'r Ffin[108]
- bod Dogfen Mynediad Iechyd Gyffredin ac ardystiad iechyd priodol yn mynd gyda llwythi o folysgiaid dwygragennog byw i'w bwyta gan bobl neu eu prosesu

[107] Rheoliad 27 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

[108] Oherwydd y trefniadau trosiannol cyfredol, nid oes unrhyw Safleoedd Rheolaethau'r Ffin yng Nghymru.

## Rhestr termau

### Anifeiliaid

Mae iddo'r ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(9) o Reoliad (UE) 2017/625 pan gaiff ei ddarllen ochr yn ochr ag Erthygl 4(1) o Reoliad (UE) 2016/429, sef anifeiliaid asgwrn-cefn ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn.

### Sefydliad cymeradwy

Sefydliad sydd wedi ei gymeradwyo yn unol ag Erthygl 4 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 ar gyfer trin, paratoi a/neu gynhyrchu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.

### Archwiliad

Mae iddo'r ystyr fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(30) o Reoliad (UE) 2017/625, sef archwiliad systematig ac annibynnol i benderfynu a yw gweithgareddau a chanlyniadau cysylltiedig yn cydymffurfio â threfniadau a gynlluniwyd ac a yw'r trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, gan y gweithredwr busnes bwyd, ac a ydynt yn addas i gyflawni amcanion.

Mae hyn yn cynnwys archwiliadau rhannol neu archwiliadau llawn a gynlluniwyd:

- mae 'archwiliad llawn' yn archwiliad o'r trefniadau a gynlluniwyd ac a ydynt yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, ac mae'n ystyried pob agwedd ar weithrediadau gweithredwr busnes bwyd
- mae 'archwiliad rhannol' yn archwiliad sy'n ymdrin ag agweddau penodol ar weithrediad gweithredwr busnes bwyd yn unig

### Anifeiliaid dyfrol

Mae iddo'r ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 4(3) o Reoliad 2016/429, sef anifeiliaid o'r rhywogaethau a ganlyn, ym mhob cyfnod o'u bywyd, gan gynnwys wyau, sberm a gametau:

- pysgod sy'n perthyn i'r uwchddosbarth *Agnatha* ac i'r dosbarthiadau *Chondrichthyes*, *Sarcopterygii* ac *Actinopterygii*
- molysgiaid dyfrol sy'n perthyn i'r ffylwm *Mollusca*
- cramenogion dyfrol sy'n perthyn i'r isffylwm *Crustacea*

### Swyddog awdurdodedig

Ei ystyr yw person (p'un a yw'n un o swyddogion yr awdurdod gorfodi ai peidio) sydd wedi ei awdurdodi gan yr Awdurdod Cymwys, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, i weithredu mewn perthynas â materion sy'n codi o dan gyfraith bwyd.

**Safle Rheolaethau'r Ffin** Mae iddo'r ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(38) o Reoliad (UE) 2017/625, sef lle, a'r cyfleusterau sy'n perthyn iddo, a ddynodwyd ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 47(1) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Yn cydymffurfio i raddau helaeth (Hylendid bwyd)**

Sefydliad â sgôr ymyrryd o ddim mwy na deg pwynt o dan bob un o'r rhannau a ganlyn o Atodiad 1: System sgorio hylendid bwyd Rhan 2: Lefel Gydymffurfiaeth (Gyfredol) – Hylendid a Lefel Gydymffurfiaeth (Gyfredol) – Strwythur; a Rhan 3: Hyder mewn Rheolwyr.

**Yn cydymffurfio i raddau helaeth (Safonau bwyd)**

Sefydliad â sgôr ymyrryd o 3, 4 neu 5 ar gyfer pob un o'r pedwar ffactor risg Asesu Cydymffurfiaeth a nodir yn Adran A1.2 o Atodiad 1. Wrth ddilyn Atodiad 2, sefydliad â sgôr ymyrryd o ddim mwy na deg pwynt o dan bob un o'r rhannau a ganlyn o'r system sgorio Safonau Bwyd yn adran A2.1, Rhan 2: Lefel Gydymffurfiaeth (Gyfredol); a Rhan 3, Hyder mewn Rheolwyr/Systemau Rheoli.

**Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH)**

Corff aelodaeth a dyfarnu ar gyfer sector iechyd yr amgylchedd.

**Y Sefydliad Siartredig Safonau Masnach (CTSI)**

Corff aelodaeth a dyfarnu sy'n cynrychioli gweithwyr Safonau Masnach proffesiynol sy'n gweithio yn y DU a thramor – mewn awdurdodau lleol, yn y sector busnes a'r sector defnyddwyr, ac yn y llywodraeth ganolog.

**Dogfen Mynediad Iechyd Gyffredin (CHED)**

Defnyddir y Ddogfen Mynediad Iechyd Gyffredin ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid sy'n ddarostyngedig pan fyddant yn dod i'r DU i unrhyw un neu ragor o'r mesurau neu'r amodau y darperir ar eu cyfer ym mhwyntiau (d), (e), neu (f) o Erthygl 47(1) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Awdurdod Cymwys**

Mae iddo'r ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(3) o Reoliad (UE) 2017/625, sef yr Awdurdod Cymwys sy'n gyfrifol am gynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill, yn unol â'r Rheoliad hwnnw a'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2).

**Yn cydymffurfio**

Yn cydymffurfio â gofynion y gyfraith.

**Cymeradwyaeth amodol**

Cymeradwyaeth a roddir gan Awdurdod Cymwys yn unol ag Erthygl 148(4) o Reoliad (UE) 2017/625 os yw'n ymddangos i Awdurdod Cymwys fod sefydliad yn bodloni'r holl ofynion o ran seilwaith ac offer. Ni chaniateir i gymeradwyaeth amodol bara mwy na chyfanswm o chwe mis, ac eithrio yn achos llongau ffatri a llongau rhewi na chaniateir i'w cymeradwyaeth amodol bara mwy na 12 mis.

**Hyder mewn Rheolwyr**

Y sgôr Hyder mewn Rheolwyr yw rhan 3 o'r system sgorio hylendid bwyd ac mae'n un o'r ffactorau risg a ystyrir o dan yr Asesiad Cydymffurfiaeth ar gyfer safonau bwyd y manylir arno yn Atodiad 1. Wrth ddilyn Atodiad 2 ar gyfer safonau bwyd, mae'r sgôr Hyder mewn Rheolwyr yn Rhan 3 o'r system sgorio Safonau Bwyd yn adran A2.1 o Atodiad 2. Mae'r Awdurdod Cymwys yn asesu gweithdrefnau rheoli/rheolaeth diogelwch bwyd y busnes gan ddefnyddio eu barn o ran y tebygolrwydd y bydd yn parhau i gydymffurfio'n foddhaol yn y dyfodol. Ymhlith y ffactorau sy'n dylanwadu ar farn yr Awdurdod Cymwys mae: hanes blaenorol y gweithredwr busnes bwyd o gydymffurfio; gwybodaeth am ddiogelwch a safonau bwyd; agwedd tuag at safonau bwyd a chydymffurfio â gofynion hylendid; a gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol.

**Llwyth**

Mae iddo'r ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(37) o Reoliad (UE) 2017/625, sef nifer o anifeiliaid neu swm o nwyddau a gwmpesir gan yr un dystysgrif swyddogol, ardystiad swyddogol, neu unrhyw ddogfen arall, a gludir drwy'r un dull cludo ac sy'n dod o'r un diriogaeth neu wlad y tu allan i'r DU, ac, ac eithrio nwyddau sy'n ddarostyngedig i'r rheolau y cyfeirir atynt ym mhwynt (g) o Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625, sydd o'r un math, dosbarth neu ddisgrifiad.

**Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy**

Rôl uwch yn y tîm diogelu iechyd sy'n arwain, yn rheoli ac yn goruchwylio'r swyddogaeth diogelu iechyd, gan gynnwys yr ymateb i ddigwyddiadau a brigiadau o achosion.

**Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd**

Rôl Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd os ceir brigiad o achosion o wenwyn bwyd yw penderfynu a oes yna frigiad o achosion mewn gwirionedd, a chychwyn a chydgysylltu unrhyw gamau y mae'n angenrheidiol eu cymryd, gan gynnwys defnyddio'r cynllun lleol i reoli brigiad o achosion. Mae hefyd yn cynghori'r person sy'n gyfrifol am unrhyw gamau y mae angen eu cymryd ar unwaith i reoli'r brigiad o achosion.

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)**

Sut y mae aelodau o broffesiwn yn cynnal, gwella neu ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau ac yn datblygu'r rhinweddau sydd eu hangen arnynt yn eu bywydau proffesiynol.

**Gweithdrefnau dilysu rheolaethau**

Gweithdrefnau monitro mewnol yw'r enw mwy cyffredin ar y gweithdrefnau hyn, ac mae iddynt yr ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(6) o Reoliad (UE) 2017/625, sef y trefniadau a roddir yn eu lle a'r camau a gymerir gan yr Awdurdodau Cymwys at ddiben sicrhau bod rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn gyson ac yn effeithiol.

**Gallai**

Fe’i defnyddir yn gyffredinol i nodi’r darpariaethau hynny yr ystyrir eu bod yn arferion gorau.

**Corff dirprwyedig**

Mae iddo’r ystyr fel y’i diffinnir yn erthygl 3(5) o Reoliad (UE) 2017/625, sef person cyfreithiol ar wahân y mae’r Awdurdodau Cymwys wedi dirprwyo iddo dasgau rheolaethau swyddogol penodol neu dasgau penodol sy’n ymwneud â gweithgareddau swyddogol eraill.

**Gwiriad dogfennol**

Mae iddo’r ystyr fel y’i diffinnir yn Erthygl 3(41) o Reoliad (UE) 2017/625, sef archwilio’r tystysgrifau swyddogol, yr ardystiadau swyddogol a’r dogfennau eraill, gan gynnwys dogfennau sy’n fasnachol eu natur, y mae’n ofynnol iddynt fynd gyda’r llwyth fel y darperir ar ei gyfer gan y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2), gan Erthygl 56(1) neu gan ddeddfau gweithredu a fabwysiedir yn unol ag Erthyglau 77(3), 126(3), 128(1) a 129(1).

**Bwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd**

Corff dyfarnu yn y DU a oedd yn dyroddi dystysgrifau cofrestru i’r rhai a oedd wedi cwblhau cwrs astudio cymeradwy ym maes iechyd yr amgylchedd yn llwyddiannus a oedd yn cynnwys cwrs achrededig, dysgu seiliedig ar waith ac arholiadau proffesiynol.

**Escherichia coli O157 (E.coli O157)**

Straen E.coli sy’n cynhyrchu ferocytotocsin (VTEC) a all achosi salwch mewn pobl. Gall symptomau amrywio o gastroenteritis ysgafn i ddolur rhydd gwaedlyd difrifol, a niwed i’r arennau.

**Sefydliad**

Mae iddo’r ystyr fel y’i diffinnir gan Erthygl 2(1)(c) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, sef unrhyw uned o fusnes bwyd.

**Tystiolaeth**

Gwybodaeth neu eitemau sy’n darparu prawf o honiad.

**Allforio**

Y weithred o anfon neu gludo nwyddau y tu allan i diriogaeth berthnasol.

**Rhybudd Bwyd**

Cyfathrebiad gan yr ASB i Awdurdod Cymwys ynghylch perygl bwyd neu ddigwyddiad bwyd arall, pan fo’n ofynnol i’r Awdurdod Cymwys ymgymryd â chamau gweithredu/ymatebion penodol. Dylid darllen ‘Diweddariad ar Rybudd Bwyd’ yn unol â hynny.

**Busnes bwyd**

Fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(2) Rheoliad (EC) Rhif 178/2002, mae'n golygu cynnal gwaith, boed er elw neu beidio neu p'un a yw'n gyhoeddus neu'n breifat, sy'n cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd.

**Gweithredwr busnes bwyd**

Fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(3) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002, mae'n golygu'r personau naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfraith bwyd yn cael eu bodloni o fewn y busnes bwyd dan eu rheolaeth.

Mae **person naturiol** yn fod dynol, yn hytrach na pherson artiffisial neu gyfreithiol.

Mae gan **berson cyfreithiol** enw cyfreithiol ac mae ganddo hawliau, amddiffyniadau, breintiau, cyfrifoldebau, a rhwymedigaethau o dan y gyfraith, yn union fel personau naturiol (pobl). Mae personoliaeth gyfreithiol yn caniatáu i un neu ragor o bersonau naturiol weithredu fel endid sengl (fel cwmni cyfyngedig a ystyrir o dan y gyfraith ar wahân i'w aelodau neu ei gyfranddalwyr) at ddibenion cyfreithiol.

**Sefydliad busnes bwyd**

Mae Erthygl 2(1)(c) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 yn diffinio 'sefydliad' fel unrhyw uned o fusnes bwyd.

Ystyr 'busnes bwyd' fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(2) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 yw unrhyw ymgymeriad, boed er elw ai peidio a boed yn gyhoeddus neu'n breifat, sy'n cynnal unrhyw un neu ragor o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd.

Gall sefydliad busnes bwyd gynnwys unedau lle na chaiff bwyd ei drin, ond lle y gwneir penderfyniadau ar agweddau perthnasol ar y busnes bwyd, fel symud/cludo a/neu labelu'r bwyd.

**Troseddau bwyd**

Twyll difrifol a throseddoldeb cysylltiedig o fewn cadwyni cyflenwi bwyd (mae hyn hefyd yn cynnwys diodydd a bwyd anifeiliaid).

**Archwiliwr bwyd**

Unrhyw berson sy'n meddu ar y cymwysterau gofynnol i gynnal archwiliadau.

**Perygl bwyd**

Sylwedd biolegol, cemegol neu ffisegol mewn bwyd a all effeithio'n andwyol ar iechyd y cyhoedd.

**Hylendid bwyd**

Y mesurau a'r amodau sy'n angenrheidiol i reoli peryglon ac i sicrhau bod bwyd yn addas i'w fwyta gan bobl, gan ystyried defnydd arfaethedig y bwyd fel y nodir yn Rheoliad (CE) Rhif 852/2004.

**Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)**

Adran annibynnol, anweinidogol sy'n gweithio ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gyda'r nod o ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau sy'n deillio o fwyta bwyd a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

**Safonau Bwyd yr Alban (FSS)**

Corff cyhoeddus yr Alban ar gyfer bwyd. Ei amcanion yw: diogelu'r cyhoedd rhag risgiau i iechyd a all godi mewn cysylltiad â bwyta bwyd; gwella'r graddau y mae gan aelodau'r cyhoedd ddeiet sy'n ffafriol i iechyd da; a diogelu buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

**Camau ffurfiol**

Cymryd camau yn erbyn gweithredwr busnes bwyd fel y nodir yn y ddeddfwriaeth, gan gynnwys cyflwyno hysbysiad statudol i unioni achos o ddiffyg cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, a chychwyn achos cyfreithiol am dorri gofynion cyfreithiol.

**Cymeradwyaeth lawn**

Cymeradwyaeth a roddir gan Awdurdod Cymwys yn unol ag Erthygl 148(3) neu Erthygl 148(4) o Reoliad (UE) 2017/625 os yw'n ymddangos i Awdurdod Cymwys fod sefydliad yn bodloni holl ofynion perthnasol y gyfraith bwyd.

**Nwyddau**

Mae iddo'r un ystyr â'r diffiniad o 'goods' yn Erthygl 3(11) o Reoliad (UE) 2017/625, sef: 'goods means all that is subject to one or more of the rules referred to in article 1(2), excluding animals'

Mae Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625 yn nodi: 'This Regulation shall apply to the official controls performed for the verification of compliance with the rules in the areas of:

a) food and food safety, integrity and wholesomeness at any stage of production, processing and distribution of food, including rules aimed at ensuring fair practices in trade and protecting consumer interests and information, and the manufacture and use of materials and articles intended to come into contact with food
b) deliberate release into the environment of Genetically Modified Organisms (GMOs) for the purpose of food and feed production
c) feed and feed safety at any stage of production, processing and distribution of feed and the use of feed, including rules aimed at ensuring fair practices in trade and protecting consumer health, interests and information
d) animal health requirements
e) prevention and minimisation of risks to human and animal health arising from animal by-products and derived products
f) welfare requirements for animal
g) protective measures against pests of plants
h) requirements for the placing on the market and use of plant protection products and the sustainable use of pesticides, with the exception of pesticides application equipment

i) organic production and labelling of organic products
j) use and labelling of protected designations of origin, protected geographical indications and traditional specialities guaranteed'

**Nwyddau sy'n ddarostyngedig i fesur brys**

Mae iddo'r ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 47(1)(e) o Reoliad (UE) 2017/625, sef anifeiliaid a nwyddau sy'n ddarostyngedig i fesurau y darperir ar eu cyfer mewn deddfau a fabwysiedir yn unol ag Erthygl 53 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002, Erthygl 249 o Reoliad (UE) 2016/429, neu Erthyglau 28(1), 30(1), 40(3), 41(3), 49(1), 53(3) a 54(3) o Reoliad (UE) 2016/2031 sy'n ei gwneud yn ofynnol i lwythi o'r anifeiliaid neu'r nwyddau hynny fod yn ddarostyngedig i reolaethau swyddogol yn y man lle y maent yn dod i Brydain Fawr.

**Perygl**

Mae iddo'r ystyr fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(14) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002, sef sylwedd biolegol, cemegol neu ffisegol mewn bwyd neu fwyd anifeiliaid, neu gyflwr bwyd neu fwyd anifeiliaid a allai effeithio'n andwyol ar iechyd.

**Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP)**

Mae HACCP yn ddull ataliol systematig o ddiogelu bwyd a bwyd anifeiliaid rhag peryglon biolegol, cemegol a ffisegol mewn prosesau cynhyrchu a all beri i'r cynnyrch gorffenedig fod yn anniogel, ac mae'n dylunio mesuriadau i leihau'r risgiau hyn i lefel ddiogel.

**Deunyddiau risg uchel a ddaw i gysylltiad â bwyd**

Mae iddo'r un ystyr â'r diffiniad o 'cynnyrch perthnasol' yn Rheoliad 2(1) o Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011, sef llestri cegin plastig sy'n tarddu o Weriniaeth Pobl Tsieina a Rhanbarth Gweinyddol Arbennig Hong Kong, Tsieina.

**Bwyd risg uchel nad yw'n dod o anifeiliaid**

Mae iddo ystyr tebyg i'r disgrifiad o'r categori yn Erthygl 47(1)(d) o Reoliad (UE) 2017/625, sef nwyddau o drydydd gwledydd penodol y mae angen mesur sy'n ei gwneud yn ofynnol cynyddu rheolaethau swyddogol dros dro pan fyddant yn dod i Brydain Fawr oherwydd risg hysbys neu risg sy'n dod i'r amlwg neu am fod tystiolaeth y gallai achosion helaeth o ddiffyg cydymffurfio difrifol fod yn digwydd.

**Awdurdod Cartref**

Ei ystyr yw'r awdurdod lle y mae canolfan benderfynu berthnasol busnes wedi ei lleoli.

**Hylendid**

Y mesurau a'r amodau sy'n angenrheidiol i reoli peryglon ac i sicrhau bod bwyd yn addas i'w fwyta gan bobl o ystyried ei ddefnydd arfaethedig.

**Hysbysiad Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid**

Hysbysiad a gyflwynir gan y swyddog awdurdodedig pan fo risg uniongyrchol o niwed i iechyd sy'n gwahardd defnyddio proses, triniaeth, safle neu offer, fel y bo'n briodol, fel y pennir yn Rheoliad 8 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

**Rheoliadau Hylendid**

Fel y'u diffinnir gan Reoliad 2 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

**Gwiriad adnabod**

Mae iddo'r ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(42) o Reoliad (UE) 2017/625, sef archwiliad gweledol i ddilysu bod cynnwys llwyth a'r modd y mae wedi ei labelu, gan gynnwys y marciau ar anifeiliaid, y seliau a'r dull cludo, yn cyfateb i'r wybodaeth a ddarparwyd yn y tystysgrifau swyddogol, yr ardystiadau swyddogol a'r dogfennau eraill sy'n mynd gyda'r llwyth.

**Mewnforio**

Y weithred o ddod â nwyddau a/neu wasanaethau i mewn o wlad arall y tu allan i Brydain Fawr.

**Camau anffurfiol**

Dwyn sylw gweithredwr busnes bwyd at achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r gyfraith diogelwch bwyd, a rhoi cyngor yn eu cylch, er mwyn i unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio allu cael eu hunioni'n gyflym.

**Arolygiad**

Ei ystyr yw archwilio unrhyw agwedd ar fwyd, bwyd anifeiliaid, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid er mwyn gwirio bod yr agwedd honno neu'r agweddau hynny'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol y gyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd a'r rheolau iechyd a lles anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys arolygiadau rhannol neu lawn:

- mae 'arolygiad llawn' yn gwirio cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol ac mae'n ystyried pob agwedd ar weithrediadau gweithredwr busnes bwyd
- mae 'arolygiad rhannol' yn arolygiad sy'n cwmpasu rhai agweddau ar weithrediadau gweithredwr busnes bwyd yn unig

**Y Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd (IFST)**

Corff proffesiynol sy'n ymwneud â phob agwedd ar wyddor a thechnoleg bwyd.

**Deallusrwydd**

Gwybodaeth sydd wedi ei gwerthuso i asesu ei pherthnasedd a'i dibynadwyedd ac wedi ei dilysu pan fo'n bosibl.

**Ymyriad**

Camau rheoleiddiol a gymerir gan lywodraeth er mwyn effeithio ar neu ymyrryd â phenderfyniadau a wneir gan unigolion, grwpiau neu sefydliadau ynghylch materion

cymdeithasol ac economaidd. Mae ymyriadau'n cynnwys rheolaethau swyddogol ac ymyriadau eraill fel addysg, cyngor a hyfforddiant, a chasglu gwybodaeth (gan gynnwys samplu lle nad yw'r dadansoddiad i'w gynnal gan Labordy Swyddogol).

**Ymchwiliad**

Y camau a gymerir gan yr Awdurdod Cymwys i gasglu tystiolaeth lle mae amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio.

**Swyddog Bwyd Arweiniol**

Y swyddog(ion) bwyd arweiniol awdurdodedig, a benodir gan yr Awdurdod Cymwys mewn perthynas â bwyd, sy'n arddangos y cymwyseddau perthnasol.

**Molysgiaid dwygragennog byw**

Mae cyfeiriadau at folysgiaid dwygragennog byw hefyd yn cynnwys ecinodermiaid byw, tiwnigogion byw a gastropodau morol byw, yn unol ag Atodiad I, Paragraff 2 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid (Rheoliad (CE) Rhif 853/2004), ac eithrio rhannau o'r Cod sy'n ymdrin â phuro molysgiaid dwygragennog byw.

**Awdurdod lleol**

Mae iddo'r un ystyr â'r diffiniad o "local authority" yn adran 270 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sef cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol, neu gyngor cymuned.

**Ymyrraeth faleisus**

At ddibenion y Cod, ei ystyr yw halogi bwyd yn fwriadol drwy weithgarwch terfysgol, neu gyda golwg ar flacmel neu gribddeiliaeth.

**Caiff / Gallai (May)**

Ar ei ben ei hun, mae'n dynodi arfer dewisol o bŵer neu swyddogaeth.

**Ni chaiff / Ni chaniateir / Efallai na fydd (May not)**

Mae'n dynodi gwaharddiad.

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**

Cytundeb ysgrifenedig ar gyfnewid gwybodaeth rhwng dau neu ragor o bartïon.

**Monitro**

Ei ystyr yw cyflawni cyfres o arsylwadau neu fesuriadau a gynlluniwyd gyda golwg ar gael trosolwg ar hyd a lled y gydymffurfiaeth â'r gyfraith bwyd.

**Monitro'r gwasanaeth a ddarperir**

Mae hyn yn cynnwys monitro rheolaethau swyddogol, camau dilynol a chamau gorfodi, a systemau gwybodaeth reoli.

**Rhaid**

Fe'i defnyddir i gadarnhau rhwymedigaeth gyfreithiol.

**Yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd**

Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn rhoi ffocws ledled y wlad ar orfodi yn erbyn twyll difrifol a throseddoldeb cysylltiedig mewn cadwyni cyflenwi bwyd a bwyd anifeiliaid.

**Diffyg cydymffurfio**

Methu â chydymffurfio ag un neu ragor o ofynion y gyfraith bwyd.

**Rheolaeth answyddogol**

Unrhyw weithgaredd, nad yw'n rheolaeth swyddogol, neu weithgaredd swyddogol arall a gyflawnir gan yr Awdurdod Cymwys, nad yw'n gwirio cydymffurfiaeth. Bwriad y gweithgaredd yw cynnal cysylltiad â sefydliad busnes bwyd.

**Gwlad nad yw yn y DU**

Gwlad sydd y tu allan i'r DU.

**Ardystiad swyddogol**

Mae iddo'r ystyr fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(28) o Reoliad (UE) 2017/625, sef unrhyw label, nod neu fath arall o ardystiad a ddyroddir gan y gweithredwyr o dan oruchwyliaeth, drwy reolaethau swyddogol pwrpasol, yr Awdurdodau Cymwys neu gan yr Awdurdodau Cymwys eu hunain, ac sy'n darparu sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth ag un neu ragor o'r gofynion a nodir yn y Rheoliad hwn neu yn y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Tystysgrif swyddogol**

Mae iddo'r ystyr fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(27) o Reoliad (UE) 2017/625, sef dogfen bapur neu ddogfen electronig wedi ei llofnodi gan y swyddog ardystio ac sy'n rhoi sicrwydd o ran cydymffurfiaeth ag un neu ragor o'r gofynion a nodir yn y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Dulliau a thechnegau o gynnal rheolaethau swyddogol**

Y dulliau a'r technegau rheolaeth hynny a ddisgrifir yn erthygl 14 o Reoliad (UE) 2017/625.

**Rheolaeth swyddogol**

Mae iddo'r ystyr fel y'i diffinnir gan Erthygl 2(1) o Reoliad (UE) 2017/625, sef gweithgareddau a gyflawnir gan yr Awdurdodau Cymwys, neu gan y cyrff dirprwyedig neu'r personau naturiol y mae tasgau rheolaethau swyddogol penodol wedi eu dirprwyo iddynt yn unol â Rheoliad (UE) 2017/625 er mwyn gwirio cydymffurfiaeth gan y gweithredwyr a gwirio bod anifeiliaid neu nwyddau'n bodloni'r gofynion a nodir yn y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625, gan gynnwys ar gyfer dyroddi tystysgrif swyddogol neu ardystiad swyddogol.

**Arolygydd Pysgod Swyddogol**

Ystyr y dehongliad o’r diffiniad a ddarperir gan Reoliad 12(4) o Reoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 yw Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd sydd wedi cael hyfforddiant addas neu bersonau eraill sydd wedi cael hyfforddiant priodol i gynnal rheolaethau swyddogol neu dasgau penodol sy’n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol eraill mewn Safleoedd Rheolaethau’r Ffin ar gynhyrchion pysgodfeydd a fewnforiwyd, infertebratau dyfrol, molysgiaid dwygragennog byw, echinodermau byw, tiwnigogion byw a gastropodau morol byw y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl. Mae gan unrhyw arolygydd pysgod swyddogol o’r fath holl bwerau milfeddyg swyddogol mewn perthynas â’r cynhyrchion hynny.

**Labordy swyddogol**

Labordy sydd wedi ei achredu at ddibenion dadansoddi, ac sy’n ymddangos ar y rhestr o labordai rheolaethau swyddogol.

**Milfeddyg Swyddogol**

Mae Erthygl 3(32) o Reoliad (UE) 2017/625 yn datgan y gall Awdurdod Cymwys benodi milfeddyg, naill ai fel aelod staff neu fel arall, sy’n meddu ar gymwysterau priodol i gynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn unol â’r Rheoliad hwn a’r rheolau perthnasol y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Gweithgareddau swyddogol eraill**

Gweithgareddau, heblaw rheolaethau swyddogol, a gyflawnir gan yr Awdurdodau Cymwys, neu gan y cyrff dirprwyedig neu’r personau naturiol y mae gweithgareddau swyddogol penodol eraill wedi eu dirprwyo iddynt yn unol â Rheoliad (UE) 2017/625. Mae’r rhain yn cynnwys gweithgareddau sydd â’r nod o wirio presenoldeb afiechydon anifeiliaid neu blâu planhigion, atal neu ddal lledaeniad afiechydon anifeiliaid neu blâu planhigion o’r fath, cael gwared ar yr afiechydon anifeiliaid neu blâu planhigion, rhoi awdurdodiadau neu gymeradwyaethau, a chyhoeddi tystysgrifau swyddogol neu ardystiadau swyddogol.

**Brigiad o achosion**

Digwyddiad lle mae dau neu fwy o bobl sy’n profi salwch tebyg sy’n gysylltiedig o ran amser neu leoliad, fel arfer clefyd a gludir gan fwyd a/neu glefyd perfeddol heintus.

**Gwiriad ffisegol**

Mae iddo’r ystyr a ddiffinnir yn Erthygl 3(43) o Reoliad (UE) 2017/625, sef gwiriad ar anifeiliaid neu nwyddau ac, fel y bo’n briodol, wiriadau ar ddeunydd pecynnu, dulliau cludo, labelu a thymheredd, samplu at ddibenion dadansoddi, profi neu roi diagnosis, ac unrhyw wiriad arall sy’n angenrheidiol i wirio cydymffurfiaeth â’r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Awdurdod Iechyd Porthladd**

Mae iddo’r ystyr a nodir yn adran 2(2)(a) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, sef, mewn perthynas â phorthladd neu ran o borthladd, unrhyw

awdurdod lleol y mae ei ardal, neu unrhyw ran o'i ardal, yn rhan o'r porthladd hwnnw neu o'r rhan o'r porthladd hwnnw, neu'n ffinio ag ef neu hi, ac unrhyw gadwraethwyr, comisiynwyr neu bersonau eraill ag awdurdod yn, dros neu o fewn y porthladd hwnnw neu'r rhan o'r porthladd hwnnw.

**Safle**

Ystyr safle yw unrhyw strwythur sefydlog neu symudadwy a ddefnyddir at ddibenion gweithrediad busnes bwyd.

**Prif Awdurdod**

Fel y darperir ar ei gyfer yn adran 23A o Ddeddf Sancsiynau Gorfodi Rheoleiddiol 2008, awdurdod cymwys sydd wedi ffurfio partneriaeth â busnes neu gydgysylltydd ac sydd wedi ei enwebu gan yr Ysgrifennydd Gwladol i arfer swyddogaethau penodol drwy'r bartneriaeth honno.

**Cynhyrchu cynradd (bwyd)**

Mae iddo'r ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(17) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002, sef cynhyrchu, magu neu dyfu cynhyrchion cynradd, gan gynnwys cynaeafu, godro, a chynhyrchu anifeiliaid sy'n cael eu ffermio cyn eu lladd. Mae hefyd yn cynnwys hela a physgota a chynaeafu cynhyrchion gwyllt.

**Dadansoddwr Cyhoeddus**

Gwyddonydd sy'n sicrhau bod bwyd yn ddiogel a bod disgrifiadau o fwyd yn gywir drwy brofi am gydymffurfiaeth â deddfwriaeth fel y nodir yn Adran 27 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad 4 o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013.

**Cofnodion**

Ei ystyr yw gwybodaeth a gedwir yn ysgrifenedig neu'n electronig/ddigidol.

**Risg**

Y siawns neu'r tebygolrwydd y bydd person yn cael ei niweidio os bydd yn dod i gysylltiad â pherygl, neu y bydd y perygl hwnnw'n effeithio'n andwyol ar ei iechyd.

**Sefydliad Brenhinol Iechyd yr Amgylchedd yr Alban (REHIS)**

Corff aelodaeth a dyfarnu ar gyfer sector iechyd yr amgylchedd.

**Diogelwch**

Osgoi neu beidio ag achosi anaf, perygl neu golled.

**Samplu**

Dulliau sy'n cymryd bwyd anifeiliaid neu fwyd neu unrhyw sylwedd arall (gan gynnwys yr amgylchedd) sy'n berthnasol i gynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd anifeiliaid neu fwyd neu i iechyd anifeiliaid, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid neu fwyd neu reolau iechyd anifeiliaid drwy ddadansoddi.

**Bwrdd Cofrestru Swyddogion Diogelwch Bwyd yr Alban (SFSORB)**

Un o bwyllgorau Sefydliad Brenhinol Iechyd yr Amgylchedd yr Alban sy'n pennu'r safon academaidd cyn cofrestru y mae'n ofynnol i bobl sy'n gwneud cais am Dystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd, Tystysgrif Gyffredin mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a Thystysgrif Uwch mewn Cymwysterau Arolygu Safonau Bwyd ei chyrraedd.

**Monitro amgylcheddol ar gyfer pysgod cregyn**

Casglu samplau rheolaethau swyddogol pysgod cregyn a dŵr o bwyntiau samplu dynodedig fel rhan o'r Rhaglenni Monitro Rheolaethau Swyddogol Pysgod Cregyn, yn unol ag Erthygl 57 a Phennod II o Deitl V o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627.

**Dylid / Dylai**

Fe'i defnyddir i nodi canllawiau statudol.

**Amodau neu fesurau penodedig**

Mae iddo'r ystyr fel y'i diffinnir yn Erthygl 47(1)(f) o Reoliad (UE) 2017/625, sef rheolaethau swyddogol mewn perthynas ag anifeiliaid a nwyddau y mae eu hamodau neu eu mesurau wedi eu sefydlu gan ddeddfau a fabwysiadwyd yn unol ag Erthygl 126 neu 128 yn y drefn honno, neu â'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) sy'n ei gwneud yn ofynnol bod cydymffurfiaeth â'r amodau neu'r mesurau hynny yn cael ei chanfod pan fydd yr anifeiliaid neu'r nwyddau'n dod i Brydain Fawr.

**Safonau**

Rheolau neu egwyddorion sydd wedi eu diffinio yn y gyfraith diogelwch bwyd a ddefnyddir fel sail ar gyfer barnu.

**Gwyliadwriaeth**

Ei ystyr yw arsylwi'n ofalus ar un neu ragor o fusnesau bwyd, neu weithredwyr busnesau bwyd neu eu gweithgareddau, er mwyn casglu gwybodaeth.

**Dilysu / Gwirio**

Gwirio, drwy archwilio a thrwy ystyried tystiolaeth wrthrychol, a yw gofynion penodedig wedi eu cyflawni.

**Escherichia coli sy'n cynhyrchu ferocytotocsin (VTEC)**

Maent yn bathogenau milheintiol sy'n gysylltiedig â salwch a gludir gan fwyd a dŵr sy'n achosi salwch a allai fod yn angheuol y mae ei symptomau'n cynnwys dolur rhydd a cholitis gwaedlyd, a'r syndrom wraemig haemolytig (HUS).

**Grwpiau risg sy'n agored i niwed**

Grwpiau risg sy'n agored i niwed yw'r rheiny sy'n cynnwys pobl sy'n debygol o fod yn fwy agored i effeithiau hylendid bwyd gwael, fel y rheiny sydd o dan bump oed neu dros 65 oed, pobl sy'n sâl neu bobl ag imiwnedd gwan.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**

CLILC yw llais cenedlaethol llywodraeth leol, ac mae’n gweithio gyda chynghorau i gefnogi, i hyrwyddo ac i wella gwasanaethau llywodraeth leol.

**Ysgrifennu**

Mae iddo’r ystyr fel y’i diffinnir gan Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 ac Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, sef teipio, argraffu, lithograffeg, ffotograffiaeth, a dulliau eraill o gynrychioli neu atgynhyrchu geiriau ar ffurf weladwy, a dehonglir ymadroddion sy’n cyfeirio at ysgrifennu yn unol â hynny.

# Atodiad 1 Cynlluniau Sgorio Ymyriadau mewn Sefydliadau Bwyd

Mae'r Atodiad hwn yn ymdrin â sgoriau ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd, a'r amlderau gofynnol ar gyfer cynnal ymyriadau ym mhob sefydliad bwyd. Nid yw hyn yn gymwys i:

- sefydliadau sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd, ac eithrio sefydliadau busnes bwyd sy'n ddarostyngedig i ofynion Rheoliad (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin
- sefydliadau bwyd anifeiliaid

## A1.1 Y system sgorio hylendid bwyd

**Rhan 1: Y perygl posibl – Mae tri ffactor yn pennu'r perygl posibl:**

**Y math o fwyd a'r dull trin**

| Sgôr | Canllawiau o ran y system sgorio |
|---|---|
| 40 | Gweithgynhyrchwyr bwyd risg uchel, cyfanwerthwyr, a phecynwyr sy'n ail-lapio neu'n ail-becynnu bwydydd risg uchel. Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried bwydydd risg uchel fel bwydydd sy'n cefnogi twf micro-organebau ac sy'n barod i'w bwyta heb driniaeth bellach a fyddai'n dinistrio micro-organebau pathogenig neu eu tocsinau. |
| 30 | Paratoi, coginio, neu drin a thrafod bwydydd risg uchel agored gan arlwywyr a<br>manwerthwyr, ac eithrio arlwywyr sy'n paratoi llai nag 20 o brydau bwyd y dydd fel arfer (gweler isod). |
| 10 | Paratoi, coginio neu drin a thrafod bwydydd risg uchel agored gan arlwywyr bach sy'n gweini llai nag 20 pryd bwyd ar ddiwrnod unigol.<br>Trin a thrafod bwydydd risg uchel wedi'u pecynnu ymlaen llaw.<br>Cyfanwerthwyr a dosbarthwyr eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y categorïau uchod; Gweithgynhyrchu neu becynnu bwydydd heblaw bwydydd risg uchel.<br>Sefydliadau sy'n ymwneud â ffiledu a halltu pysgod i'w manwerthu i'r defnyddiwr terfynol. |
| 5 | Trin a thrafod bwydydd gan fanwerthwyr heblaw am fwydydd risg uchel, a chynhyrchion silff sefydlog eraill.<br>Unrhyw fusnesau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y categorïau uchod. |

| Sgôr: | |
|---|---|

**Dull prosesu**
Dylid rhoi sgôr ychwanegol o dan yr adran hon i sefydliadau sy’n defnyddio dull prosesu penodol (gan gynnwys y rheiny sy’n ymestyn oes silff y cynnyrch) a allai gynyddu’r risg i iechyd y cyhoedd tu hwnt i’r risg arferol sy’n gysylltiedig â choginio neu storio. Fodd bynnag, dim ond unwaith y dylid rhoi’r sgôr ychwanegol honno, hynny yw, y sgôr uchaf o dan yr adran hon yw 20.

| Sgôr | Canllawiau o ran y system sgorio |
|---|---|
| 20 | Yr egwyddor bwysicaf i’w hasesu yw a yw’r broses ei hun yn creu risg gynyddol a/neu ai’r bwriad yw cynyddu oes silff y cynnyrch drwy roi’r broses ar waith.<br>Isod, ceir rhestr o’r mathau o ddulliau prosesu y dylid rhoi sgôr ychwanegol o 20 ar eu cyfer. Nid yw’r rhestr hon yn gyflawn. Bydd angen i’r swyddogion awdurdodedig benderfynu ar ddulliau prosesu eraill nad ydynt wedi’u rhestru isod:<br>• canio neu ddulliau aseptig eraill o becynnu bwyd asid isel<br>• pecynnu dan wactod<br>• coginio sous-vide<br>• gweithgynhyrchu bwyd coginio/oeri, er enghraifft, prydau wedi’u coginio a’u paratoi neu fwydydd y gellir eu bwyta’n oer neu ar ôl eu hailgynhesu (mae ailgynhesu prydau coginio-oeri yn syml wedi’i eithrio o gwmpas y paragraff hwn)<br>• eplesu cigoedd, er enghraifft, i gynhyrchu salami a selsig eraill wedi’u heplesu<br>• sychu yn yr awyr, er enghraifft, hamiau sych, biltong neu jerky<br>• sychu drwy rewi<br>• ychwanegu halen a/neu sylweddau cyffeithio eraill<br>• coginio ac oeri cynhyrchion cig cyn eu gweini, er enghraifft, cynhyrchu hamiau gan fanwerthwyr, gan gynnwys cigyddion; ni fwriedir i hyn gael ei gymhwyso i weithrediadau arlwyo syml lle y gall bwydydd yn aml fod wedi eu paratoi ymlaen llaw cyn eu hailgynhesu<br>• sefydliadau sy’n gweithgynhyrchu, yn paratoi neu’n gweini bwyd sy’n dod o anifeiliaid sy’n barod i’w fwyta heb ei goginio neu wedi’i goginio’n ysgafn y mae ei natur yn achosi perygl diogelwch bwyd microbiolegol gweddilliol. Bwriedir i hyn gynnwys arlwywyr/gweithgynhyrchwyr sy’n cynhyrchu bwydydd fel stêc tartare a phrydau cig amrwd eraill, carpaccio pysgod a chig, mathau o sushi neu sashimi, ceviche, a byrgyrs nad ydynt wedi’u coginio’n drylwyr |
| 0 | Unrhyw achos arall nad yw wedi’i gynnwys uchod. |

| Sgôr: | |
|---|---|

**Defnyddwyr sy’n wynebu risg**
Bwriedir i’r ffactor hwn adlewyrchu nifer y defnyddwyr sy’n debygol o wynebu risg, a chwmpas daearyddol posibl, unrhyw ddigwyddiad os bydd gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd yn methu.

| Sgôr | Canllawiau o ran y system sgorio |
|---|---|
| 15 | Busnesau bwyd sy'n ymwneud â gweithrediadau gweithgynhyrchu, dosbarthu, pecynnu neu lapio bwyd sy'n cael ei ddosbarthu'n genedlaethol neu'n rhyngwladol. |
| 10 | Busnesau sy'n gwasanaethu nifer sylweddol o gwsmeriaid, gan gynnwys cyfran sylweddol y tu allan i'r ardal leol, er enghraifft, archfarchnad, arlwywr maes awyr, arlwywr ardal wasanaethau ar draffordd.<br>Gweithgynhyrchwyr nad ydynt wedi'u cynnwys yn y categori uchod. |
| 5 | Busnesau y mae'n debygol bod y rhan fwyaf o'u cwsmeriaid yn byw, yn aros neu'n gweithio yn yr ardal leol, er enghraifft, archfarchnad neu siop, siop gyfleus leol, neu fwyty stryd fawr neu fwyty lleol. |
| 0 | Busnesau sydd fel rheol yn cyflenwi llai nag 20 o ddefnyddwyr y dydd. |

| Sgôr: | |
|---|---|

**YN OGYSTAL**

Dylid rhoi sgôr **ychwanegol** o 22 (yn ychwanegol at y sgôr uchod) i sefydliadau sy'n ymwneud â chynhyrchu neu weini bwydydd risg uchel **y bwriedir yn benodol** iddynt gael eu bwyta gan ddefnyddwyr sy'n debygol o gynnwys grŵp risg sy'n agored i niwed sy'n cynnwys mwy nag 20 o bobl.

Yn y cyd-destun hwn, grwpiau risg sy'n agored i niwed yw'r rhai sy'n cynnwys pobl sy'n debygol o fod yn fwy agored i effeithiau hylendid bwyd gwael, fel y rheiny sydd o dan bump oed neu dros 65 oed, pobl sy'n sâl neu bobl â system imiwnedd wan.

| Sgôr | Canllawiau o ran y system sgorio |
|---|---|
| 22 | Cynhyrchu a/neu weini bwydydd risg uchel mewn sefydliadau lle mae defnyddwyr terfynol y cynnyrch a gynhyrchir yn cynnwys grŵp risg sy'n agored i niwed sy'n cynnwys mwy nag 20 o bobl. |
| 0 | Unrhyw achos arall nad yw wedi'i gynnwys uchod. |

| Sgôr: | |
|---|---|

**Rhan 2: Lefel gydymffurfiaeth (gyfredol)**

Dylai'r lefel gydymffurfiaeth gyfredol ystyried gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd a strwythur y sefydliad. Dylid asesu'r rhain ar wahân gan ddefnyddio'r system sgorio isod.

Mae gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd yn cynnwys ystyried:

- arferion a gweithdrefnau trin a thrafod bwyd
- rheoli croeshalogi
- rheoli tymheredd

Mae strwythur y sefydliad yn cynnwys ystyried:

- glendid
- cynllun
- cyflwr y strwythur
- goleuo
- awyru
- cyfleusterau

Dylai'r sgôr adlewyrchu'r gydymffurfiaeth yr arsylwir arni yn ystod yr arolygiad, yn unol â'r canllawiau a nodir isod.

Mewn sefyllfaoedd pan fo'r sefydliad yn methu â chydymffurfio o ran ei strwythur a'i weithdrefnau, dylai'r sgôr 'hylendid' a'r sgôr 'strwythurol' adlewyrchu'r diffyg cydymffurfio hwn.

| **Sgôr** | **Canllawiau o ran y system sgorio** |
|---|---|
| 25 | Braidd dim cydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol. |
| 20 | Methiant cyffredinol i fodloni'r rhwymedigaethau statudol – safonau yn gyffredinol isel. |
| 15 | Peth diffyg cydymffurfio sylweddol â rhwymedigaethau statudol – mae angen mwy o waith<br>i atal safonau rhag gostwng. |
| 10 | Peth diffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer a argymhellir gan y diwydiant* nad ydynt yn cael eu hystyried yn sylweddol o ran eu risg (ond gallant fod yn sylweddol os na chânt sylw). Safonau'n cael eu cynnal neu eu gwella. |
| 5 | Safon dda o gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer a argymhellir gan y diwydiant*, gyda dim ond mân dramgwyddau. |
| 0 | Safon uchel o gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer a argymhellir gan y diwydiant*; yn cydymffurfio ag arferion da derbyniol yn y rhan honno o'r diwydiant. |

*Pan fo cod/canllawiau perthnasol wedi'u cyhoeddi ar gyfer y diwydiant.

| **Sgôr –** | |
|---|---|

| **Sgôr –** | |
|---|---|

| Hylendid | |
| --- | --- |

| Strwythur | |
| --- | --- |

## Rhan 3: Hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli

### Cwmpas

Dylai’r sgôr hyder mewn rheolwyr asesu a yw gweithdrefnau rheoli/rheolaeth diogelwch bwyd busnes yn briodol, ac a ydynt yn nodi’r peryglon a’r rheolaethau cywir. Dylid asesu’r lefel gydymffurfiaeth gyfredol yn sgil rhoi’r arferion ar waith wrth ystyried cydymffurfiaeth â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd yn Rhan 2.

Pan fo gan y rheolwyr system rheoli diogelwch bwyd effeithiol yn ei lle, a bod y system honno wedi ei rhoi ar waith a bod y gweithlu’n ei deall yn dda, dylent gyrraedd safon dda yn Rhan 2, ac felly dylai fod ganddynt sgôr isel ar gyfer y ffactor risg hwnnw.

Ni fwriedir i’r adran hyder mewn rheolwyr ailystyried yr agwedd hon. Ei diben yw barnu pa mor debygol yw hi y bydd y sefydliad yn parhau i gydymffurfio’n foddhaol yn y dyfodol.

### Asesu ‘rheolwyr’

Gall asesu ‘rheolwyr’ gynnwys dwy elfen: trefniadau rheoli corfforaethol (unrhyw systemau a phrosesau rheoli bwyd sydd ar waith ar draws y cwmni) a mesurau rheoli lleol (y modd y mae rheolwyr lleol yn rhoi’r systemau corfforaethol ar waith, yn ogystal â systemau a phrosesau eraill sydd ar waith mewn canghennau neu siopau).

Pan fo gan y sefydliad brif awdurdod, caiff y prif awdurdod ddarparu gwybodaeth drwy gynllun arolygu i gynorthwyo â’r broses o bennu sgôr ar gyfer hyder yn y rheolwyr ar y sail bod systemau rheoli corfforaethol yn cael eu rhoi ar waith yn briodol, pan fo’n berthnasol. Ni ddylai swyddogion geisio ailasesu’r elfen rheolaeth gorfforaethol, ond dylent ystyried y sgôr ar sail y graddau y mae’r rheolwyr lleol yn rhoi’r systemau ar waith yn lleol.

Dylai swyddogion hefyd roi sylw i lefel y sicrwydd a gafwyd gan wiriadau a gynhaliwyd ar y systemau rheoli diogelwch bwyd yn uniongyrchol mewn sefydliad unigol drwy drydydd parti annibynnol fel rhan o gynllun sicrwydd sy’n mynd i’r afael â’r ddeddfwriaeth gymwys.

### Ffactorau i’w hystyried

Nid yw’r sgôr hyder yn y rheolwyr/gweithdrefnau rheoli yn ymwneud â gweithdrefnau dogfenedig a’r modd y maent yn cael eu rhoi ar waith yn unig. Mae’r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar farn y swyddog yn cynnwys:

- hanes y busnes o gydymffurfio, a’i hanes o ran cwynion
- parodrwydd y busnes i weithredu ar sail cyngor a chamau gorfodi blaenorol
- agwedd y rheolwyr presennol tuag at hylendid a diogelwch bwyd
- gwybodaeth am hylendid a diogelwch bwyd, gan gynnwys dadansoddi peryglon/HACCP a rheoli pwyntiau critigol
- gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol

**Gweithdrefnau sy'n seiliedig ar HACCP**

Pan fyddant yn pennu'r hyn sy'n 'foddhaol' o ran gweithdrefnau sy'n seiliedig ar HACCP, dylai swyddogion ystyried, ar sail yr egwyddor cymesuredd, yr angen i gael gweithdrefn barhaol neu weithdrefnau parhaol yn seiliedig ar egwyddorion HACCP sy'n gymesur â natur a maint y busnes bwyd. Mewn rhai busnesau bwyd, nid oes pwyntiau rheoli critigol ar gael, ac, mewn rhai achosion, gall gweithdrefnau hylendid da gymryd lle camau i fonitro pwyntiau rheoli critigol. Mae angen bod yn hyblyg hefyd o ran y gofyniad am i fusnesau gadw cofnodion, a hynny er mwyn osgoi rhoi baich gormodol ar fusnesau bach iawn.

O ran busnesau bach sy'n peri peryglon hylendid sylfaenol yn unig, gall fod yn ddigonol bod gan y busnes arferion hylendid da yn eu lle a'i fod yn eu deall a'u rhoi ar waith, hynny yw, mae'n bodloni'r rhagofynion. Mae angen cydbwyso'r gofyniad am gofnodion â natur a maint y busnes. Efallai na fydd angen dogfennu a chadw cofnodion o dan yr hyblygrwydd a roddir gan Erthygl 5 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004. Dylai swyddogion ystyried canllawiau mewn perthynas â chymhwyso Erthygl 5 er mwyn penderfynu a oes angen gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd dogfenedig ar y busnes ac, os felly, ar lefel y ddogfennaeth sydd ei hangen. Bydd lefel y ddogfennaeth sydd ei hangen yn amrywio o'r naill fusnes i'r llall, gan ddibynnu ar y mathau o weithrediadau a gynhelir, pa mor gymhleth ydyn nhw, a lefel y rheolaethau sy'n cael ei rhoi ar waith.

Fodd bynnag, nid yw Erthygl 5 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 yn gymwys i sefydliadau busnes bwyd sy'n ddarostyngedig i ofynion Rheoliad (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin, gan eu bod yn gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd.

| Sgôr | Canllawiau o ran y system sgorio |
|---|---|
| 30 | • hanes gwael o gydymffurfio<br>• ychydig neu ddim gwybodaeth am ddiogelwch bwyd na dealltwriaeth ohono<br>• ychydig neu ddim gwerthfawrogiad o beryglon, risgiau, na mesurau rheoli ansawdd<br>• dim gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd<br>• nid yw'n cydnabod nac yn derbyn yr angen am reolaethau diogelwch bwyd a hylendid |

| Sgôr | Canllawiau o ran y system sgorio |
|---|---|
| 20 | • hanes amrywiol iawn o gydymffurfio<br>• gwybodaeth annigonol am ddiogelwch bwyd, a dealltwriaeth annigonol ohono<br>• gwerthfawrogiad gwael o beryglon a mesurau rheoli<br>• dim gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd neu gynnydd anfoddhaol o ran datblygu, cofnodi a gweithredu gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd, sy'n gymesur â'r math o fusnes, ers rhoi'r sgôr ymyrryd ddiwethaf<br>• mae'r rheolwr braidd yn gyndyn o gydnabod neu dderbyn bod angen rheolaethau diogelwch a hylendid bwyd |
| 10 | • hanes boddhaol o gydymffurfio<br>• mynediad at gyngor perthnasol am ddiogelwch bwyd a/neu Ganllawiau Arferion Da neu gynllun sicrwydd sy'n gymesur â'r math o fusnes<br>• dealltwriaeth o beryglon sylweddol, a mesurau rheoli yn eu lle<br>• wedi rhoi gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol ar waith neu'n gwneud cynnydd boddhaol tuag at gael gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd dogfenedig, yn gymesur â'r math o fusnes bwyd<br>• bydd angen i swyddogion sicrhau bod busnes yn dangos ei fod mewn gwirionedd yn 'gwneud cynnydd boddhaol' tuag at gael gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd. Gellir dyfarnu sgôr o 10 am fwy nag un cylch ymyrryd:<br>– os yw achosion blaenorol o ddiffyg cydymffurfio wedi cael sylw, ond mae achosion gwahanol o ddiffyg cydymffurfio wedi codi<br>– os nad yw'r risg gyffredinol wedi cynyddu |
| 5 | • hanes da o gydymffurfio<br>• mae cyngor diogelwch bwyd ar gael yn fewnol neu mae'n gallu cael gafael ar gyngor technegol, ac mae'n ei ddefnyddio, gan Brif Awdurdod neu Awdurdod Cartref, gan gymdeithasau masnach a/neu drwy Ganllawiau Arfer Da neu gynllun sicrwydd sy'n gymesur â'r math o fusnes<br>• rheoli peryglon yn effeithiol<br>• mae hunanwiriadau effeithiol ar waith, ynghyd â gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol dogfenedig sy'n gymesur â'r math o fusnes<br>• mae archwiliad gan Awdurdod Cymwys yn cadarnhau cydymffurfiaeth gyffredinol â gweithdrefnau, gyda mân achosion o ddiffyg cydymffurfio na nodwyd eu bod yn hanfodol o ran diogelwch bwyd |

| Sgôr | Canllawiau o ran y system sgorio |
|---|---|
| 0 | • hanes rhagorol o gydymffurfio<br>• mae cyngor diogelwch bwyd ar gael yn fewnol, neu gall gael mynediad at gyngor technegol, ac mae'n ei ddefnyddio, gan Brif Awdurdod neu Awdurdod Cartref, gan gymdeithasau masnach a/neu drwy Ganllawiau Arfer Da neu gynllun sicrwydd sy'n gymesur â'r math o fusnes<br>• mae gweithredwr/rheolwr y busnes bwyd yn wybodus ac yn gymwys<br>• mae hunanwiriadau effeithiol ar waith, ynghyd â gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd dogfenedig boddhaol sy'n gymesur â'r math o fusnes, a gall fod prosesau archwilio allanol yn eu lle<br>• mae archwiliad gan Awdurdod Cymwys yn cadarnhau cydymffurfiaeth dda â gweithdrefnau diogelwch bwyd |

| Sgôr: | |
|---|---|

**YN OGYSTAL**

Dylid rhoi sgôr **ychwanegol** o 20 (yn ychwanegol at y sgôr uchod) pan fo risg sylweddol:

- bod bwyd wedi'i halogi â Clostridium botulinum ac y bydd y micro-organeb yn goroesi unrhyw brosesu ac yn lluosogi
- bod bwyd parod i'w fwyta wedi'i halogi neu y bydd yn cael ei halogi â micro-organebau neu eu tocsinau sy'n bathogenig i bobl, er enghraifft, E. coli O157 neu VTEC arall, Salmonella sp., Bacillus cereus

Yn y cyd-destun hwn, ystyr risg sylweddol yw bod digwyddiad yn debygol o ddigwydd. Dylid ystyried y materion a ganlyn wrth asesu'r ffactor hwn:

- y potensial o halogiad neu groeshalogiad gan y micro-organebau penodedig
- y tebygolrwydd y bydd y micro-organebau penodedig yn goroesi ac yn tyfu
- bodolaeth gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP a hyder yn y ffordd y cânt eu rhoi ar waith, gan gynnwys dogfennaeth a chofnodion monitro'r rheolaethau
- hyd a lled a pherthnasedd yr hyfforddiant y mae rheolwyr, goruchwylwyr a'r rhai sy'n trin a thrafod bwyd wedi ei gael
- a oes angen i'r Awdurdod Cymwys ymyrryd i leihau'r tebygolrwydd y bydd digwyddiad yn digwydd

Dim ond fesul achos y dylid cymhwyso'r sgôr ychwanegol, ac ni ddylid ei chymhwyso'n gyffredinol i gategorïau cyfan o sefydliadau busnes bwyd. Dylid dileu'r

sgôr ychwanegol yn yr arolygiad nesaf os nad yw'r risg sylweddol yn bodoli mwyach.

Dylai'r sgôr ychwanegol hefyd fod yn gyson â'r asesiad sylfaenol o'r hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli. Os rhoddir sgôr o 0 neu 5 ar gyfer hyder yn y rheolwyr, ac os asesir hefyd bod risg sylweddol y caiff y bwyd ei halogi gan un o'r micro-organebau penodedig, rhaid bod un o'r asesiadau hynny'n anghywir a dylid adolygu'r ddau. Ni ddylai sefydliadau beri risg sylweddol os oes hyder uchel neu gymedrol yn y rheolwyr/gweithdrefnau rheoli.

| Sgôr | Canllawiau o ran y system sgorio |
|---|---|
| 20 | Risg sylweddol y bydd bwyd yn cael ei halogi â *Cl. botulinum*, ac y bydd yr organeb yn goroesi unrhyw brosesu ac yn lluosogi; neu<br>Risg sylweddol y bydd bwyd parod i'w fwyta yn cael ei halogi â micro-organebau neu eu tocsinau sy'n bathogenig i bobl. |
| 0 | Unrhyw achos arall nad yw wedi'i gynnwys uchod. |

| Sgôr: | |
|---|---|

| Sgoriau arolygu: | | | | | | | | | Cyfan swm: | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Rhan 4: Amlder ymyriadau hylendid bwyd**

| Categori | Sgôr | Pa mor aml y mae'n ofynnol cyflawni ymyriadau |
|---|---|---|
| A | 92 neu uwch | O leiaf bob 6 mis |
| B | 72 i 91 | O leiaf bob 12 mis |
| C | 42 i 71 | O leiaf bob 18 mis |
| D | 31 i 41 | O leiaf bob 24 mis |
| E | 0 i 30 | O leiaf bob 36 mis |

## A1.2 Y system sgorio safonau bwyd

### Asesiad Risg Safonau Bwyd

Mae Proffil Risg sefydliad yn seiliedig ar ddwy elfen risg ar wahân: y Proffil Risg Gynhenid a'r Asesiad Cydymffurfiaeth:

- mae'r Proffil Risg Gynhenid yn ystyried y risgiau cynhenid sy'n gysylltiedig â'r busnes, fel hyd a lled y cyflenwi a'r posibilrwydd o gael niwed gan gynnyrch
- mae'r Asesiad Cydymffurfiaeth yn ystyried perfformiad a hanes cydymffurfio'r sefydliad busnes bwyd

Mae gan bob is-gategori risg ar gyfer y Proffil Risg Gynhenid (Tabl 1) a'r Asesiad Cydymffurfiaeth (Tabl 2) sgôr o 1-5.

Dylid asesu risg sefydliad ar sail pob is-gategori o fewn elfennau'r Proffil Risg Gynhenid a'r Asesiad Cydymffurfiaeth yn Nhablau 1 a 2.

### A1.3 Tabl 1: Proffil Risg Gynhenid – Canllawiau ar y system sgorio

Y risgiau cynhenid sy'n gysylltiedig â sefydliad bwyd.

| **Ffactorau risg gynhenid** | **Canllawiau** | **1**<br>**Perygl difrifol** | **2**<br>**Perygl sylweddol** | **3**<br>**Mân berygl** | **4**<br>**Perygl isel** | **5**<br>**Perygl isel iawn** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hyd a lled y cyflenwi a'r dosbarthu** | Mae'r ffactor hwn yn ystyried nifer y defnyddwyr sy'n debygol o wynebu risg os bydd y sefydliad bwyd yn methu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth safonau bwyd – po fwyaf yw nifer y cwsmeriaid, y mwyaf yw effaith bosibl unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio. Wrth sgorio sefydliad, caniateir i'r pethau a ganlyn gael eu hystyried:<br>• gweithgareddau sefydliad o ran cyflenwi a dosbarthu<br>• y math o sefydliad<br>• y dull cyflenwi, er enghraifft, sefydliad i sefydliad, manwerthu ar safle ffisegol, gwerthu ar-lein/o bell | Sefydliadau sy'n cyflenwi/dosbarthu bwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol<br>(gan gynnwys gweithgynhyrchwyr, pecynwyr, mewnforio/allforio). | Sefydliadau sy'n cyflenwi/dosbarthu bwyd yn rhanbarthol<br>(gan gynnwys cyfanwerthwyr / dosbarthwyr, gweithgynhyrchwyr bach, archfarchnadoedd). | Sefydliadau sy'n cyflenwi/dosbarthu bwyd yn lleol<br>(gan gynnwys gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr/arlwywyr mawr). | Sefydliadau sy'n cyflenwi neu'n dosbarthu bwyd yn lleol, gyda chyflenwyr lleol y mae'r busnes yn eu hadnabod<br>(gan gynnwys sefydliadau bwyd bach a lleol sy'n gwerthu bwyd parod i'w fwyta, fel siopau cornel, caffis a bwytai). | Sefydliadau bwyd eraill sy'n cyflenwi/dosbarthu bwyd yn lleol ar raddfa gyfyngedig a chanddynt sylfaen cwsmeriaid neilltuol<br>(gan gynnwys gwarchodwyr plant, meithrinfeydd, grwpiau chwarae, llety gwely a brecwast). |

| Ffactorau risg gynhenid | Canllawiau | 1<br>Perygl difrifol | 2<br>Perygl sylweddol | 3<br>Mân berygl | 4<br>Perygl isel | 5<br>Perygl isel iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhwyddineb cydymffurfio** | Mae'r ffactor hwn yn ystyried maint a chymhlethdod y gyfraith safonau bwyd sy'n gymwys i'r sefydliad ac y mae arno gyfrifoldeb i gydymffurfio â hi.<br><br>Ystyriwch ystod a chymhlethdod y cynhyrchion, y prosesau a'r gwasanaethau y mae'r sefydliad yn gyfrifol amdanynt, fel darparu gwybodaeth am fwyd, y rhan y mae unrhyw drydydd partïon yn ei chwarae o ran cyflenwi bwyd, y deunyddiau crai a ddefnyddir a'u manylebau cysylltiedig.<br><br>Pan fyddwch yn sgorio'r ffactor risg hwn, ystyriwch:<br><br>• unrhyw ddeddfwriaeth cynnyrch-benodol sy'n gymwys, yn enwedig pan fo'r ddeddfwriaeth yn cyflwyno safonau cyfansoddol neu safonau marchnata penodol<br>• a yw'r sefydliad yn cyflenwi ystod eang neu gyfyngedig o gynhyrchion* sy'n destun gofynion cyfreithiol gwahanol<br>• cynhyrchion y mae tystiolaeth o broblemau cydymffurfio parhaus yn gysylltiedig â nhw<br>• Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig neu unrhyw ofynion penodol<br><br>*Mae'n ystyried amrywiaeth yr ystod o gynhyrchion, er enghraifft, llinellau cynnyrch/marchnadoedd lluosog. Gwahaniaeth o ran ystod eang ac ystod gyfyngedig yn nhermau'r catalog cynhyrchion, y gofynion mewnforio a'r ystod o gynhyrchion y mae'n ofynnol iddynt gael awdurdodiad trydydd parti. | Sefydliadau sy'n gyfrifol am gynhyrchu neu labelu ystod eang o gynhyrchion bwyd yr effeithir arnynt gan ddeddfwriaeth cynnyrch-benodol.<br><br>Sefydliadau sy'n gyfrifol am gydymffurfio â deddfwriaeth sy'n peri bod angen rhywfaint o ddilysu a dehongli, er enghraifft, atchwanegiadau bwyd, bwydydd newydd. | Sefydliadau sy'n gyfrifol am gynhyrchu neu labelu ystod gyfyngedig o fwydydd y mae gofynion cynnyrch-benodol yn effeithio arnynt. | Sefydliadau bwyd sy'n gyfrifol am gynhyrchu neu labelu cynhyrchion nad yw deddfwriaeth cynnyrch-benodol yn effeithio arnynt.<br><br>Gall hyn hefyd gynnwys manwerthwyr neu arlwywyr sy'n cyflenwi bwydydd heb eu pecynnu ymlaen llaw y mae angen llai o labelu neu wybodaeth am fwyd arnynt yn unol â darpariaethau cenedlaethol, a sefydliadau sy'n gwneud honiadau a/neu'n defnyddio termau marchnata. | Sefydliadau bwyd sy'n manwerthu ystod eang o fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw neu gynhyrchion sy'n tarddu o drydedd wlad ac nad ydynt yn gyfrifol am gynhyrchu na labelu bwyd. | Sefydliadau bwyd sy'n manwerthu bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw neu fwydydd cynhwysyn sengl, fel cynhyrchion cynradd, wedi'u labelu yn y DU. |

| Ffactorau risg gynhenid | Canllawiau | 1<br>Perygl difrifol | 2<br>Perygl sylweddol | 3<br>Mân berygl | 4<br>Perygl isel | 5<br>Perygl isel iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymhlethdod y gadwyn gyflenwi** | Mae'r ffactor hwn yn ystyried cymhlethdod cadwyn gyflenwi sefydliad bwyd. Mae mwy o risg ynghlwm wrth gadwyn gyflenwi fwy cymhleth, gan fod mwy o botensial y gallai problemau o ran y bwydydd a'r deunyddiau crai a ddefnyddiwyd fynd i'r gadwyn gyflenwi. Gall y broblem hon hefyd effeithio ar effeithiolrwydd gweithdrefnau galw cynnyrch yn ôl. Ymhlith y pethau i'w hystyried mae:<br>• ym mha ran o'r gadwyn gyflenwi y mae gweithredwr busnes bwyd<br>• y cofnodion olrhain<br>• y defnydd o gyflenwyr sy'n wybyddus a/neu sydd wedi'u cymeradwyo, ac unrhyw waith monitro neu wiriadau a wnaed gan y gweithredwr busnes bwyd<br>• sicrwydd yn y gadwyn gyflenwi – beth yw'r risg y bydd rhywbeth yn ymyrryd â'r gadwyn gyflenwi?<br>• unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio sy'n wybyddus o fewn y gadwyn fwyd<br>• mewnforion o drydydd gwledydd<br>• cydnabyddiaeth o'r gweithgareddau a gyflawnir gan y sefydliad | Sefydliadau bwyd sy'n prynu cynhwysion a deunyddiau crai gan gyflenwyr lluosog, gan gynnwys eu mewnforio o wledydd y tu allan i drefn reoleiddio sy'n gyfwerth â threfn reoleiddio'r DU. | Sefydliadau bwyd sy'n prynu cynhwysion neu gynhyrchion gan gyflenwyr lluosog ac yn mewnforio o'r tu allan i'r DU. | Sefydliadau bwyd sy'n prynu cynhwysion neu gynhyrchion o fewn y DU. | Sefydliadau bwyd â nifer gyfyngedig o gyflenwyr lleol y mae'r busnes yn eu hadnabod.<br>Sicrwydd / gwiriadau mewnol priodol yn eu lle. | Cadwyn gyflenwi integredig sengl, gyda thystiolaeth briodol o wiriadau cymeradwyo o ran sicrwydd cyflenwyr. |

| Ffactorau risg gynhenid | Canllawiau | 1<br>Perygl difrifol | 2<br>Perygl sylweddol | 3<br>Mân berygl | 4<br>Perygl isel | 5<br>Perygl isel iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifoldeb am wybodaeth** | Mae'r ffactor hwn yn ystyried lefel y cyfrifoldeb sydd gan fusnes bwyd o ran rhoi gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr. Po fwyaf o gyfrifoldeb sydd ar fusnes bwyd, y mwyaf yw'r risg y gallai fod achos o ddiffyg cydymffurfio, er enghraifft, oherwydd gwall dynol neu'r cyfle posibl i wneud honiadau camarweiniol am fwyd neu i roi labeli camarweiniol ar fwyd.<br>Ystyriwch y pethau a ganlyn:<br>• faint o reolaeth sydd gan y busnes dros ddarparu gwybodaeth am fwyd, er enghraifft, a yw'r busnes yn rhan o gadwyn heb fawr ddim rheolaeth ar lefel leol, neu a yw'n fusnes annibynnol â rheolaeth lwyr?<br>• sut y mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r defnyddiwr terfynol? pa systemau sydd yn eu lle i sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir?<br>• a yw'r busnes bwyd yn llunio a/neu'n diwygio labeli? (mae hyn yn cynnwys gwahanu swmp o gynhyrchion a'u hailbecynnu, neu ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â bwyd rhydd)<br>• a yw'r busnes bwyd yn gwneud neu'n defnyddio unrhyw honiadau sy'n ddarostyngedig i ofynion deddfwriaethol? | Sefydliadau sy'n gyfrifol am gynhyrchu, labelu a/neu fewnforio ystod eang o gynhyrchion sy'n ddarostyngedig i ofynion deddfwriaethol cynnyrch-benodol. | Sefydliadau sy'n gyfrifol am gynhyrchu, labelu, pecynnu a/neu fewnforio ystod gyfyngedig o gynhyrchion sy'n ddarostyngedig i ofynion deddfwriaethol cynnyrch-benodol.<br>Sefydliadau bwyd sy'n gyfrifol am gynhyrchu neu labelu cynhyrchion sy'n ddarostyngedig i ofynion labelu cyffredinol. | Sefydliadau sy'n cyflenwi bwydydd heb eu pecynnu ymlaen llaw neu fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol.<br>Sefydliadau arlwyo â bwydlenni cymhleth, neu fwydlenni sy'n gwneud honiadau am y bwyd, er enghraifft, eog ffres wedi'i ffermio, wedi'i wneud gan ddefnyddio cynhwysion lleol ffres ac organig. | Sefydliadau sy'n cyflenwi amrywiaeth o gynhyrchion, ond nad ydynt yn labelu bwyd (er enghraifft, manwerthu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw), neu sefydliadau arlwyo â bwydlenni syml. | Sefydliadau sy'n cyflenwi ystod gyfyngedig o fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw yn unig. |
| **Y posibilrwydd y gallai cynnyrch achosi niwed** | Mae'r ffactor hwn yn ystyried i ba raddau y gallai defnyddwyr ddioddef niwed.<br>O ran defnyddwyr, mae hyn yn cynnwys niwed corfforol neu ariannol a mathau eraill o niwed i ddefnyddwyr. Dylid ystyried hefyd fwydydd y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan grwpiau penodol o ddefnyddwyr, er enghraifft, bwydydd meddygol neu fwydydd 'rhydd rhag' y bwriedir yn benodol iddynt gael eu bwyta gan ddefnyddwyr â gorsensitifrwydd i fwydydd penodol.<br>Mae niwed i sefydliadau eraill yn ystyried sut y gallai cyflenwi bwyd nad yw'n cydymffurfio beri anfantais i sefydliadau dilys. | Sefydliadau sy'n gyfrifol am gyfansoddiad a/neu labelu bwydydd ar gyfer grwpiau targed ac a allai gael effaith uniongyrchol ar iechyd a/neu ddiogelwch bwyd.<br>Ystyriwch yr effaith bosibl ar grwpiau targed pe bai achos o ddiffyg cydymffurfio. | Sefydliadau sy'n gyfrifol am gyfansoddiad a/neu labelu bwydydd gwerth uchel a/neu pan fo risg neu gymhelliad uwch i amnewid, difwyno neu halogi'r bwyd at ddibenion twyll neu gynyddu gwerth. | Sefydliadau sy'n gyfrifol am gyfansoddi a/neu ddarparu gwybodaeth am fwyd a allai fod yn gamarweiniol neu'n niweidiol i ddefnyddwyr. | Sefydliadau sy'n gwerthu ystod eang o gynhyrchion pan nad ydynt yn gyfrifol am gyfansoddiad y bwyd nac am ddarparu gwybodaeth am fwyd. | Sefydliadau sy'n gwerthu ystod gyfyngedig o gynhyrchion nad ydynt yn gyfrifol am gyfansoddiad y bwyd nac am ddarparu gwybodaeth am fwyd. |

### A1.4 Tabl 2: Asesiad Cydymffurfiaeth – Canllawiau o ran y system sgorio

Mae'n asesu perfformiad a hanes cydymffurfio gweithredwr busnes bwyd. Ystyrir pa mor dda y mae wedi cydymffurfio â'r safonau rheoleiddio, yn ogystal â'i berfformiad hanesyddol a'i ddata a'i arolygiadau cyfredol.

| Ffactorau risg cydymffurfio | Canllawiau | 1<br>Diffyg cydymffurfio difrifol | 2<br>Diffyg cydymffurfio sylweddol | 3<br>Cydymffurfiaeth eang, gyda dim ond mân achosion o ddiffyg cydymffurfio | 4<br>Cydymffurfiaeth dda | 5<br>Cydymffurfiaeth uchel a chynaliadwy |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Systemau a gweithdrefnau rheoli** | Mae'r ffactor hwn yn ystyried unrhyw systemau sicrwydd a rheoli ansawdd mewnol/allanol sydd yn eu lle, a sut mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith a'u gwirio.<br><br>Wrth ystyried y ffactor hwn, disgwylir bod y ffactor hwn yn gymesur â maint, graddfa a natur y sefydliad.<br>• dealltwriaeth dda o brosesau a pheryglon ymhlith y rheolwyr a'r gweithlu<br>• unrhyw newidiadau i weithgareddau ers yr ymweliad diwethaf wedi'u nodi yn y system reoli<br>• tystiolaeth bod rheolaethau digonol yn eu lle yn y camau cynhyrchu perthnasol<br>• gweithdrefnau sicrwydd mewnol (er enghraifft, manylebau a gwiriadau labeli)<br>• cynlluniau sicrwydd trydydd parti<br>• rheoli alergenau<br>• Rheoli Diogelwch Bwyd<br>• hyfforddiant a rheoli cofnodion<br>• partneriaeth â Phrif Awdurdod<br>• cydnabyddiaeth o arferion da<br>• sut y mae'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y risgiau sy'n gysylltiedig â'i sefydliad?<br>• a oes archwiliadau mewnol/allanol wedi'u cynnal ac, os felly, beth oedd y canfyddiadau?<br>• gwiriadau sicrhau ansawdd<br>• os ceir sicrwydd trydydd parti, a oes unrhyw ddogfennaeth ar gael i fwrw golwg drosti? | Dim system reoli na gweithdrefnau rheoli yn ei/eu lle, neu system heb fod wedi'i rhoi ar waith.<br><br>Methu â nodi risgiau a mynd i'r afael â nhw.<br><br>Gall methu â chydymffurfio â systemau/gweithdrefnau arwain at ganlyniadau difrifol/risg uniongyrchol o ran iechyd defnyddwyr. | Systemau rheoli heb fod yn eu lle neu'n annigonol o ystyried natur, maint neu raddfa'r busnes.<br><br>Tystiolaeth nad yw system/gweithdrefnau yn cael ei/eu defnyddio pan allai achos o ddiffyg cydymffurfio effeithio ar iechyd defnyddwyr neu gamarwain defnyddwyr. | Systemau a gweithdrefnau rheoli priodol yn eu lle gyda mân fylchau.<br><br>Systemau a gweithdrefnau'n cael eu dilyn ac yn destun adolygiad priodol. | Systemau a gweithdrefnau rheoli da yn eu lle sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r risgiau.<br><br>Mae'r system a'r gweithdrefnau'n cael eu harchwilio'n fewnol.<br><br>I rai sefydliadau, gallai hyn gynnwys sicrwydd o ran ansawdd cyflenwyr, olrheiniadwyedd bwyd, a chynlluniau sicrwydd bwyd. | Systemau rheoli a gweithdrefnau sicrwydd effeithiol yn eu lle sy'n mynd i'r afael â risgiau'n briodol.<br><br>Ymrwymiad parhaus amlwg i sicrhau bod rheolaethau rheoli priodol yn eu lle, gan gynnwys gwirio'r system rheolaethau rheoli'n barhaus.<br><br>I rai sefydliadau, gall hyn fod yn cael ei gyflawni drwy aelodaeth o gynlluniau sicrwydd y diwydiant. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Alergen Gwybodaeth** | Mae'r ffactor hwn yn ystyried yr hyn y mae gweithrediad busnes bwyd yn ei ddeall am y rheolaethau alergenau a'r gofynion i ddarparu gwybodaeth am alergenau, a'r modd y mae'n rhoi'r rheolaethau a'r gofynion hynny ar waith.<br><br>Ystyriwch y polisïau a'r gweithdrefnau sydd yn eu lle sy'n cysylltu'r camau i ddarparu gwybodaeth am alergenau â phresenoldeb alergenau fel cynhwysion bwriadol mewn bwyd. Ystyriwch hefyd y posibilrwydd y gallai alergenau fod yn bresennol mewn bwyd yn anfwriadol, ynghyd â'r labeli rhagofalus cysylltiedig ynghylch alergenau.<br><br>Ystyriwch a yw rheoli alergenau yn cael sylw digonol mewn system rheoli diogelwch bwyd, gan ystyried natur benodol y busnes. A yw staff yn gwybod am yr 14 alergen rheoleiddiedig, ac a ydynt yn gallu darparu gwybodaeth gywir a chyfredol amdanynt?<br><br>• a yw bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw, bwydydd heb eu pecynnu ymlaen llaw a bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol wedi'u labelu yn unol â'r ddeddfwriaeth?<br>• a gedwir cofnodion o gynhwysion i sicrhau y gellir rhoi gwybodaeth am alergenau i gwsmeriaid?<br>• a oes asesiad risg wedi'i gynnal o ran croeshalogi alergenau?<br>• a yw'r rheolaethau i reoli/atal croeshalogi alergenau yn cael eu rhoi ar waith, ac a ydynt yn ddigonol? A ydynt yn cydweddu â'r asesiad risg?<br>• a yw'r busnes yn defnyddio labeli alergenau rhagofalus sy'n seiliedig ar ganfyddiadau asesiad risg?<br>• a oes gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod unrhyw newidiadau o ran cynhyrchion/cynhwysion yn cael eu cofnodi'n gywir a'u cyfleu yn yr wybodaeth am alergenau?<br>• a ddarperir gwybodaeth gywir am alergenau i ddefnyddwyr?<br>• a oes gweithdrefn i sicrhau bod gwybodaeth am alergenau'n cael ei chadw'n gyfredol? Sut y mae staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf?<br>• o ran sefydliadau nad ydynt yn ysgwyddo perchnogaeth gorfforol o fwyd, sut y maent yn sicrhau | Dealltwriaeth wael o'r rheolaethau alergenau a'r gofynion o ran labelu alergenau a darparu gwybodaeth amdanynt sy'n berthnasol i weithgareddau'r sefydliad bwyd, ac mae'r camau i'w rhoi ar waith hefyd yn wael.<br><br>Dim rheolaethau, polisïau na gweithdrefnau alergenau yn eu lle, neu systemau heb fod yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.<br><br>Alergenau anfwriadol/nad ydynt wedi'u datgan yn bresennol a allai beri risg i ddefnyddwyr. | Dealltwriaeth annigonol o'r rheolaethau alergenau, y gofynion o ran labelu a gwybodaeth, a'r camau i'w cymryd i liniaru'r rhain i ddiogelu defnyddwyr.<br><br>Tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio yn arwain at bryderon ynghylch risg bosibl i ddefnyddwyr. | Mae'r gweithredwr busnes bwyd yn dangos ei fod yn deall y rheolaethau alergenau a'r gofynion o ran labelu a gwybodaeth yn foddhaol, a'i fod yn eu rhoi ar waith yn foddhaol.<br><br>Dim diffyg cydymffurfio sy'n arwain at bryderon ynghylch risg bosibl i ddefnyddwyr. | Tystiolaeth o ddealltwriaeth dda o'r rheolaethau alergenau a'r gofynion o ran labelu a gwybodaeth a ategir gan bolisïau a gweithdrefnau priodol.<br><br>Dim diffyg cydymffurfio sy'n arwain at bryderon ynghylch risg bosibl i ddefnyddwyr. | Mae'r gweithredwr busnes bwyd yn dangos ei fod yn deall y rheolaethau alergenau a'r gofynion o ran labelu a gwybodaeth yn llwyr, a'i fod yn rhoi'r rheolaethau a'r gofynion hynny ar waith yn llwyr.<br><br>Mae system o reolaethau alergenau yn ei lle sy'n benodol i natur y busnes, ac mae'r gweithredwr busnes bwyd yn gallu dangos bod yr holl gamau angenrheidiol i reoli alergenau yn cael eu cymryd.<br><br>Dull rhagweithiol o ymdrin â materion alergenau, a gwaith monitro rheolaidd i sicrhau bod y rheolaethau'n parhau i fod yn effeithiol.<br><br>Dim diffyg cydymffurfio sy'n arwain at bryderon ynghylch risg bosibl i ddefnyddwyr. |

| Ffactorau risg cydymffurfio | Canllawiau | 1<br>Diffyg cydymffurfio difrifol | 2<br>Diffyg cydymffurfio sylweddol | 3<br>Cydymffurfiaeth eang, gyda dim ond mân achosion o ddiffyg cydymffurfio | 4<br>Cydymffurfiaeth dda | 5<br>Cydymffurfiaeth uchel a chynaliadwy |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | bod y gofynion o ran gwybodaeth am alergenau'n cael eu bodloni?<br>• os yw bwyd yn cael ei ddanfon, sut y mae'n sicrhau bod gwybodaeth am alergenau'n cael ei rhoi i ddefnyddwyr? | | | | | |
| **Lefel gydymffurfio gyfredol** | Mae'r ffactor hwn yn ystyried y lefel gydymffurfio yr arsylwir arni ar sail y rheolaeth swyddogol sy'n cael ei chynnal a/neu unrhyw gwynion neu ddeallusrwydd sy'n dod i law ynghylch y busnes.<br>Ystyriwch y pethau a ganlyn:<br>• a yw'r problemau a ganfuwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol wedi'u datrys?<br>• sicrwydd – ystyriwch pa gyngor a geisiwyd.<br>• y lefelau cydymffurfio â rhannau eraill o'r ddeddfwriaeth nad ydynt yn gysylltiedig â safonau bwyd, er enghraifft, hylendid bwyd neu faterion masnach deg | Methiant cyffredinol i gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol, gan gynnwys materion diogelwch hanfodol neu faterion sy'n ymwneud â thwyll bwriadol er budd ariannol neu er mwyn cynyddu elw. | Diffyg cydymffurfio sylweddol â'r rhwymedigaethau statudol sy'n ymwneud â materion diffyg cydymffurfio technegol. | Cydymffurfiaeth foddhaol. Mân achosion o ddiffyg cydymffurfio technegol (nad ydynt yn hanfodol i ddiogelwch) yn unig. | Cydymffurfiaeth dda â'r rhwymedigaethau statudol.<br>Mae unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a ganfyddir yn fach. | Cydymffurfiaeth uchel â'r rhwymedigaethau statudol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hyder mewn rheolwyr** | Mae'r ffactor hwn yn ystyried y risg wirioneddol o ran a fydd sefydliad yn cydymffurfio â'r gyfraith bwyd, gan ystyried gallu'r gweithredwr busnes bwyd i ddeall risgiau a'u lliniaru'n effeithiol.<br>Bydd sefydliad sydd â systemau rheoli effeithiol yn rheoli'r risgiau cynhenid yn effeithiol, a dylid cydnabod hyn.<br>Mae agwedd ac ymddygiad y gweithredwr busnes bwyd yn sgil unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio, a'i barodrwydd i unioni problemau, yn ddangosydd allweddol arall o'r hyder y gall swyddogion ei gael mewn sefydliad.<br>Ystyriwch y pethau a ganlyn:<br>• cofnodion hyfforddiant y staff<br>• cofnodion olrhain/y gallu i olrhain<br>• gwiriadau mewnol<br>• trefniadau archwilio<br>• hanes cydymffurfio blaenorol a'r camau i reoli cwynion<br>• hyder yn y staff – gwybodaeth a phrofiad<br>• rheoli digwyddiadau<br>• agwedd at ymgysylltu, at gydymffurfio ac at gywiro problemau, a pharodrwydd i wneud y pethau hynny<br>• parodrwydd i rannu gwybodaeth â'r Awdurdod Cymwys<br>• a gafodd unrhyw gynhyrchion eu galw yn ôl neu a gymerwyd unrhyw gamau gorfodi, neu a oes deallusrwydd wedi dod i law ynghylch y sefydliad?<br>• systemau diwydrwydd dyladwy<br>• cynlluniau gwydnwch a chynlluniau wrth gefn<br>• polisïau a gweithdrefnau rheoli alergenau<br>• a oes gan y sefydliad weithdrefn yn ei lle i ymdrin â chwynion? A yw'n dadansoddi tueddiadau, a sut y mae'n eu hadolygu ac yn mynd i'r afael â nhw? | Hanes gwael o gydymffurfio. Fawr ddim gwybodaeth dechnegol neu ddim o gwbl.<br>Dim dealltwriaeth o beryglon/dim camau i reoli ansawdd.<br>Diffyg ymwybyddiaeth o'r gyfraith bwyd berthnasol a'r rheolaethau cysylltiedig.<br>Dim camau i hyfforddi/goruchwylio staff.<br>Tystiolaeth o gamau gorfodi ffurfiol blaenorol.<br>Nifer anghymesur o gwynion yr oedd modd eu cyfiawnhau ers yr arolygiad diwethaf.<br>Amharodrwydd i weithredu ar sail cyngor neu gamau gorfodi.<br>Dull anymatebol o ymdrin ag unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio, sy'n arwain at risg uniongyrchol i ddefnyddwyr neu a allai arwain at gamau/gweithgaredd | Hanes amrywiol o ran cydymffurfio. Nid yw'r camau i hyfforddi / goruchwylio staff yn ddigonol.<br>Dealltwriaeth wael o'r gyfraith bwyd berthnasol a'r rheolaethau angenrheidiol.<br>Nifer sylweddol o gwynion yr oedd modd eu cyfiawnhau.<br>Amharodrwydd i ymgysylltu.<br>Yn araf o ran ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio ac o ran eu hunioni'n brydlon, gan arwain at y posibilrwydd o gamarwain defnyddwyr. | Hanes boddhaol o gydymffurfio.<br>Hanes o fân achosion o ddiffyg cydymffurfio yn unig.<br>Gall staff ddangos dealltwriaeth sylfaenol o'r gyfraith bwyd berthnasol a'r rheolaethau angenrheidiol.<br>Nid yw lefelau'r cwynion yn peri pryder oherwydd eu nifer na'u natur.<br>Agwedd dda tuag at gydymffurfiaeth, ond gall fod yn ei chael yn anodd rhoi'r gofynion cyfreithiol ar waith a'u cynnal, a gall fod yn dibynnu ar gael cymorth gan yr awdurdod lleol. | Hanes da o gydymffurfio.<br>Gall staff ddangos ymwybyddiaeth dda o'r gyfraith bwyd berthnasol a'r rheolaethau angenrheidiol.<br>Lefel isel o gwynion nad ydynt yn ddifrifol. Wedi ymgysylltu'n llwyr, gydag agwedd dda at gydymffurfiaeth. | Hanes rhagorol o gydymffurfio'n llwyr ac yn barhaus.<br>Cyngor technegol mewnol/allanol ar gael.<br>Mân gwynion, gyda thystiolaeth ei fod yn ymdrin â chwynion a'u hadolygu mewn ffordd ragweithiol.<br>Tystiolaeth o ddull gweithredu rhagweithiol / agwedd ragweithiol.<br>Wedi ymgysylltu'n llwyr, ac yn deall y gyfraith a'r cyfrifoldeb i sicrhau cydymffurfiaeth.<br>Dealltwriaeth lwyr o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r busnes. |

| Ffactorau risg cydymffurfio | Canllawiau | 1<br>Diffyg cydymffurfio difrifol | 2<br>Diffyg cydymffurfio sylweddol | 3<br>Cydymffurfiaeth eang, gyda dim ond mân achosion o ddiffyg cydymffurfio | 4<br>Cydymffurfiaeth dda | 5<br>Cydymffurfiaeth uchel a chynaliadwy |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | au a allai fod yn dwyllodrus. | | | | |

## A1.5 Matrics Penderfynu

Mae'r matrics penderfynu'n pennu pa mor aml y cynhelir rheolaethau swyddogol ym mhob sefydliad.

Caiff sgoriau'r ffactorau risg unigol ar gyfer y Proffil Risg Gynhenid a'r Asesiad Cydymffurfiaeth eu cyfartaleddu a'u talgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf i roi un sgôr gyffredinol ar gyfer pob categori risg.

Cyn cymhwyso'r ddwy sgôr hyn i'r matrics penderfynu, dylid ystyried y rheol a ganlyn. Y rheol yw darparu sicrwydd mewn perthynas â sefydliadau sy'n perfformio'n wael a sicrhau eu bod yn cael eu blaenoriaethu yn y matrics penderfynu gan fod y risg sydd ynghlwm wrthynt yn uwch:

Tabl: Rheol senario

| **Senario** | **Rheol** |
|---|---|
| Sefydliad ag un neu ragor o sgoriau diffyg cydymffurfio difrifol (sgôr o un (1)) o dan gategori risg yr Asesiad Cydymffurfiaeth | Sgôr gyffredinol o un (1) yn yr Asesiad Cydymffurfiaeth, ni waeth beth fo'r sgoriau cydymffurfio eraill. |

Yna, dylid plotio'r ddwy sgôr derfynol ar y matrics penderfynu i bennu pa mor aml y mae'n ofynnol cynnal rheolaethau swyddogol.

<u>Tabl: Matrics Penderfynu</u>

| Proffil Risg Gynhenid | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 12 mis | 24 mis | 60 mis | 72 mis | 120 mis |
| 4 | Ymyriad sy'n flaenoriaeth 6 mis | 12 mis | 36 mis | 48 mis | 72 mis |
| 3 | Ymyriad sy'n flaenoriaeth 6 mis | 12 mis | 24 mis | 36 mis | 60 mis |
| 2 | Ymyriad sy'n flaenoriaeth 3 mis | Ymyriad sy'n flaenoriaeth 6 mis | 12 mis | 24 mis | 36 mis |
| 1 | Ymyriad sy'n flaenoriaeth 1 mis | Ymyriad sy'n flaenoriaeth 3 mis | Ymyriad sy'n flaenoriaeth 6 mis | 12 mis | 24 mis |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |

**Asesiad Cydymffurfiaeth**

# Atodiad 2 Trefniadau trosiannol ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol ar safonau bwyd:

Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r trefniadau trosiannol ar gyfer rheolaethau swyddogol ar safonau bwyd:

Daw'r cyfnod trosiannol i ben 12 mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r Cod hwn neu'n gynharach pan fo Awdurdod Cymwys yn hysbysu'r ASB ei fod mewn sefyllfa i gynnal y rheolaethau swyddogol ar safonau bwyd yn unol â phenodau 4 a 6 ac Atodiad 1.

Yn ystod y cyfnod trosiannol, dylai'r Awdurdodau Cymwys wneud trefniadau i roi ar waith y dull o gynnal rheolaethau swyddogol ar safonau bwyd a nodir ym mhennod 4 (Cynnal Rheolaethau Swyddogol), pennod 6.4.1 (Gwiriadau dilynol) ac Atodiad 1, adran A1.2 (y system sgorio safonau bwyd) o'r Cod hwn cyn gynted â phosibl a dim hwyrach na diwedd y cyfnod trosiannol.

Yn ystod y cyfnod trosiannol hwn, caiff Awdurdodau Cymwys barhau i roi sylw dyladwy i ddarpariaethau Atodiad 2 yn lle'r rheolaethau swyddogol ar safonau bwyd a nodir ym mhennod 4 (Cynnal Rheolaethau Swyddogol), pennod 6.4.1 (Gwiriadau dilynol) ac atodiad 1, adran A1.2 (y system sgorio Safonau Bwyd) o'r Cod hwn.

## A2.1 Arolygiadau cychwynnol

Mae'r adran hon yn gymwys:

- i sefydliadau busnes bwyd newydd sy'n dod i sylw'r Awdurdod Cymwys am y tro cyntaf
- i sefydliadau busnes bwyd nad oes ganddynt sgôr risg hanesyddol
- pan fo gweithredwr busnes bwyd wedi newid

Dylai Awdurdodau Cymwys wneud y pethau a ganlyn:

- pennu'r sgôr(iau) ymyrryd yn dilyn arolygiad cychwynnol
- sicrhau bod arolygiadau cychwynnol yn cael eu cynnal cyn pen 28 diwrnod ar ôl i'r sefydliad gofrestru neu ar ôl i'r Awdurdod ddod i wybod bod y sefydliad yn gweithredu, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf
- defnyddio gwybodaeth a ddarperir gan weithredwyr busnesau bwyd pan fyddant yn cofrestru eu sefydliadau busnes bwyd i benderfynu pryd i gynnal arolygiad cychwynnol

## A2.2 Amlder ymyriadau, a gofynion dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg

Dylai Awdurdodau Cymwys sy'n gyfrifol am orfodi'r gyfraith bwyd sicrhau:

- eu bod yn pennu'r math o ddull neu dechneg o gynnal rheolaeth swyddogol, a'r amlder, ar gyfer busnesau bwyd yn eu hardal, gan

ddefnyddio’r system sgorio safonau bwyd berthnasol a nodir yn atodiad 2 adrannau A2.4 ac A2.6

- bod rhaglenni ymyrryd yn cael eu cynllunio er mwyn i sefydliadau gael ymyriad heb fod yn hwyrach na 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y mae’r ymyriad i’w gynnal. O dan amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod Cymwys, fel busnesau sy’n cau’n dymhorol, mae gan Awdurdodau Cymwys ddisgresiwn i ohirio ymyriad
- bod eu swyddogion yn defnyddio’r ystod lawn o sgoriau sydd ar gael yn y system sgorio ymyriadau berthnasol yn atodiad 2, adran A2.6
- pan fo busnesau’n dod o dan fwy nag un categori sgorio ar gyfer ffactor sgorio, bod rhaid dyrannu’r sgôr uchaf o blith y sgoriau hynny sy’n berthnasol iddynt
- bod ymyriadau ar gyfer busnesau risg uwch neu’r rheiny sy’n debygol o fod yn rhai risg uchel bob amser yn cael blaenoriaeth dros ymyriadau ar gyfer busnesau risg is bod eu swyddogion, pan fyddant yn pennu sgôr ymyrryd sefydliad, yn ystyried gwybodaeth a gyflenwir gan eraill, gan gynnwys:

    - Awdurdodau Cymwys eraill
    - ffynonellau eraill, fel cyrff masnach
    - Prif Awdurdodau neu Awdurdodau Cartref
    - archwiliadau trydydd parti

## A2.3 Adolygu sgoriau ymyrryd

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod eu swyddogion:

- dim ond yn diwygio sgôr/sgoriau ymyrryd sefydliad busnes bwyd ar ddiwedd arolygiad neu archwiliad, rhannol neu lawn, ac yn unol ag adran 4.4 ac atodiad 2 adran A2.6 (neu unrhyw ddiwygiad iddynt y mae’r ASB wedi hysbysu’r Awdurdodau Cymwys amdano);
- wedi casglu digon o wybodaeth i gyfiawnhau diwygio’r sgôr ymyrryd
- yn cofnodi’r sgôr ymyriad a’r cyfiawnhad dros ei newid.

Pan fydd gwybodaeth newydd yn dod ar gael, a allai awgrymu bod natur gweithgareddau gweithredwr busnes bwyd wedi newid neu fod y lefel gydymffurfio wedi gostwng, rhaid i’r Awdurdod Cymwys:

- ailystyried y sgôr ymyrryd a phriodoldeb yr ymyriad nesaf a gynlluniwyd ar gyfer y sefydliad hwnnw;
- penderfynu a yw’n briodol cynnal arolygiad, arolygiad rhannol, neu archwiliad i ymchwilio ymhellach;
- newid y sgôr ymyrryd yn ôl yr angen;
- cofnodi’r sgôr, a’r cyfiawnhad dros ei newid.

## A2.4 Amlder ymyriadau safonau bwyd

### A2.4.1 Ymyriadau mewn Sefydliadau Categori A ar gyfer Safonau Bwyd

Dylai'r ymyriad priodol a gynllunnir ar gyfer sefydliad sydd wedi cael sgôr ymyrryd A ar gyfer safonau bwyd fod yn arolygiad, yn arolygiad rhannol, neu'n archwiliad, a dylid ei gynnal ar adegau priodol yn unol â'r amlderau a ragnodir yn atodiad 2 adran A2.6.
Dylid cofnodi unrhyw ymyriad ychwanegol arall, fel samplu neu addysg a hyfforddiant, yn erbyn y sefydliad at ddiben monitro camau gorfodi, ond ni ddylid ei ddefnyddio fel yr ymyriad a gynllunnir yn ôl yr amlderau ymyrryd a nodir yn atodiad 2 adran A2.6.

### A2.4.2 Ymyriadau mewn Sefydliadau Categori B ar gyfer Safonau Bwyd

Dylai sefydliadau sydd wedi cael sgôr ymyrryd B ar gyfer safonau bwyd gael ymyriad ar adegau priodol yn unol â'r amlderau a ragnodir yn atodiad 2 adran A2.6. Caiff ymyriadau o'r fath gynnwys naill ai arolygiad, arolygiad rhannol, neu archwiliad nes bod yr Awdurdod Cymwys yn ystyried bod y sefydliad yn "cydymffurfio'n fras" â'r gyfraith bwyd berthnasol. Pan fydd y sefydliad yn cydymffurfio'n fras, caiff ymyriadau a gynllunnir eiledu rhwng arolygiad, arolygiad rhannol, neu archwiliad neu fath arall o reolaeth swyddogol.

### A2.4.3 Ymyriadau mewn Sefydliadau Categori C ar gyfer Safonau Bwyd

Gallai sefydliadau cofrestredig sydd wedi cael sgôr ymyrryd categori C ar gyfer safonau bwyd fod yn destun Strategaeth Orfodi Amgen.
Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod y sefydliadau hyn yn parhau i fod yn destun rheolaethau bwyd swyddogol, ac un rheswm pwysig am hyn yw er mwyn ymchwilio i gwynion.
Dylai Awdurdodau Cymwys sy'n penderfynu peri i sefydliadau cofrestredig "risg isel" fod yn destun Strategaethau Gorfodi Amgen nodi eu strategaethau ar gyfer cadw gwyliadwriaeth ar sefydliadau o'r fath yn eu cynllun gwasanaeth bwyd a/neu eu polisi gorfodi.
Dylai'r sefydliadau hyn, o leiaf, fod yn destun ymyriad gan yr Awdurdod Cymwys, a allai fod ar ffurf Strategaeth Orfodi Amgen, o leiaf unwaith bob pum mlynedd ar gyfer safonau bwyd. Ni fwriedir i'r hyblygrwydd a gynigir i weithredu Strategaethau Gorfodi Amgen atal arolygiad llawn, arolygiad rhannol neu archwiliad rhag cael ei gynnal mewn sefydliadau o'r fath pan fo'r Awdurdod Bwyd yn ffafrio defnyddio unrhyw un o'r opsiynau hyn i gadw gwyliadwriaeth. Yn yr achosion hynny, pennir yr amlder ymyrryd gofynnol gan y sgôr ymyriad.
Pan fo'r sefydliad o dan sylw yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, nid yw defnyddio Strategaethau Gorfodi Amgen yn ddull

ymyrryd priodol. Dylai'r ymyriad ar gyfer sefydliad o'r fath fod yn rheolaeth swyddogol.

## A2.5 Ailymweliadau

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau:

- bod ailymweliadau'n canolbwyntio ar yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr ymyriad diwethaf a raglenwyd
- bod achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi'u hunioni cyn penderfynu nad oes angen cymryd camau pellach
- bod amseriad unrhyw ailymweliad yn cael ei bennu ar sail y camau a gymerwyd oherwydd yr ymyriad cynharach a difrifoldeb yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd
- pryd bynnag y bo'n ymarferol, fod y swyddog a gynhaliodd yr ymyriad gwreiddiol yn cynnal yr ailymweliad

## A2.6 Y System Sgorio Safonau Bwyd

**Rhan 1: Y risg bosibl**

**A. Risg i ddefnyddwyr a/neu i fusnesau eraill**

Mae'r ffactor hwn yn ystyried yr effaith andwyol bosibl ar ddefnyddwyr, a'r goblygiadau i fusnesau eraill, pe na bai'r busnes yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth safonau bwyd. Mae effeithiau andwyol ar ddefnyddwyr yn cynnwys diogelwch ac anfantais economaidd. Ymhlith y goblygiadau i fusnesau eraill mae effeithiau economaidd masnachu annheg.

| Sgôr | Canllawiau o ran y system sgorio |
|---|---|
| 30 | Cynhyrchwyr bwyd ar gyfer grwpiau penodol; Gweithgynhyrchwr, mewnforwyr neu becynwyr bwydydd gwerth uchel, neu fwydydd sympiau uchel, pan fo cymhelliad i'w difwyno'n dwyllodrus; Gweithgynhyrchwr bwydydd sy'n cynnwys ystod eang o ychwanegion; Busnesau sy'n gwneud honiadau o ran maethiad, cynnwys maethynnau, neu iechyd ar labeli bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw neu mewn hysbysebion. Busnesau bwyd, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr a mewnforwyr sy'n trin a thrafod cynhwysion bwyd neu fwydydd a fewnforiwyd y gall fod mwy o risg eu bod wedi'u halogi'n gemegol. |
| 20 | Gweithgynhyrchwyr neu becynwyr bwyd sy'n destun safonau statudol o ran cyfansoddiad. |
| 10 | Busnesau lleol sy'n defnyddio labeli a gynhyrchir yn y siop, arddangosfeydd ffenestri, byrddau sialc, bwydlenni ac ati, er enghraifft, cigyddion, pobyddion, siopau bwyd iach, bwytai, safleoedd tecawê, arlwywyr sy'n cyflenwi mwy na 10 pryd y dydd, a busnesau sy'n defnyddio honiadau er manteision marchnata. |

| | |
|---|---|
| 0 | Arlwywyr sy'n cyflenwi dim mwy na 10 pryd o fwyd y dydd, er enghraifft, llety gwely a brecwast;<br>Unrhyw fusnes nad yw wedi'i gynnwys yn y categorïau uchod. |
| Sgôr: | |

**B. Y graddau y mae gweithgareddau'r busnes yn effeithio ar unrhyw berygl**

Mae'r ffactor hwn yn ystyried y math o weithgareddau y mae'r busnes bwyd yn ymgymryd â nhw, yr angen i'r gweithgareddau hynny gael eu monitro a'u rheoli'n fanwl, a'u heffeithiolrwydd posibl o ran cynnal cydymffurfiaeth â deddfwriaeth safonau bwyd. Dylid ystyried a yw'r busnes yn cynhyrchu, yn labelu neu'n hysbysebu cynhyrchion y mae'r gyfraith safonau bwyd yn gymwys iddynt. Os yw'r busnes yn cynhyrchu ei gynhyrchion ei hun, dylid ystyried y gwaith o fonitro a rheoli ryseitiau a chynhwysion.

Mae'r sgoriau isod yn rhoi enghreifftiau o fusnesau bwyd y gallai sgôr benodol gyfeirio atynt.

| **Sgôr** | **Canllawiau o ran y system sgorio** |
|---|---|
| 30 | Gweithgynhyrchwyr bwyd, proseswyr, mewnforwyr sy'n trin a thrafod ystod eang o nwyddau. |
| 20 | Busnesau lleol sy'n labelu nwyddau rhydd sy'n cael eu harddangos, a/neu'n pecynnu nwyddau ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol. |
| 10 | Manwerthwyr/arlwywyr nad ydynt yn gweithgynhyrchu bwyd sy'n gwerthu o'u sefydliad eu hunain yn unig. |
| 0 | Unrhyw fusnes nad yw wedi'i gynnwys yn y categorïau uchod. |
| Sgôr: | |

### C. Rhwyddineb cydymffurfio

Mae'r ffactor hwn yn ystyried maint a chymhlethdod y gyfraith safonau bwyd sy'n gymwys i'r busnes ac y mae'n gyfrifol am gydymffurfio â hi. Dylid ystyried ystod a chymhlethdod cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau, gan gynnwys cysondeb deunyddiau crai. Dylid ystyried pa mor anodd yw'r dasg i'r gweithredwr busnes bwyd, gan gynnwys pa mor hawdd yw hi i adnabod perygl.

| Sgôr | Canllawiau o ran y system sgorio |
|---|---|
| 30 | Gweithgynhyrchwr, pecynnwr neu fewnforiwr ystod eang o gynhyrchion. |
| 20 | Gweithgynhyrchwr, pecynnwr neu fewnforiwr ystod gyfyng o gynhyrchion. |
| 10 | Manwerthwyr sy'n rhoi disgrifiadau ar fwyd, fel cigyddion, pobyddion a siopau delicatessen;<br>Arlwywyr â bwydlenni cymhleth. |
| 0 | Unrhyw fusnes nad yw wedi'i gynnwys yn y categorïau uchod. |
| Sgôr: | |

### D. Defnyddwyr sy'n wynebu risg

Mae'r ffactor hwn yn ystyried nifer y defnyddwyr sy'n debygol o wynebu risg os yw'r busnes yn methu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth safonau bwyd.

| Sgôr | Canllawiau o ran y system sgorio |
|---|---|
| 20 | Gweithgynhyrchwyr, cynhyrchwyr a phecynwyr bwyd sy'n cael ei ddosbarthu'n genedlaethol neu'n rhyngwladol. |
| 10 | Busnesau sy'n masnachu y tu hwnt i'r ardal leol, er enghraifft, archfarchnad/uwchfarchnad ranbarthol; gweithgynhyrchwr lleol ar raddfa fach. |
| 5 | Busnesau sy'n cyflenwi'r ardal leol, er enghraifft, siop ar y stryd fawr neu siop gornel, archfarchnad leol, bwyty lleol. |
| 0 | Busnesau sy'n cyflenwi llai na 30 o ddefnyddwyr y dydd. Unrhyw fusnes nad yw'n wedi'i gynnwys yn y categorïau uchod. |
| Sgôr: | |

**Rhan 2: Lefel gydymffurfio (gyfredol)**

Mae’r ffactor hwn yn ystyried y lefel gydymffurfio yr arsylwyd arni yn ystod yr arolygiad. Dylid ystyried ymlyniad wrth Ganllawiau Arferion Da perthnasol y DU neu’r UE ar gyfer y diwydiant, a chanllawiau tebyg eraill, er enghraifft, canllawiau’r Asiantaeth Safonau Bwyd, y Pwyllgor Cynghori ar Fwyd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

| Sgôr | Canllawiau o ran y system sgorio |
|---|---|
| 40 | Methiant cyffredinol i fodloni rhwymedigaethau statudol. Safonau’n gyffredinol isel. |
| 10 | Busnes nodweddiadol â rhai mân elfennau o ddiffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol. |
| 0 | Cydymffurfio at safon uchel â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer a argymhellir ar gyfer y diwydiant, a chydymffurfio ag arferion da perthnasol y diwydiant. |
| Sgôr: | |

**Rhan 3: Hyder mewn rheolwyr/systemau rheoli**

Mae perfformiad gwirioneddol y rheolwyr yn cael ei sgorio yn Rhan 2 ar sail y canlyniadau a gyflawnir ac y mae’r swyddogion yn arsylwi arnynt. Dylai trefn reoli sy’n sicrhau perfformiad da o ran hylendid bwyd ac y mae’r gweithlu’n ei deall yn dda, sicrhau safon dda yn Rhan 2, ac o ganlyniad, dylai’r sgôr ar gyfer y ffactor hwnnw fod yn isel.

Ni fwriedir i’r adran Hyder mewn Rheolwyr ailystyried yr agwedd hon. Ei diben yw barnu pa mor debygol yw hi y bydd y sefydliad yn parhau i gydymffurfio’n foddhaol yn y dyfodol.

Mae’r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar farn yr arolygwr yn cynnwys:

- hanes y cwmni, ei barodrwydd i weithredu ar sail cyngor a gwaith gorfodi blaenorol, a’i hanes o ran cwynion;
- agwedd y rheolwyr presennol tuag at ddeddfwriaeth safonau bwyd, a phresenoldeb neu ddiffyg presenoldeb trefniadau awdurdod cartref neu awdurdod gwreiddiol perthnasol;
- yr wybodaeth dechnegol fewnol neu allanol am faterion safonau bwyd sydd ar gael i’r cwmni;
- presenoldeb systemau ansawdd, gan gynnwys asesu cyflenwyr a monitro perfformiad, sy’n briodol i faint y busnes a’r risgiau sy’n gysylltiedig ag ef, gyda chyfrifoldebau am reoli risg wedi’u diffinio’n glir;
- o ran busnesau bach, dylid ystyried y gwiriadau sy’n briodol i’r busnes hwnnw.

| Sgôr | Canllawiau o ran y system sgorio |
|---|---|
| 30 | Fawr ddim gwybodaeth dechnegol neu ddim o gwbl.<br>Fawr ddim gwerthfawrogiad o beryglon na rheoli ansawdd, neu ddim o gwbl. Dim system rheoli safonau bwyd.<br>Nifer anghymesur o gwynion cyfiawnadwy ers yr arolygiad blaenorol.<br>Hanes gwael o gydymffurfio. |
| 20 | Mae gan staff ddealltwriaeth sylfaenol o'r gyfraith bwyd berthnasol. Mae'n bosibl nad oes system rheoli safonau bwyd ganddynt. Hanes o gydymffurfio sy'n amrywio'n sylweddol<br>. |
| 10 | Sgôr o 10 neu well yn Rhan 2.<br>Staff yn arddangos ymwybyddiaeth o'r gyfraith bwyd berthnasol a'r rheolaethau angenrheidiol.<br>System rheoli safonau bwyd briodol.<br>Gall fod gan fusnesau llai system sydd wedi'i dogfennu'n fras. Hanes boddhaol o gydymffurfio. |
| 0 | Cyngor technegol ar gael. Yn destun archwiliad/gwiriadau mewnol.<br>System dda i reoli safonau bwyd, cofnodion dogfenedig o wiriadau hanfodol a gwiriadau cyflenwyr, a all fod yn destun archwiliad gan drydydd parti.<br>Tystiolaeth o gydymffurfiaeth â system reoli gofnodedig heb lawer o achosion o ddiffyg cydymffurfio.<br>Dim cwynion cyfiawnadwy ers yr arolygiad blaenorol. Hanes rhagorol o gydymffurfio. |
| Sgôr: | |

**Rhan 4: Amlderau ymyriadau safonau bwyd**

| Categori | Sgôr | Pa mor aml y mae'n ofynnol cyflawni ymyriadau |
|---|---|---|
| A | 101 i 180 | O leiaf bob 12 mis |
| B | 46 i 100 | O leiaf bob 24 mis |
| C | 0 i 45 | Strategaeth orfodi amgen neu ymyriad bob pum mlynedd |

Nid oes angen cynnwys sefydliadau risg isel (45 neu lai) yn y rhaglen o arolygiadau a gynlluniwyd, ond mae'n rhaid iddynt fod yn destun strategaeth orfodi amgen o leiaf unwaith pob pum mlynedd.